



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD MAWRTH, 8FED CHWEFROR, 2022

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 1.15YH

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

**I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni
Bydd gwe-ddarllediad ar gael yn dilyn y cyfarfod.**

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 1/02/22)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
E. Selwyn Griffiths
Elin Walker Jones
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands

Steve Collings
Judith Mary Humphreys
Gareth Tudor Morris Jones
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Elfed Powell Roberts
Sedd Wag

Beth Lawton
Mike Stevens

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

Propel (1)

Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

AELODAU CYFETHLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

Sedd Wag	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
Ruth Roe	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Karen Vaughan Jones	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Manon Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Dilwyn Elis Hughes	UCAC
Dylan Huw Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

6 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021 fel rhai cywir.

5. DATBLYGU FFRAMWAITH ADFYWIO AR GYFER GWYNEDD

16 - 121

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

6. AFLONYDDU MEWN YSGOLION

(A) AFLONYDDU AR BENAETHIAID YSGOLION, ATHRAWON A STAFF YSGOLION TRWY GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

122 - 124

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

(B) AFLONYDDU'N RHYWIOL MEWN YSGOLION

125 - 187

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

7. HYGRCHEDD YSGOLION

188 - 195

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG 2021-22

196

Cyflwyno rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021-22.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Dewi Owen, Rheinallt Puw, Elfed P. Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dewi Roberts a Mike Stevens.

Aelodau Cyfetholedig: Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon).

Swyddogion yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5: Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu'r Economi) a Kelvin Roberts (Arweinydd Rhaglen Cyflogadwyedd)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6: Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Bethan Griffith (Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Adran Addysg Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor), Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)

GwE Alwyn Lloyd Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Safonau), Elfyn Vaughan Jones (Uwch Arweinydd – Uwchradd), Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd) a Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn eitem 5 – Lefelau Diweithdra a Chefnogaeth yn ôl i Swyddi - oherwydd mai ei fab oedd awdur yr adroddiad i'r pwyllgor. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol yn eitem 6 - Cinio Ysgol - oherwydd bod aelod o'r teulu yn Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Nantlle. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. MATERION BRYG

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

5. LEFELAU DIWEITHDRA A CHEFNOGAETH YN ÔL I SWYDDI

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, ar gais y pwyllgor craffu, yn amlinellu'r newidiadau yn niweithdra a pha gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei gynnig i bobl Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd pryder bod cymaint o bobl ifanc y sir yn gadael bob blwyddyn, a phryderid hefyd na ellid dibynnu ar yr ystadegau a gyflwynwyd i'r pwyllgor oherwydd bod yna gymaint o allfudo. Roedd gan Lywodraeth Cymru nod i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac os oedd y cynlluniau hyn yn ddibynnol ar grant gan y Llywodraeth, roedd cyfle yma i ateb yr allfudo sydd wedi bod, yn enwedig oherwydd demograffi'r sir a phwysigrwydd y Gymraeg yn y sir, drwy ddweud wrth y Llywodraeth beth y gellir ei wneud i gryfhau'r ardaloedd Cymraeg ac i geisio atal yr allfudo.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd edrych ar anghenion cyflogaeth i'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd y bobl ifanc hynny sy'n mynd drwy'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi fydd ar gael ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg. Mynegwyd pryder bod pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig megis Pen Llŷn yn gorfod teithio'n bell i fynychu cyrsiau yn y colegau. Nodwyd hefyd bod yna bobl â gwahanol arbenigeddau fyddai, o bosib, mewn sefyllfa i ddarparu hyfforddiant i bobl leol i'w cynorthwyo i gael gwaith, ac awgrymwyd y dylid targedu'r math hynny o bobl.
- Nodwyd bod y sefyllfa swyddi / tai yn y sir yn gylch dieflig. Roedd angen swyddi, ond i ddenu cyflogwyr da, roedd angen tai. Roedd yna brinder tai, ond ni ellid adeiladu tai yn y gobaith o ddenu cyflogwyr. Nodwyd bod Brighter Foods yn Nhywyn yn awyddus i ymestyn yn sylweddol yn sgil derbyn buddsoddiad o £42m, ond eu bod yn cael anhawster denu staff oherwydd prinder tai yn yr ardal. Ychwanegwyd bod De Meirionnydd wedi dioddef yn ddifrifol ers i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig a Datblygu Canolbarth Cymru ddod i ben rai blynyddoedd yn ôl. Cyfeiriwyd hefyd at siop fferm, oedd yn awyddus i ymestyn ac adleoli i uned wag ar Stryd Fawr Tywyn, ond yn methu cael caniatâd cynllunio i wneud hynny, ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor lacio'r cyfyngiadau cynllunio ac annog mwy o adeiladu tai yn yr ardal.
- Mynegwyd pryder bod ymgyrchoedd recriwtio mewn sawl sector, megis gofal, lletygarwch, cymorthyddion ysgol a rhaglen frechu'r Bwrdd Iechyd, i gyd yn pysgota yn yr un pwll, ac y gallai llwyddiant un sector fod ar draul y gweddill.

- Nodwyd bod cyfle yma i gael llwybr gyrfa i bobl sy'n dod i weithio i'r Cyngor, yn enwedig yn y sector gofal, ond nad oedd yr adroddiad yn cyfarch hynny.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod gan yr Adran raglen creu gwaith gwerth uchel, gyda'r nod o greu swyddi o safon yng Ngwynedd i gadw ein pobl ifanc yma. Fodd bynnag, roedd rhai o benderfyniadau'r Llywodraeth, yn enwedig y penderfyniad diweddar i beidio bwrw ymlaen â chynllun ffordd osgoi Llanbedr, wedi bod yn ergyd drom i'r ardal, ac yn golygu y byddai'n anodd iawn cael cwmnïau i fuddsoddi yn y Ganolfan Awyrofod i'r dyfodol. Roedd yn amlwg bod y Llywodraeth yn troi cefn ar yr ardaloedd gwledig ac yn canolbwyntio popeth yn y trefi a'r dinasoedd.
- Bod ambell sylw yn adroddiad y Panel Annibynnol yn creu pryder, megis y sylw y dylai gwaith gael ei gyfeirio at yr ardaloedd twf sydd wedi'u hadnabod yn y Fframwaith Datblygu Rhanbarthol, gan nad oedd Gwynedd yn un o'r ardaloedd hynny. Yn naturiol, roedd pobl ifanc eisiau'r profiad o fynd i ffwrdd i ardaloedd gwahanol i gael profiadau gwahanol, ond roedd yn bwysig ein bod yn gallu creu'r cyfleoedd iddynt allu dychwelyd i'r sir. Gwendid economi Gwynedd oedd y diffyg amrywiaeth swyddi, a nod yr ymdrech yn Llanbedr, a hefyd yn Nhrawsfynydd, oedd cael yr amrywiaeth hynny fyddai'n galluogi i deuluoedd aros yn yr ardal. Croesawid y ffaith bod yna gytundeb gwleidyddol i sefydlu Rhaglen Arfor am gyfnod pellach, a gobeithid y gellid dylanwadu ar y rhaglen yma er mwyn canolbwyntio ar gadw gwaith mewn cymunedau gwledig i gynnal gwasanaethau.
- O ran cefnogi'r sector lletygarwch a thwristiaeth, nodwyd bod y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal dros yr haf diwethaf, wrth i lai o bobl fynd dramor ar wyliau, wedi creu problemau i'r diwydiant, a hefyd i'r gymdeithas sy'n cynnal y diwydiant hwnnw. Mynegwyd gobaiht y byddai'r gwaith ar y cyd â'r Parc Cenedlaethol i ddatblygu economi ymweld cynaliadwy o gymorth i'r diwydiant, a chyfeiriwyd at gynhadledd ddiweddar ar hyn. Nodwyd ymhellach bod gweithdai i'w cynnal ym mis Ionawr, gyda'r nod o lunio rhaglen weithredu erbyn Mawrth.
- Bod y sefyllfa dros y 18 mis diwethaf wedi prysuro'r angen i greu, nid yn unig mwy o swyddi, ond gwell swyddi. Roedd yr Adran yn cefnogi busnesau, ochr yn ochr â chefnogi pobl i gael y swyddi hynny, ac roedd Tîm Gwaith Gwynedd wedi bod yn gweithio'n ddiwyd ar rai ymyraethau fyddai'n hwyluso hynny, e.e. drwy gefnogi pobl sydd eisoes mewn swyddi i symud ymlaen i swyddi sy'n talu'n well, ayb, a thrwy hynny greu cyfleoedd i bobl sy'n dychwelyd i waith, neu'n dod i waith am y tro cyntaf. Hefyd roedd yr Adran yn arwain Rhaglen STEM y Gogledd ar ran cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Roedd yr Adran wedi datblygu eu perthynas gyda'r Adran Addysg yn sylweddol yn y cyfnod diwethaf hefyd ac roedd darn o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn edrych ar anghenion cyflogwyr, a sut i'w hamlygu i blant tra'n dal yn yr ysgol. Roedd y flwyddyn nesaf, sef blwyddyn olaf Cynllun y Cyngor 2018-23, yn mynd i fod yn gyfnod o adolygu a chymryd stoc, gan edrych ar yr anghenion o ran yr economi ac o ran pobl Gwynedd wrth symud ymlaen.
- Bod llawer mwy o ddata ar gael na'r hyn oedd yn yr adroddiad. Roedd y trydydd graff yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn dangos y patrwm diweithdra dros y tair blynedd ddiwethaf (sefydlog yn 2019, naid anferth yn 2020 a gostyngiad yn 2021) a nodwyd y gellid anfon ffynhonnell at yr aelodau iddynt fedru gweld y math yma o wybodaeth mewn mwy o fanylder. Nodwyd ymhellach bod Tîm Gwaith Gwynedd yn gweithio'n agos gyda Thîm Gofal y Cyngor, nid yn unig o ran codi awydd pobl i weithio yn y maes a'u helpu i gael y sgiliau angenrheidiol, ond hefyd i helpu'r sector gofal i feddwl sut maent yn pecynnu'r gwaith, er mwyn denu mwy o bobl. Nodwyd ymhellach y lluniwyd hysbysfwrdd swyddi er mwyn dadansoddi lle mae'r cyfleoedd

gwaith yn codi ar draws y sir, ac ym mha sectorau, a bod y Tîm hefyd yn dadansoddi i ba sectorau mae'r bobl a gefnogwyd i swyddi wedi mynd, er mwyn gweld a yw hynny'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr. Nodwyd, yn fras, ers cychwyn Ebrill, bod tua 40% o'r 150 o unigolion a gefnogwyd i waith wedi mynd i'r sector twristiaeth a lletygarwch, a tua 8% i'r sector gofal. Nodwyd hefyd, ers paratoi'r adroddiad, bod nifer yr unigolion a gefnogwyd bellach wedi codi o 150 i 170. Ychwanegwyd bod y Tîm yn parhau i weithio gyda'r Tîm Datblygu Staff Gofal i geisio denu mwy o bobl i'r maes, ac roedd un ffrwd gwaith yn edrych yn benodol ar ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi'r sector gofal dros y gaeaf, e.e. cyflogi staff tymhorol sy'n glanhau carafanau i gyflawni gwaith gofal domestig dros y gaeaf.

- Bod yr her o dangyflogaeth, neu bobl fyddai'n dymuno, neu'n gallu cyflawni mwy o ran gwaith, ond ddim yn cael y cyfle, yn un o'r heriau o ran cynyddu incwm i deuluoedd, a hefyd o ran diwallu'r anghenion sydd gan fusnesau a sectorau eraill. Roedd yna waith yn digwydd o ran marchnata a hysbysebu i helpu pobl fyddai'n hoffi gwella eu capasiti i weithio, a hynny drwy gyfrwng llinell gymorth a'r cyfryngau cymdeithasol, ayb, ond roedd newid y sefyllfa'n mynd i gymryd amser. Roedd yn broses eithaf parhaus hefyd o edrych ar batrymau gwahanol o weithio. Roedd Tîm Gwaith Gwynedd wedi gwneud darn o waith i edrych ar y posibilrwydd y gallai cwmnïau gyflogi staff tymhorol drwy gydol y flwyddyn drwy ledaenu'r cyflog dros 12 mis, yn hytrach na thalu dros fisoedd yr haf yn unig. Edrychwyd hefyd ar opsiynau o ran swyddi allai weithio ochr yn ochr â'i gilydd a chrëwyd hysbysfwrdd cyflogaeth ar Facebook er mwyn ymateb yn sydyn i anghenion cyflogwyr. Rhannwyd gwybodaeth hefyd drwy Dîm Budd-daliadau'r Cyngor, banciau bwyd a'r CAB.
- Bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo rhwng y Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thîm Gwaith Gwynedd i edrych ar lwybrau gyrfa yn y Cyngor.
- Bod mwy o wybodaeth i ddod ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Disgwylid y manylder ynglŷn â'r broses ymgeisio yn ystod yr haf, ond ni ellid bod yn sicr na fyddai yna rywfaint o fwch o ran hynny. Roedd y Llywodraeth hefyd yn edrych ar bontio drwy barhau ac ymestyn rhywfaint o raglenni dros gyfnod.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.

6. CINIO YSGOL

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Addysg i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn darparu gwybodaeth am drefniadau ysgolion i geisio sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn wynebu diwrnod heb ginio yn yr ysgol, ynghyd â sefyllfa dyledion cinio ysgol a'r prosesau sydd yn weithredol er mwyn ymateb i'r sefyllfa hynny.

Cyn cychwyn ar y drafodaeth, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y llythyr diweddar gan Ysgol Dyffryn Nantlle at rieni ynglŷn â thaliadau cinio ysgol, gan nodi y dymunai roi sicrwydd i'r aelodau nad oedd y Cyngor yn gwrthod cinio ysgol i unrhyw blentyn o fewn y sir, waeth beth oedd yr amgylchiadau. Nododd ymhellach fod Cadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgol wedi gofyn i'r Adran ail-edrych ar eu prosesau, a chadarnhaodd y byddai'r Adran yn sicr yn ymateb i hynny.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd cefnogaeth frwd i fwriad y Llywodraeth i ymestyn cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Nodwyd bod yna nifer o fanteision i hyn, e.e. plant yn dysgu'n well yn y prawn ar ôl cael cinio maethlon, mynd i'r afael â gordewdra, dim gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n cael cinio am ddim a'r rhai sy'n talu ynghyd â chael gwared â'r broblem o deuluoedd sy'n gymwys i gael cinio am ddim, ond ddim yn hawlio am wahanol resymau.
- Gan gyfeirio at y sefyllfa a gododd yn Ysgol Dyffryn Nantlle, mynegwyd siomedigaeth na adroddwyd ar hyn i'r Cyngor llawn diwethaf. Roedd pryder eang a chyffredin ymysg y cynghorwyr ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd, a dylai pob un ohonynt fod wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau. Nodwyd ymhellach bod yr adroddiad yn cyfeirio at 'aneglurder', ond nad oedd yn esbonio beth oedd yr aneglurder hwnnw, nac ychwaith yn cynnig ymddiheuriad am yr hyn ddigwyddodd. Roedd honiadau wedi'u gwneud gan bennaeth mewn gofal bod yr Awdurdod wedi ei ddefnyddio fel bwch dihangol, ac nid oedd yr adroddiad yn cyfarch y cwestiynau difrifol oedd angen eu hateb ynglŷn â hynny.
- Mynegwyd pryder ynglŷn ag unrhyw fwriad i allanoli'r gwasanaeth a chreu ceginau rhanbarthol gan y byddai cau ceginau ysgolion yn arwain at ddiweithdra.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd darparu bwydydd maethlon o ansawdd i blant ysgol ac awgrymwyd bod cyfle yma i ddefnyddio, e.e. llysoiau sy'n cael eu tyfu ar dir yr ysgol / yn y gymuned yn y prydau ysgol.
- Nodwyd, er ei bod yn amlwg bod yr hyn ddigwyddodd yn Ysgol Dyffryn Nantlle wedi achosi poen ac embaras i'r Awdurdod, bod yr Awdurdod wedi ymateb i'r sefyllfa yn gyflym ac yn briodol, gan gywiro unrhyw gamargraff. Roedd rhaid bod yn sensitif i dlodi wrth ymateb i'r sefyllfa, ond roedd angen derbyn hefyd bod yna leiafrif bychan sy'n cymryd mantais o unrhyw systemau gwan o ran casglu arian cinio. Yr egwyddor bwysicaf oedd nad bai'r plentyn yw os nad yw'r rhieni yn talu, hyd yn oed os oes ganddynt y modd i dalu.
- Croesawyd y cadarnhad nad oedd Gwynedd yn atal unrhyw blentyn rhag cael cinio ysgol.
- Mynegwyd dymuniad i gael diweddariadau cyson ynglŷn â threfniadau'r Awdurdod fel mae'r cynlluniau newydd yn symud yn eu blaenau.
- Nodwyd bod dysgu gwersi yn hynod bwysig, a bod cyfle i edrych i'r dyfodol i sicrhau llwyddiant y strategaeth bwysig yma o ran cinio am ddim i bob plentyn cynradd, gan hefyd llobio am yr un peth yn y sector uwchradd a gwneud popeth o fewn ein gallu i unioni anghyfiawnder tlodi.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran cynlluniau'r Llywodraeth i ymestyn cinio ysgol am ddim, y deallid ar hyn o bryd bod bwriad i edrych ar hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, gan gyflwyno'r newidiadau'n raddol a chanolbwyntio ar y plant ieuengaf yn gyntaf. Cydnabyddid bod yr amserlen yn dynn iawn, ond roedd yr Adran eisoes wedi dechrau edrych ar hyn fel eu bod yn rhagweithiol yn sicrhau bod eu trefniadau mewnol yn galluogi iddynt gyfarch yr angen yma cyn gynted â phosibl.
- O dan y ddeddfwriaeth bresennol, bod rhaid i riant wneud cais am ginio am ddim, er eu bod, o bosib, yn derbyn budd-daliadau. Roedd yr ysgolion yn atgoffa rhieni o hynny, ac yn ceisio eu hannog i gyflwyno cais. Serch hynny, roedd pobl yn gyndyn o wneud ceisiadau am fudd-daliadau, gan gynnwys cinio am ddim, a nodwyd bod cyfrifoldeb ar yr holl aelodau etholedig i sicrhau bod eu hetholwyr yn cyflwyno'r ceisiadau hyn. Nodwyd hefyd bod rôl allweddol i Uned Hawlio Lles y Cyngor yn hyn o beth. Nodwyd ymhellach bod cynllun y Llywodraeth yn gam enfawr yng nghyd-

destun llesiant a'n cyfrifoldeb tuag at blant, ac yn dileu unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â cheisiadau o'r fath.

- Bod yr Awdurdod wedi ymddiheuro am y sefyllfa a gododd yn Ysgol Dyffryn Nantlle mewn datganiad i'r wasg, ac i'r ysgolion a'r aelodau etholedig hefyd. Roedd y digwyddiad yn anffodus ac wedi creu pryder i lawer o bobl, ond roedd gwersi wedi'u dysgu, a chyfathrebwyd yn syth â'r ysgolion i atgoffa pawb o ddyhead yr Awdurdod na ddylai'r un plentyn fynd heb ginio yn ysgolion Gwynedd. O ran y diffyg eglurdeb yn yr adroddiad, efallai ei bod yn deg dweud nad oedd yr arweiniad yn ddigon eglur ar un pwynt, ond mater o ddehongliad oedd hynny hefyd, a gweithredwyd yn gyflym iawn i glirio unrhyw aneglurder a chryfhau a chadarnhau safbwynt y Cyngor. Y prif ffocws wrth symud ymlaen oedd sicrhau bod unrhyw drefniant yn cael ei adolygu. Cafwyd sgwrs aeddfed ac agored iawn gyda'r holl benaethiaid, a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn eu bod hwy, fel cyfundrefn, yn prynu i mewn i'r egwyddor yma yn ddiamod.
- O ran allanol i'r gwasanaeth a chreu ceginau rhanbarthol, eglurwyd ei bod yn ddyddiau cynnar iawn ar hyn o bryd, ac mai ystyriaethau cychwynnol yn unig oedd y rhain. Byddai'r Adran yn rhoi sylw manwl i bob un o'r opsiynau ar y bwrdd, gan hefyd gymryd sylwadau'r craffwyr i ystyriaeth wrth wneud hynny.
- Bod ysgolion yn rhydd i ddehongli'r cwricwlwm newydd yng nghyd-destun materion lleol, a bod y sylw ynglŷn â llesiant a byw yn iach, gweithredu'n iach a chael ysgolion iach yn dod yn fwyfwy canolog i'r cwricwlwm newydd. Gan hynny, croesawyd y cynnig i barhau â'r sgwrs gyda'r ysgolion i sicrhau plethu agweddau dydd i ddydd, fel bwyta'n iach a chinio ysgol, fel rhan o'r cwricwlwm.
- Y byddai'r Adran yn fwy na bodlon darparu adroddiad pellach maes o law, a gofynnwyd hefyd i'r aelodau weithio gyda'r Awdurdod i hyrwyddo'r cynlluniau newydd yn eu cymunedau.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, a gofyn i'r Adran Addysg am ddiweddariadau cyson fel mae'r cynlluniau newydd yn symud yn eu blaenau.

7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL ADDYSG

(A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADRAN ADDYSG 2020-21 A BLAENORIAETHAU'R ADRAN ADDYSG

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2020-21.

Cyn cychwyn ar y drafodaeth, diolchodd yr Aelod Cabinet i'r ysgolion a'r penaeithiaid, y staff a'r athrawon am gynnal, nid yn unig y ddarpariaeth addysgol, ond hefyd darpariaethau megis arlwy a glanhau yn ystod blwyddyn hynod o heriol. Ychwanegodd ei bod yn bwysig hefyd cydnabod gwerthfawrogiad yr ysgolion a'r penaeithiaid o'r gefnogaeth a roddwyd gan yr Adran Addysg yn ystod y cyfnod, ac roedd o'r farn bod y berthynas rhwng yr Adran a'r ysgolion wedi cryfhau yn ystod y pandemig.

Ategwyd y sylwadau hyn gan y Pennaeth Addysg a nododd y dymunai yntau hefyd dalu teyrnged i swyddogion yr Adran fu'n cefnogi'r holl waith, a hefyd i staff Adran yr Amgylchedd am y cyngor a'r cymorth amhrisiadwy gan y swyddogion iechyd a diogelwch a'r cydweithio prydlon ac effeithiol i gadw'r sefyllfa i fynd. Nododd fod yr amharu ar addysg a lles plant wedi ei gadw mor isel â phosib' oherwydd dygnwch a dyfalbarhad nifer fawr o bobl Gwynedd, a gallai'r aelodau etholedig ymfalchïo yn ein hysgolion a'u rôl hwythau fel llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgolion ar draws y sir.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i'r Adran am ddarparu adroddiad cryno, oedd yn cyfleu'r negeseuon yn glir iawn.
- Gan gyfeirio at baragraff 3.8 o'r blaen adroddiad, croesawyd y ffaith bod y gair 'dwyieithog' wedi diflannu o'r naratif, gan y dylai'r pwyslais fod ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a mynegwyd gobraith y gellid adeiladu ar hyn dros y blynyddoedd yn ein hysgolion.

Mewn ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran y sefyllfa bresennol yn yr ysgolion, bod y data yn newid yn ddyddiol, ond roedd yn ymddangos bellach bod y sefyllfa wedi cyrraedd uchafbwynt mewn rhai sefyllfaoedd, gyda nifer o staff a phlant yn dychwelyd i'r ysgolion. Roedd y sefyllfa wedi bod yn eithriadol o anodd gyda hyd at 30% o'r staff a'r plant i ffwrdd mewn rhai dosbarthiadau. Yn yr achosion hynny, symudwyd i addysg rithwir a bu'n rhaid i swyddogion yr Adran, ynghyd â'r swyddogion iechyd a diogelwch, gymryd penderfyniadau cyflym iawn a phellgyrhaeddol ar adegau. Roedd y sefyllfa bellach yn sefydlogi mewn rhai pocedi, ac roedd yr Adran yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r ysgolion yn agored mor ddiogel â phosib'. Nodwyd hefyd bod penaethiaid oedd i ffwrdd o'r ysgol oherwydd Cofid wedi parhau i redeg yr ysgolion hynny o gartref.
- Bod y Llywodraeth wedi gofyn i'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ddarparu ffigwr o'r gwariant ychwanegol a welwyd yn y maes hyd yma, a lle y disgwylir i'r gwariant ychwanegol fod yn y dyfodol.
- Nad oedd rhai o'r trafodaethau ynglŷn ag addysg ôl-16 wedi digwydd mor rheolaidd ag y dymunid yn ddiweddar oherwydd y pwysau ar yr ysgolion i ddelio gyda chadw'n agored, ond bwriedid ail-afael yn y drafodaeth yn llawn ym mis Ionawr er mwyn symud ymlaen cyn gynted â phosib' i weld sut y gellir gwella ar y ddarpariaeth bresennol.
- Y cytunid bod y symudiad at addysg cyfrwng Cymraeg i'w groesawu. Eglurwyd bod hwn yn symudiad cenedlaethol yn bennaf, ond bod y Llywodraeth wedi ymgynghori ar hyn gyda'r Pennaeth Addysg a'r swyddogion yng Ngwynedd oherwydd bod Gwynedd yn naturiol yn cael ei gweld fel sir sy'n arwain ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn genedlaethol. O dan y drefn newydd, ni fydd modd i ysgolion barhau yn eu hunfan am gyfnod estynedig o ran cyfrwng eu darpariaeth, gyda'r disgwyliad i awdurdodau sicrhau bod ysgolion yn parhau i wneud cynnydd o safbwynt eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn gynted â phosib'.
- Bod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau hyfforddiant perthnasol a phenodol ar gyfer ei holl staff yn yr ysgolion. Roedd yr angen i wneud hynny wedi ei uchafu hyd yn oed yn fwy yn ystod y pandemig, oherwydd pryder yr ysgolion ynglŷn â cholli'r cyswllt bugeiliol rhwng y plant mwyaf bregus a'r staff proffesiynol, gan nad oeddent yn gweld y plant hynny'n ddyddiol. Nodwyd bod yr ysgolion i'w canmol am y cyswllt gyda phlant bregus drwy gydol y pandemig, ac awgrymwyd y gellid manylu ar hyn mewn adroddiad pellach i'r pwyllgor. Adroddwyd i'r Panel Strategol Diogelu a'r Panel Rhiant Corfforaethol ar yr hyfforddiant ychwanegol oedd wedi digwydd yn y maes yma. Roedd ffocws yr Adran ar lesiant a diogelu yn fwy nag erioed, a chredid bod yr ysgolion wedi llwyddo i wneud hynny'n dda iawn, a bod hynny gydag arweiniad, ac yn sgil effaith yr hyfforddiant ychwanegol.
- Bod dyfeisiadau ar gyfer yr athrawon yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a'r trefniadau ar gyfer eu cynnal a'u cadw yn mynd rhagddynt. Unwaith y byddai hynny yn ei le, byddai dros 1,000 o ddyfeisiadau ar gyfer staff a dros 5,000 o ddyfeisiadau ar gyfer

plant uwchradd yn cael eu dosbarthu i'r ysgolion. Rhagwelid y byddai hynny'n digwydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

- Mai nod y Strategaeth Ddigidol oedd gwella'r strwythur o gwmpas cefnogi TG mewn ysgolion. Roedd isadeiledd y rhyngwyd, sy'n genedlaethol, yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan y Cyngor, gyda phob dyfais yn yr ysgolion yn cael ei reoli'n rhannol gan dechnegydd yr ysgol ac yn rhannol gan gwmni Cynnal. Fel rhan o'r strategaeth o symud i fodel cynnal a chadw gwahanol, bwriedid mewnoli'r gwasanaeth fel bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r cyfrifiaduron ar draws pob ysgol, ac felly'n sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth.
- O ran arian ychwanegol i gynorthwyo disgyblion yn sgil Covid, bod gwaith yn mynd rhagddo, nid yn unig yn sirol, ond yn rhanbarthol hefyd, i sicrhau bod ysgolion yn cyd-weithio mewn cynghreiriau i wneud y gorau o'r adnodd er mwyn unioni'r anfanteision roedd plant wedi cael yn ystod y pandemig. Byddai'r Adran yn cadw llygaid ar ddeilliannau'r cynlluniau ar y cyd â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion.

(B) ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2020/21

Croesawyd swyddogion GwE i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer 2020-21.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE y dymunai gydnabod y gwaith arbennig iawn oedd wedi'i wneud mewn cyfnod heriol iawn yn yr ysgolion.

Yna manylodd yr Arweinyddion Craidd ar ddatblygiadau ar gyfer y cwricwlwm newydd fyddai'n cychwyn yn yr ysgolion cynradd yn 2022.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd y ffaith bod y teitl 'Swyddogion Her' wedi diflannu ac mai 'cefnogaeth', 'datblygu', 'gwella' a 'chymorth', ayb, oedd y geiriau allweddol bellach.
- Mynegwyd pryder nad yw plant, e.e. Blwyddyn 10, sy'n cael profion ffurfiol yn wythnosol, yn gwybod a fydd canlyniadau'r asesiadau hynny yn cyfrannu at eu graddau terfynol ai peidio.

Mewn ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Er na fyddai data perfformiad ar gael o hyn allan, roedd yr arfer o fynd i mewn i ddosbarthiadau, craffu ar lyfrau a siarad ag athrawon a phlant o fudd i'r Gwasanaeth sicrhau bod ganddynt wybyddiaeth dda iawn o'r ysgolion. Ni chredid bod canolbwytio ar set gul o ddangosyddion perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol yn rhoi darlun llawn o'r ysgol, ac wrth symud ymlaen heb y data hwnnw, roedd yn bwysig cael y darlun llawn holistig o ysgol o gwmpas 4 diben y cwricwlwm newydd. Roedd y Gwasanaeth yn edrych hefyd ar les y plant, sut mae'r dysgwyr yn datblygu tuag at y 4 diben, a thrwy lunio gwaelodlin, byddai'r Gwasanaeth yn paratoi adroddiad ar gyfer pob ysgol yng Ngwynedd, ynghyd ag adroddiad rhanbarthol gyda naws lleol fel atodiad, yn crynhoi lle mae'r ysgolion arni, a beth yw'r safonau. Yn amlwg, roedd rhaid bod yn sensitif i sefyllfa'r ysgolion ar hyn o bryd, ond roedd y Gwasanaeth yn

gweithio'n agos iawn gyda swyddogion yr Awdurdod, sydd â darlun o sefyllfa'r ysgolion o safbwynt presenoldeb, cynhwysiad, ADY, ayb, er mwyn cael y darlun llawn. Roedd cysondeb ar draws y rhanbarth yn y dull o weithredu ac o adnabod yr ysgolion, ac roedd angen adnabod unrhyw lithriadau yn gynnar gan ymateb a rhoi cefnogaeth i'r ysgolion. Drwy gymryd cydberchnogaeth dros y deilliannau a gweithio hefo'r ysgol i roi cynllun cefnogaeth mewn lle, gellid sicrhau cefnogaeth llawn ar gyfer sicrhau'r gwella sydd ei angen. Nodwyd ymhellach bod Gwynedd wedi bod yn flaenllaw ac wedi gweithredu hyn yn gynnar iawn. Fel pob cynllun rhanbarthol, roedd angen blas lleol, a gwnaed rhai mân newidiadau i'r cynllun yng Ngwynedd mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion.

- Na ddylai ymadawiad athro/athrawes, fu'n gyfrifol am ddatblygu elfen o'r cwricwlwm newydd yn lleol, fod yn broblem gan fod y cwricwlwm lleol wedi'i baratoi gan yr ysgol gyfan.
- Mai bwriad yr Arolygiaeth yng Nghymru oedd ail-afael mewn arolygiadau ysgolion yn nhymor y Gwanwyn. Roedd trafodaethau cyson yn digwydd gydag Estyn, ac roedd angen i'r Gwasanaeth fod yn sensitif i sefyllfa ysgolion ar hyn o bryd, gan arolygu'r ysgolion yn y cyd-destun hwnnw. Nodwyd ymhellach y byddai Estyn yn peilota arolygon mewn tua 30 o ysgolion i gychwyn, ac roedd cyfle i ysgolion wirfoddoli i fod yn rhan o hyn. Disgwylid dychwelyd yn ôl i'r drefn arferol o arolygu ar ôl y Pasg, er bod y fframwaith wedi newid rhywfaint. Byddai'r negeseuon o'r cynllun peilot yn bwysig fel bod ysgolion yn gliriach o ran y disgwyliadau pan fydd pob ysgol yn gallu cael arolwg o'r Pasg ymlaen, a byddai yna gadw golwg manwl ar y sefyllfa mewn ysgolion erbyn hynny. Nodwyd ymhellach y gobeithid y byddai absenoldeb data ysgolion yn cyfoesi'r drefn arolygu i gymryd cyd-destun ysgolion lleol a chyrhaeddiad plant i ystyriaeth, yn hytrach nag edrych ar ddata moel yn unig, ac y byddai'r broses honno o adolygu yn esgor ar adroddiad adolygiad llawer mwy lleol a defnyddiol i'r ysgol.
- Y cytunid â'r sylw ynglŷn â'r gair 'her' ac y newidiwyd teitl y swydd i 'Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant', sydd wedi gwneud gwahaniaeth o ran newid y diwylliant.
- O ran y cyfeiriad at yr agwedd leol yn y cwricwlwm, bod cyfle yma i athrawon fynd i ddyfnder pynciau i wella dealltwriaeth plant o bynciau sy'n mynd i roi cyfleoedd gwaith iddynt yn lleol, gan hefyd agor eu gorwelion i'r hyn sydd yn y byd mawr y tu allan. Nodwyd hefyd bod cyswllt amlwg yma gyda'r eitem flaenorol ynglŷn ag ansawdd swyddi a lefelau cyflogaeth yng Ngwynedd. O gael hyn yn iawn, ac yn benodol efallai y pynciau STEM, a thargedu a sicrhau bod plant yn cael y dyfnder gwybodaeth sydd ei hangen arnynt yn y maes, byddai'r blas lleol, nid yn unig yn sicrhau bod plant yn cael mynediad at swyddi o ansawdd sy'n talu'n briodol ac yn galluogi iddynt aros yn y sir, ond hefyd, o ystyried y profiadau a'r cymwysterau fydd gan ein pobl ifanc, yn fodd o ddenu diwydiannau i Wynedd.
- Bod yr awdurdodau a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn gyson yn rhoi pwysau ar awdurdodau megis Cymwysterau Cymru i fod yn eglur ynglŷn â'u trefn o ran arholi neu brofi plant a phobl ifanc, ond bod angen yr eglurder hwnnw fwy nag erioed eleni. Roedd sôn mai dymuniad y Llywodraeth a Chymwysterau Cymru oedd symud i fodel o arholi allanol yr haf nesaf, os yn bosib', ond roedd yr ysgolion hefyd yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o asesiadau mewnol. Roedd angen eglurder ar hyn rhag blaen fel bod yr ysgolion yn gallu paratoi'n briodol, ond deallid na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf, sy'n rhy agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol. Nodwyd

ymhellach bod Cyd-bwyllgor GwE wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn galw am benderfyniad buan ar hyn, ac roedd y rhanbarth hefyd wedi bod yn flaenllaw yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru am ddatrasiad buan. Hefyd, roedd yr Aelod Cabinet Addysg wedi bod yn achub ar bob cyfle i yrru'r neges ac i lobio ar ein rhan, ac roedd wedi bod yn llais allweddol yn y drafodaeth ranbarthol a arweiniodd at lythyru'r Llywodraeth am ateb buan.

- Bod Cymwysterau Cymru wedi gofyn i ysgolion sicrhau eu bod yn hysbysu plant ymlaen llaw os bydd asesiad yn cyfrannu at y radd derfynol. Gellid bod yn ffyddiog bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r gofyn yma arnynt. Roedd y canllawiau yn ddigon clir gan CBAC a Chymwysterau Cymru, ond yn ogystal â'r cyfrifoldeb ar yr ysgolion, roedd cyfrifoldeb hefyd ar y Gwasanaeth i atgoffa'r ysgolion o'r rheoliadau ac i'w cefnogi.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.

8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Cyfeiriwyd at benderfyniad y pwyllgor hwn yn eu cyfarfod diwethaf i gyfeirio'r eitem ynglŷn ag Ysgol Abersoch yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried. Nodwyd na lwyddwyd i ddarbwyllio'r Cabinet i newid eu meddyliau ar y mater, gan iddynt gadarnhau eu penderfyniad eu hunain. Pwysleisiwyd nad oedd hyn yn deg ar drigolion y sir, ac y dylai materion sy'n cael eu cyfeirio o'r Cabinet i'w craffu gael eu cyfeirio ymlaen i'r Cyngor Llawn, yn hytrach na'u cyfeirio'n ôl i'r Cabinet, am benderfyniad terfynol.

Gan gyfeirio at yr eitem 'Cefnogaeth i athrawon gyda materion cam drin ar y we', nododd y Pennaeth Addysg fod Estyn wedi cyhoeddi adroddiad yr wythnos hon yn seiliedig ar waith thematig oedd ganddynt, ac y byddai ein hargymhellion ni yn cael eu plethu gydag argymhellion Estyn er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn arwain ar hyn, a'n bod yn gwneud ein gorau i ddileu'r broblem hon yn ein hysgolion. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd mai prif ffocws yr adroddiad i'r pwyllgor fyddai'r elfen awgrymog o gam-drin rhywiol sydd wedi bod yn digwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, ond mater i'r pwyllgor oedd penderfynu a ddymument i'r eitem fod yn ehangach na hynny.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ddiwygiedig.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 1.25 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 5

Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Dyddiad y cyfarfod:	8fed Chwefror 2022
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt:	Llŷr B Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned
Adran / Gwasanaeth:	Economi a Chymuned
Teitl yr Eitem	Datblygu Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yn nodi gweledigaeth y Cyngor sef '*cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu Cymuned, mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi*'.
- 1.2 Yn ystod 2019, penderfynodd Cabinet y Cyngor sefydlu Bwrdd Adfywio i gymryd agwedd trawsffurfiol i'r maes adfywio cymunedau. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor ac yn cynnwys Aelodau Cabinet ar gyfer Economi, Amgylchedd, Eiddo a Thai, Priffyrdd a'r Iaith Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan swyddogion o'r Adrannau perthnasol.
- 1.3 Diffiniwyd 'Adfywio' gan y Bwrdd fel 'ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol' er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg'.
- 1.4 O ystyried y diffiniad, gwelwyd felly fod nifer o swyddogaethau a Gwasanaethau ar draws y Cyngor; ynghyd ag ystod eang o sefydliadau a mudiadau lleol yn cyfrannu at adfywio. Er mwyn gwireddu uchelgais y Bwrdd Adfywio, cefnogwyd y bwriad o ddatblygu Fframwaith Adfywio Newydd ar gyfer Gwynedd.
- 1.5 Yn ystod 2020 bu'n rhaid oedi ar y gwaith oherwydd pandemig COVID-19. Er bod ansicrwydd yn parhau ynghylch sefyllfa'r pandemig, mae gwaith ar y Fframwaith wedi ail-gychwyn yn ystod 2020/21. Yn wir, mae effaith tymor byr y pandemig wedi ei deimlo gan gymunedau ar draws Gwynedd, ac mae'n bosib fod yr angen am Fframwaith Adfywio yn fwy nag erioed.

2. PAM BOD ANGEN CRAFFU?

- 2.1 Mae rhaglen wedi ei pharatoi ar gyfer datblygu'r Fframwaith Adfywio arfaethedig. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu cyfeiriad y Fframwaith arfaethedig, a'r camau sydd wedi gwneud yn ystod Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini).

3. SIAPIO'R FFRAMWAITH ADFYWIO ARFAETHEDIG

3.1 Wrth geisio datblygu sylfaen i'r Fframwaith Adfywio arfaethedig, bu'n ofynnol rhoi sylw i ystod eang o ffactorau ac ystyriaethau.

a) Ffynonellau Ddylanwad

3.2 Fel rhan o'r gwaith rhagbaratoi cychwynnol, bu i'r Bwrdd Adfywio ystyried gwahanol fodelau economaidd, ynghyd â modelau adfywio cymunedol sydd yn cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill. Yn hyn o beth, amlygwyd perthnasedd nifer o 'yrwyr' gan gynnwys model Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy (y pedwar piler, saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio); y Model Toesen (canfod "y gofod diogel a chyfiawn" rhwng y nenfwd amgylcheddol a'r llawr cymdeithasol); a'r model Adeiladu Cyfoeth Cymunedol gan Ganolfan Astudiaethau Economiâu Lleol (CLES). Wrth ymgymryd â'r gwaith cychwynnol, amlygwyd hefyd bwysigrwydd yr argyfwng hinsawdd.

3.3 Yn fwy diweddar, mae hefyd pryderon am effaith COVID-19 ar drigolion a chymunedau. Yn hyn o beth gellir dadlau fod yr angen am Fframwaith Adfywio gyfredol yn fwy nag erioed.

3.4 Yn sgil yr uchod, cytunwyd y byddai'r Fframwaith Adfywio yn rhoi sylw penodol i ddatblygu a chefnogi cymunedau byw, cynaliadwy, iach a hyfyw, gyda'r hyder ac uchelgais i wneud y gorau o gyfleoedd newydd a chyfrannu at ddatrysiadau lleol.

b) Daearyddiaeth ac agweddau gofodol

3.4 Wrth ystyried pwrpas a chyfloedd o ddatblygu fframwaith o'r fath, death yn amlwg y byddai angen ei datblygu mewn dwy prif ran sef


- **Rhan A : Fframwaith Sirol**

Yn gosod cyd-destun, cyfeiriad, trefniadau, (ac o safbwynt Cyngor Gwynedd blaenoriaethau corfforaethol)

- **Rhan B : Cynlluniau Ardaloedd Lleol**

Cynllun adfywio ar gyfer ardaloedd lleol yn cyfleu blaenoriaethau lleol

3.5 Wrth geisio adnabod ardaloedd neu gymunedau lleol edrychwyd ar ddaearyddiaeth y sir. Fel man cychwyn, edrychwyd ar yr ardaloedd llesiant, ond ystyriwyd fod ambell ardal yn rhy fawr yng nghyd-destun adfywio cymunedol lleol. Drwy'r gwaith yma, cafodd 13 o ardaloedd adfywio lleol eu hadnabod sydd wedi eu cynnwys yn y map isod.



Ardaloedd y Fframwaith Adfywio 1

3.6 Byddai datblygu cyfres o gynlluniau adfywio lleol yn fodd o amlygu nodweddion a blaenoriaethau lleol, a chynnig cyfle i gyd-weithio gyda sefydliadau lleol. Rhan allweddol a chanolog i ddatblygu'r cynlluniau adfywio lleol fyddai trefniadau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn canfod dyheadau lleol am ddatblygiad eu hardaloedd.

c) Trefniadau ar gyfer Datblygu Cynlluniau Adfywio Lleol

3.7 Yn 2021, penodwyd Ymgynghoriaeth Burum a'i gymdeithion i gefnogi gydag elfennau o'r gwaith rhagbaratoi - gan gynnwys dadansoddi'r ffynonellau data ar lefel lleol, ac ystyried trefniadau gwaith ymgysylltu cymunedol.

3.8 Fel rhan o'r gwaith yma, ystyriwyd yr angen i ddatblygu trefniadau ymgysylltu effeithiol fyddai'n cynnig sylfaen ar gyfer datblygu cynlluniau adfywio lleol. Mae pwyslais ar gyfranogiad y cyhoedd yn cyd-fynd â Ffordd Gwynedd drwy sicrhau fod preswylwyr yn ganolog i'r holl weithgareddau.

3.9 Yn seiliedig ar y gwaith yma, penderfynwyd datblygu cynigion dan ddilyn methodoleg Adfywio Gymunedol yn Seiliedig ar Asedau. Sail y model yma yw miniogi a defnyddio cryfderau presennol yn y gymuned a'i arwain gan yr egwyddorion isod:

1. **Mae gan bawb gyfraniad i wneud:** Mae gan bob person mewn cymuned rywbeth i'w gyfrannu.
2. **Mae perthnasoedd yn adeiladu cymuned:** Rhaid i bobl fod yn gysylltiedig er mwyn i ddatblygiad cymunedol cynaliadwy ddigwydd.
3. **Rhoi dinasyddion yn y canol:** Dylid ystyried dinasyddion fel actorion - nid derbynwyr - wrth ddatblygu.
4. **Mae arweinwyr yn cynnwys eraill:** Datblygiad cymunedol sydd gryfaf pan fydd yn cynnwys sylfaen eang o weithredu cymunedol.
5. **Mae pobl yn poeni:** Mae angen herio'r syniad o "ddifaterwch" trwy wrando ar ddiddordebau pobl.

6. **Gwrandewch:** Dylai penderfyniadau ddod o sgysiau lle mae pobl yn cael eu clywed.
7. **Gofynnwch:** Mae gofyn am syniadau yn fwy cynaliadwy na rhoi atebion.
8. **Sefydliad tu chwith allan:** Aelodau'r gymuned leol sy'n rheoli.
9. **Mae sefydliadau'n gwasanaethu'r gymuned:** Dylai arweinwyr sefydliadol greu cyfleoedd i gynnwys aelodau o'r gymuned, yna "camu'n ôl".


3.10 Yn anffodus, fe ddaeth yn amlwg byddai cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i ddylanwadu ar y ffyrdd y gellir eu defnyddio i ymgysylltu'n gymunedol am beth amser eto.

4. RHAGLEN AR GYFER DATBLYGU CYNLLUNIAU ADFYWIO LLEOL

4.1 Yn seiliedig at waith rhagbaratoi o siapio'r Fframwaith Adfywio arfaethedig, datblygwyd rhaglen ar gyfer paratoi cynlluniau adfywio ar gyfer 13 o ardaloedd lleol.

4.2 Wrth ddatblygu'r rhaglen, rhoddwyd sylw penodol i'r fethodoleg Adfywio Gymunedol yn Seiliedig ar Asedau. Yn ei hanfod, mae'r Rhaglen yn cynnwys saith cam, o fewn tair prif gyfnod, sef

- Cyfnod 1 - Gosod y sylfeini ar gyfer cyd-gynhyrchu cynllun adfywio ardal (camau 1-3)
- Cyfnod 2 – Datblygu'r cynllun (camau 4-5)
- Cyfnod 3 – Alinio'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r cynllun (camau 6-7)



Ffigwr 1 : Prif Gamau'r Rhaglen

4.3 Gellir crynhoi prif agweddau o'r Rhaglen fel a ganlyn:

Camau		Amserlen
<i>CYFNOD 1: GOSOD Y SYLFEINI</i>		
1.	Datblygu'r Waelodlin Datganiadau Ardal wedi eu paratoi, yn crynhoi data gwaelodlin ar ffurf ffeithluniau sy'n hawdd eu deall.	Ebrill 2021 – Awst 2021
2.	Gweithgarwch Ymgysylltu Cychwynnol Deialog gychwynnol gyda gyda Aelodau, Cyngorhau Tref / Chymuned a grwpiau cymunedol sydd yn weithredol yn yr ardaloedd.	Medi 2021 – Tachwedd 2021
3.	Datblygu rhestr gynhwysfawr o randdeiliaid yr ardal Mapio holl randdeiliaid yr ardal, gan baratoi ar gyfer Cyfnod 2 o'r rhaglen.	Medi 2021 – Rhagfyr 2021
<i>CYFNOD 2: DATBLYGU'R CYNLLUN</i>		
4.	Ymgysylltu Manwl	

	Gwaith ymgysylltu cyhoeddus a chynhwysfawr yn cynnwys seminarau agored, grwpiau ffocws, ymgynghori ar lein a sesiynau galw i mewn (os yn bosib).	Chwefror 2022 - Mehefin 2022*
5.	Datblygu Matrics sefydliadau a phartneriaid gweithredol Ystyried rolau, cyfraniadau gweithredol a chyfrifoldebau wahanol sefydliadau a grwpiau wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol.	Chwefror 2022 – Mehefin 2022
	<i>CYFNOD 3: ALINIO'R ADNODDAU AR GYFER CYFLAWNI</i>	
6.	Mapió'r Adnoddau Mae hyn yn cyfeirio at gasglu gwybodaeth gan sefydliadau a chyllidwyr am adnoddau ar gyfer gyflawni amcanion y cynlluniau adfywio lleol. Bydd sgysiaid rhanddeiliaid a gweithdai gyda phartneriaid ehangach yn rhan pwysig o'r cam yma.	Mai 2022 ymlaen
7.	Adnabod yr opsiynau er mwyn alinio'r cynllun gyda chyfleoedd ariannu Yn ystod y cam yma, rhoddir pwyslais ar geisio sicrhau fod nodau a thasgau'r Cynllun Adfywio yn cyd-fynd a chyfloed ariannu.	Mehefin 2022 ymlaen
	Gynlluniau Gweithredu wedi eu paratoi Cynlluniau Gweithredu wedi eu paratoi ar gyfer 13 ardal adfywio leol, yn ymgorffori blaenoriaethau lleol a gweithgareddau Cyngor Gwynedd, partneriaid sirol a sefydliadau lleol	Gorffennaf 2022 ymlaen

4.4 Rhagwelir y bydd angen cwblhau'r camau uchod er mwyn paratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Mae'n bosib y bydd peth amrywiaeth rhwng ardaloedd gan adlewyrchu nodweddion lleol.

5. DIWEDDARIAD AR Y SEFYLLFA BRESENNOL

5.1 Yn ystod cyfnod 2021/22, mae gwaith wedi bwrw ymlaen gyda'r rhaglen arfaethedig er gwaethaf anawsterau ac ansicrwydd Covid-19. Rydym ar fin cwblhau Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini) o'r rhaglen, ac mae crynodeb o'r camau wedi eu nodi isod

Cam 1: Datblygu'r Waelodlin

5.2 Fel rhan o adroddiad Ymgynghorwyr Burum, gwnaethpwyd gwaith er ystyried pa wybodaeth a data oedd ar gael er mwyn darparu gwybodaeth am sefyllfa economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardaloedd lleol.

5.3 Yn gyffredinol, mae nifer o ffynonellau data safonol a chyfredol yn cael eu cyhoeddi ar lefel sirol. Er mwyn casglu data am yr ardaloedd lleol, roedd her o geisio adnabod ffynonellau data ar lefel Ardaloedd Uwch Gynnych Haen Is (LSOAs) neu gyffelyb. Er bod sawl ffynhonnell data wedi eu hadnabod, a data wedi ei gasglu, dylid nodi fod rhai o'r ffynonellau data yn debygol o fod wedi dyddio - gan gynnwys Cyfrifiad 2011.

5.4 Gyda chefnogaeth Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor, fe baratowyd Datganiad Ardal ar gyfer pob un o'r 13 ardal gan ddefnyddio'r data oedd ar gael. O ran cyflwyno'r wybodaeth, defnyddiwyd amcanion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 er mwyn adnabod prif themâu. Hefyd, ymgorfforwyd data cymharol ar gyfer cyfartaledd Gwynedd a Chymru os yn berthnasol.

- 5.5 Mae enghreifft o Ddatganiadau Ardal wedi ei cynnwys fel Atodiad A er gwybodaeth. Paratowyd Datganiad o'r fath ar gyfer pob un o'r ardaloedd, a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y platform digidol sy'n cael ei baratoi ar gyfer yr ymgysylltu cyhoeddus.
- 5.6 Roedd dau ddiben i'r Datganiadau Ardal mewn gwirionedd. Yn gyntaf, oedd cynnig crynodeb o nodweddion yr ardal yn seiliedig ar ddata. Yn ail, byddai'n cynnig cyddestun ar gyfer trafodaethau cychwynnol gyda chymunedau lleol o ran ceisio adnabod prif faterion a blaenoriaethau lleol.

Cam 2 : Gweithgaredd Ymgysylltu Cychwynnol (Gwedd 1)

- 5.7 Bwriad y cam yma oedd cynnal sgysiau cychwynnol gydag Aelodau, Cyngorau Tref / Chymuned a grwpiau cymunedol blaengar i'w holi am gryfderau, blaenoriaethau a chyflleoedd yn eu cymunedau. O ran adnabod materion a blaenoriaethau lleol, credir fod angen rhoi ystyriaeth lawn i farn, profiadau a theimladau trigolion lleol.
- 5.8 Er mwyn hwyluso a chysoni sgysiau cychwynnol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

1. *Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo am eich fel lle i fyw ar hyn o bryd:*
 - a. *Beth sy'n dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)*
 - b. *Beth sydd ddim mor dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)*
2. *Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth). Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y llyfryn electroneg 'Datganiad Ardal' sydd wedi ei atodi)*
3. *Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?*
4. *Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol arall neu berthnasol sydd wedi digwydd?*

Cwestiynau Gwaith Ymgysylltu Cychwynnol 'Ardal Ni' (2021)

- 5.9 Trefnwyd gwaith ymgysylltu cychwynnol bennaf drwy'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau, Adran Economi a Chymuned gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r dulliau o dderbyn adborth a sylwadau gan sefydliadau lleol wedi bod yn amrywiol - boed yn gyfarfodydd llawn, yn gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr wedi eu henwebu, yn ymatebion ysgrifenedig. Er hynny, mae'r holl sylwadau ac ymatebion yn cael eu mewnbynnu i fas data "Ardal Ni 2035".
- 5.10 Mae'r tabl isod yn dangos nifer o ymatebion a dderbyniwyd fesul ardal fel rhan o'r trafodaethau cychwynnol.

Ardal Adfywio Leol	Nifer
Dalgylch Bangor	13
Bro Ogwen	10
Dalgylch Caernarfon	8
Bro Peris	23
Bro Lleu / Nantlle	15
Ardal Llyn	18
Dalgylch Pwllheli	14
Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	7
Bro Ffestiniog	10
Bro Ardudwy	14
Dalgylch Bala Penllyn	7
Bro Dysynni	10
Dalgylch Dolgellau	9
Cyfanswm	158

- 5.11 Dylid nodi fod y trefniadau wedi amrywio o ardal i ardal. Gan mai gwaith ymgysylltu cychwynnol oedd y bwriad, rhagwelwyd yn wreiddiol mai nifer cyfyng o ymatebion a fyddai yn cael eu derbyn, ond bod gryn ddiddordeb wedi ei ddangos.
- 5.12 Mae'r holl ymatebion bellach wedi eu cofnodi a'u dadansoddi, ac adroddiad o'r canlyniadau wedi ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal yn unigol.
- 5.13 Mae enghreifftiau cryno o'r adroddiadau hyn wedi ei chynnwys fel Atodiad B er gwybodaeth.
- 5.14 Er bod yr adroddiadau hyn yn seiliedig ar drafodaethau cychwynnol yn unig, mae'r ymarferiad wedi amlygu pwysigrwydd agweddau a nodweddion lleol.
- 5.15 Er hynny, gwelir hefyd fod rhai materion yn codi mewn nifer o'r ardaloedd, ac mae'r tabl isod yn cynnig rhai enghreifftiau

"Beth sy'n dda am yr ardal	<p><i>Nifer o ardaloedd wedi amlygu materion megis</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol</i> • <i>Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol</i> • <i>Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant</i> • <i>Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai</i> • <i>Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol</i>
"Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?"	<p><i>Nifer o ardaloedd wedi amlygu materion megis</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser</i> • <i>Diffyg tai sy'n fforddiadwy i bobl leol</i> • <i>Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws</i> • <i>Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal</i>

	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Pryderon am ddarpariaeth iechyd</i>
<p>“Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn y lle delfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn hyn ddigwydd?”</p>	<p><i>Nifer o ardaloedd wedi amlygu materion megis</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol</i> • <i>Ardal fwy gwyrdd a chynlluniau arbed yr amgylchedd</i> • <i>Creu gwaith a swyddi gwerth uchel</i> • <i>Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol</i> • <i>Rhagor o adnoddau iechyd, gofal a llesiant</i>

- 5.16 Bydd y wybodaeth a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y gwaith cychwynnol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer camau nesaf o'r rhaglen.

Cyfleoedd Ymgysylltu Ehangach

- 5.17 Tra'n cynllunio ar gyfer yr gwaith ymgysylltu cychwynnol, daeth hefyd yn amlwg bod nifer o Adrannau / Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn paratoi ar gyfer gwahanol ymgyrchoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod 2021/2 a 2022/3.
- 5.18 O ganlyniad mae'r gwaith ymgysylltu'r Fframwaith Adfywio wedi ei gynllunio fel bydd modd cyd-blethu gwahanol ffrydiau ymgysylltu o dan faner "Ardal Ni 2035" / Dweud Eich Dweud Gwynedd.
- 5.19 Yn wir, mae gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn o'r gwaith hyd yma eisoes wedi ei defnyddio fel rhan o adolygiad asesiadau llesiant (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), a'u defnyddio fel rhan o'r Cynllun Cymunedau Glan a Thaclus. Mae'r wybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o waith paratoi Arolwg Anghenion Tai Lleol (Adran Tai ac Eiddo) ac Asesiad Anghenion Poblogaeth (Adran Oedolion).

6 CAMAU NESAF

- 6.1 Yn dilyn cwblhau Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini) o'r rhaglen ar gyfer datblygu cynlluniau adfywio lleol, byddwn yn symud ymlaen i Gyfnod 2 (Datblygu'r Cynlluniau). Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu eang a chyhoeddus i geisio barn gymunedau ar flaenoriaethau lleol.
- 6.2 Mae gwaith paratoi manwl eisoes ar waith gyda chefnogaeth Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor. Bwriedir datblygu platform digidol newydd a phwrpasol ar gyfer y gwaith ymgysylltu sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r fframwaith adfywio, bydd modd defnyddio'r platform ar gyfer nifer o ymgyrchoedd ymgysylltu eraill fydd yn cael eu cynnal gan y Cyngor.
- 6.3 Mae'r platfform digidol sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd wedi ei gynllunio gan ystyried yr ardaloedd adfywio lleol, ac yn ymgorffori agweddau megis
- Asesiadau Ardal unigol
 - Adroddiadau yn deillio o'r trafodaethau cychwynnol
 - Holiadur penodol i ardaloedd unigol (gan ddilyn methodoleg Cyfnod 1)

- 6.4 Bwriedir lansio ymarferiad a'r platform digidol erbyn canol fis Chwefror. Rhagwelir y byddwn yn oedi'r gwaith o hyrwyddo'r gwaith ymgysylltu yn ddiweddarach ym mis Mawrth i gyd-fynd hefo'r cyfnod cyn-etholiad.
- 6.5 Yn ystod cyfnod y pandemig, mae defnydd cynyddol wedi ei wneud o gyfarfodydd rhithiol a dulliau cyfathrebu digidol. Serch hynny, dylid cydnabod hefyd y gall agweddau digidol fod yn rhwystr i rai carfannau o'r boblogaeth. Fel rhan o'r trefniadau ymgysylltu rydym hefyd yn cynllunio ar gyfer ddulliau a chyfryngau ar gyfer annog a hwyluso cyfranogiad unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu at y gwaith. Fel rhan o'r holiaduron, byddwn yn gasglu gwybodaeth am gyfrangwyr er mwyn ein galluogi i baratoi asesiad cydraddoldeb llawn.

7. DIWEDDGLO AC ARGYMHELLION

- 7.1 Mae'r bwriad o baratoi cynlluniau adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd wedi ei gynnwys o fewn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-23. Mae ymrwymiad i ymgysylltu gyda rhanddeiliad er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac adnabod blaenoriaethau lleol. Mae cyfle hefyd i sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad Cynlluniau Adfywio Lleol.
- 7.2 Er gwaethaf amgylchiadau'r pandemig, roedd penderfyniad i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer y sir.
- 7.3 Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar gyfeiriad y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith arfaethedig, a'r camau sydd wedi eu gweithredu yn ystod Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini).

ATODIADAU:

- Atodiad A Enghraifft o Ddatganiad Ardal
Atodiad B Adroddiadau Ardaloedd Adfywio Lleol (Crynodeb Drafft Cyfnod 1)

Sut le ydi

BRO PERIS?

Tud. 25

LLANBERIS A NANTPERIS

BETWS GARMON

LLANRUG A CWM-Y-GLO

LLANDDEINIOLEN

WAUNFAWR A CAEATHRO



*** Ffynhonell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynhonellau data. **

11,665



o drigolion yn byw yn Bro Peris.

Tud. 26



BYWYD HAPUS ...



% sy'n mwynhau iechyd da neu da iawn



Cyfartaledd amser teithio at ac o siopau bwyd:



Cyhoeddus

Bro Peris:

33

munud

Gwynedd:

40

munud

Cymru:

32

munud



Preifat

Bro Peris:

6

munud

Gwynedd:

6

munud


Cymru:

4

munud

Tud. 27

% argaeledd band eang (30Mb)



Cyfartaledd amser teithio at ac o gyfleuster chwaraeon:



Cyhoeddus

Bro Peris:

91

munud

Gwynedd:

71

munud

Cymru:

55

munud



Preifat

Bro Peris:

19*

munud

Gwynedd:

12

munud

Cymru:

10

munud

*sef yr isaf yng Ngwynedd

BYWYD IACH ...




Disgwyliad oes yn Bro Peris:



83

oed

Gwynedd: 83.3
Cymru: 82.3



78.9

oed

Gwynedd: 78.9
Cymru: 78.3

Tud. 28



Gwynedd: 20.2 Cymru: 23.2



Diagnosis o gyflwr
iechyd meddwl a
gofndwyd gan
feddyg teulu
(cyfradd fesul
100)

Plant 4-5 Oed sy'n ordew (%)




Bro Peris **11.3%**

Gwynedd **13%**

Cymru **11.8%**

Marwolaethau cynamserol fesul 100,000 o bobl (30-70 oed):



Bro Peris:

275

Gwynedd: 284.1 Cymru: 315.5

% o fabanod â pwysau geni isel (2.5kg neu lai)

Bro Peris **4.74%**

Gwynedd **5%**

Cymru **5.5%**



BYWYD DIOGEL ...

Bwrgleriaethau a gofnodwyd gan yr Heddlu (cyfradd fesul 100)



Bro Peris: 0.66

Gwynedd: 0.64
Cymru: 0.98

Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd gan yr Heddlu (cyfradd fesul 100)



Bro Peris: 1.55

Gwynedd: 2.52
Cymru: 2.55


Digwyddiadau tân (cyfradd fesul 100)



Bro Peris: 0.35

Gwynedd: 0.38
Cymru: 0.38

Canran yr heinitiau fesul 100,000 poblogaeth hyd ar ddiwedd 6 Ebrill 2021



Bro Peris: 2,996

Gwynedd: 2,650
Cymru: 2,040

Tud. 29

ADDYSG A SGILIAU...



Tud. 30

86.7%

o oedolion (25-64 oed)
gyda chymhwyster -

**sef y canran
uchaf yng
Ngwynedd!**

Gwynedd: 83.4% Cymru: 80.6%




Bro Peris sydd â'r
marciau uchaf yng
Ngwynedd ar gyfer
Pynciau Craidd
(14-16 oed)

Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod
Allweddol 4 ar gyfer pynciau craidd:

Bro Peris: 130
Gwynedd: 124
Cymru: 119

% o ddisgyblion
Cyfnod Allweddol 4
yn mynd i Addysg
Uwch (16 oed+)

39.17%*



*sef yr uchaf yng Ngwynedd

ECONOMI A CHYFLOGAETH..



% o'r
boblogaeth
25-64oed sy'n
weithgar
economaidd



Bro Peris:



82%

Gwynedd:



79%

Cymru:



75%

Canolrif incwm net aelwydydd
Bro Peris:

Tud. 31

£29,563



Gwynedd: £26,452

Cymru: £26,931



18.37%*

(%) Swyddi gwerth uchel yn
Bro Peris

Gwynedd: 11.1%

Cymru: 13.6%

*sef yr uchaf yng Ngwynedd

ECONOMI A CHYFLOGAETH..



Tud. 32

% o'r boblogaeth oed gweithio sydd gyda'r cymwysterau CGC2 neu uwch




% o bobl mewn amddifadedd incwm



Pobl oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth (%)



TAI..



Tud. 33

Canolrif prisiau tai yn Bro Peris:

£166,150

Gwynedd: £167,125

Cymru: £162,000

% o dai sy'n gartrefi gwyliâu yn Bro Peris

Bro Peris 5%

Gwynedd 11%

Cymru 3%

Pobl sy'n byw mewn cartrefi gorlawn (%)



4.94%

5.24%

5.53%

Bro Peris

Gwynedd

Cymru

TAI..



Y tebygolrwydd o dai sydd mewn cyflwr gwael (%)

Bro Peris

27%


Gwynedd

29.1%

Cymru

19.7%

Tud. 34



Cyfartaledd Defnydd Trydan Cartref yn Bro Peris (kWh):

4,165

Gwynedd: 3,964

Cymru: 3,548


Proffil Stoc Tai

(Cymhareb Stoc "Newydd" i "Hen" Stoc - y Canran o dai a adeiladwyd 2000-2015 i'r canran stoc presennol a adeiladwyd cyn 1919)

0.11

Gwynedd: 0.15

Cymru: 0.40



% sy'n gallu siarad Cymraeg



Tud. 35



HENEIDDIO'N DDA ..




% o'r boblogaeth sy'n byw gyda salwch hir dymor neu anabledd



% aelwydydd un person oed 65 a throsodd



% o'r trigolion arferol yn cynnig o leiaf 1 awr o ofal di-dâl yr wythnos



AMGYLCHEDD GWYDN, HARDD A HYGyrch ..



Sgôr ar gyfer agosrwydd at
Fan Gwyrdd Naturiol
Hygyrch (%)



Tud. 37

Bro Peris

77.76%

Gwynedd

76.6%


Cymru

77%

Pa faesydd sy'n "sefyll allan" am Bro Peris yn ôl y data?

Defnyddiwch a llenwch y goleuadau traffig i helpu os ydych yn dymuno.

Tud. 38



Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **15** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ardudwy.
- 1.6 Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3**.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	11
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	9
Ardal ddiogel a saff	8
Rhwydwaith trên y Cambrian	5
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	4
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	4
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	4
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	4
Llwybrau a chyfleoedd cerdded a beicio	3
Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth	3
Aer glan / dim llygredd	3
Darpariaeth Addysg / Ysgol leol	3
Cynnyrch a busnesau lleol	2
Treftadaeth a hanes yr ardal	2
Trafnidiaeth gyhoeddus - rhwydwaith bws	2
Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc	1
Tywydd	1
Gwirfoddolwyr	1
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ardudwy yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	12
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	10
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	9
Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuentid	9
Nifer o ail dai a tai haf yn yr ardal	6
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau	5
Yr iaith / diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr	5
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	4
Diffyg capasiti ac awch yn lleol i gynnal gweithgareddau a denu pobl i fod yn arwain Cyngorau Cymuned a grwpiau	4
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	4
Prinder tai o safon i'w rhentu	4
Pryder am addysg e.e. nad oes llawer yn mynd ymlaen i addysg uwch	4
Dim digon o bwyntiau gwefru ceir	3
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	2
Pellter daearyddol o bob man	2
Dim digon o ddarpariaeth / buddsoddiad i gyfleusterau celfyddydol a hamdden	2
Diffyg gofal plant yn yr ardal	2
Diffyg cyfleusterau fel toiledau cyhoeddus	2
Diffyg gweithgareddau / clwb i bobl hŷn	2
Pryder am brisiau bwyd a thanwydd	1
Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol	1
Problemau yn ymwneud a pharcio	1
Mynediad gwael i'r harbwr	1

4. Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Arduw am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel e.e. drwy agor Maes awyr Llanbedr	9
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	7
Mwy o anogaeth a gweithgareddau fel bod yr iaith / diwylliant yn ffynnu	5
Gwell darpariaeth chwaraeon yn yr ardal	4
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	4
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	3
Gwell llwybrau beics a cherdded	3
Gwell rhwydwaith ffyrdd	3
Grwpiau Cymunedol i gyd-weithio yn lleol	3
Deddfwriaeth er mwyn cael gwell rheolaeth ar dai haf / ail gartrefi	2
Gwell lleoliadau cymunedol / hwb neu ganolfan	2
Gwell llety / gwesty gwyliau yn yr ardal	2
Darpariaeth gofal plant addas yn yr ardal a grwpiau mam a babi	2
Mwy o amrywiaeth o fusnesau a gweithgarwch economaidd yn yr ardal	3
Cymunedau glan a thaclus	2
Mynediad i ddiwylliant a chelfyddydau	2
Addysg – mae angen darpariaeth Ysgol Gydol Oes	1
Cymorth i hyrwyddo canolfan Harlech & Arduw Hamdden/Leisure	1
Is-adeiladaeth band eang	1
Safbwynt gwleidyddol - teimlo bod Plaid Cymru yn anghofio am Dde Meirionnydd	1
Pryder am wahaniaethu o safbwynt iaith (dim croeso i rai di-Gymraeg)	1
Cyfleusterau Parcio	1
Gwelliannau i'r Harbwr	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ardudwy:

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth San Steffan
- Harlech & Ardudwy Hamdden/Leisure
- Friends of Wern Mynach.
- Arglwydd Harlech
- Ysgolion / Colegau
- Neuadd Bentref Dyffryn Ardudwy
- Byddai'r ardal yn elwa o fenter fel y Dref Werdd neu Antur Stiniog
- Siambr Fasnach
- Canolfan Gymunedol
- Bwrdd Iechyd
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Sector Preifat
- Ymddiriedolaeth Gymunedol Abermaw
- Barmouth Oasis Community Group
- Byw'n Iach
- Clwb Rygbi Harlech
- Clwb Golf Harlech
- Arloesi Gwynedd Wledig
- Theatr y Ddraig
- Parc Cenedlaethol Eryri

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ardudwy:

- Holiadur Barmouth Oasis Community Group. Er mwyn sefydlu'r anghenion penodol y gymuned, cynhaliwyd Arolwg Cymunedol. Edrychodd yr Arolwg ar natur Abermaw fel cymuned, y gwasanaethau cyfredol sydd ar gael a beth oedd barn pobl am y gwasanaethau hyn, yn enwedig anghenion trafniadaeth, a gofynnodd pa gyfleusterau a gwasanaethau yr hoffai pobl eu gweld yn yr ardal. Mae'r grŵp wedi darparu copi o'r adroddiad i ni, ac y crynodeb yn dangos mai blaenoriaethau oedd cael hwb cymunedol ganolog, sesiynau galw mewn i oedolion unig, clybiau cymdeithasol, grwpiau trafod, grwpiau gweithgareddau, mynediad i gyfrifiaduron, hwb i gynnal achlysuron fel priodas a gyfleusterau i'r digartref.
- Ymgynghoriad ail gartrefi
- Ymgynghoriad pwyntiau gwefru
- Ymgynghoriad cartrefi modur
- Ymgynghoriad maes parcio
- Ymgynghoriad cyfyngiadau parcio

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala a Phenllyn



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda 7 o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau Lleol Dalgylch Bala a Phenllyn.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala Penllyn yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	7
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	4
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	3
Adnoddau iechyd a gofal	3
Aer glan / dim llygredd	2
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	2
Darpariaeth i bobl hŷn	2
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, theatr	2
Lle da i fagu teulu	2
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	2
Cynnyrch a busnesau lleol	1
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	1
Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth	1
Gwirfoddolwyr	1
Band eang da	1
Canolfan ailgylchu da	1
Dim siopau gwag	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala Penllyn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	5
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	5
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	4
Y stoc dai ddim yn addas i'r galw a phroblemau Cynllunio	3
Pellter daearyddol o gyfleusterau a gwasanaethau	3
Yr iaith / diwylliant yn colli tir	2
Problemau yn ymwneud a pharcio	2
Darpariaeth iechyd, llesiant a gofal	2
Twristiaid ddim yn parchu'r ardal	1
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	1
Band eang / cysylltiad we wael	1
Dim angerdd / arweiniad yn lleol er mwyn newid	1
Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala Penllyn am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	4
Twristiaeth gynaliadwy a datblygu adnoddau ymwelwyr	4
Cefnogaeth i Neuadd / Canolfan gymunedol er budd trigolion lleol	4
Cynnal a datblygu llwybrau beicio a cherdded a llecynnau gwyrdd	4
Gwarchod y cae chwarae fel adnodd cymunedol	2
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	2
Mwy anogaeth i'r iaith / diwylliant er mwyn ffynnu a helpu dysgwyr	2
Busnesau lleol yn parhau i ffynnu	2
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	2
Gwarchod y diwydiant amaeth yn yr ardal	1
Cadw safon darpariaeth iechyd	1
Gwell rheolaeth parcio ar gyfer trigolion	1
Creu is-adeiladaeth band eang	1
Ardal fwy gwerdd a chynlluniau atal argyfwng hinsawdd	1
Ysbyty cymunedol ar agor 24 awr	1
Datganoli gwasanaethau i ardaloedd mwy gwledig	1
Angen buddsoddiad yn ein pobl ifanc	1
Mwy o gyfleoedd i dyfu bwyd yn lleol	1
Dim rhwystrau gan Gyngor Gwynedd wrth drosglwyddo asedau cymunedol	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Bala Penllyn

- Cyngor Gwynedd
- Cwmni Pum Plwy Penllyn
- Cymdeithas gymunedol y Bala a Penllyn
- Partneriaeth Penllyn
- Grwpiau cymunedol lleol
- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Parc Cenedlaethol
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Clwb Rygbi
- Grŵp Busnes
- Canolfan deulu
- Aelodau Senedd
- Rheilffordd Llyn y Bala
- Bwrdd Iechyd
- Cymdeithasau Tai

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi ysgrifennu cynllun dros y misoedd diwethaf i adnabod y brif thema sy'n effeithio ar yr ardal a be ydi rôl gwahanol gyrff i ymateb. Yn Gwerthfawrogi ein help i ymgorffori'r rheiny i'r cynlluniau ardal er mwyn cael cefnogaeth i geisio ymateb i'r hyn sydd wedi codi, a symud y dymuniadau yn eu blaenau.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Bala Penllyn:

- Mae'r Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi paratoi cynllun ardal ac yn awyddus i gael trafodaeth gyda gweddill Cyngorau'r ardal dan sylw trwy gyfrwng Partneriaeth Penllyn er mwyn ymgorffori'r cynllun yma yn y cynllun Bala Penllyn ehangach.
- Colli'r adnodd 'Y Cyfnod' wedi bod yn ergyd i'r ardal.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bangor



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **12** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau Lleol Dalgylch Bangor.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr o Dalgylch Bangor yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Y gymuned a'r bobl	5
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	5
Dinas ddiwylliannol ac amrywiol	4
Y Brifysgol	4
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	3
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	3
Treftadaeth a hanes yr ardal	2
Adnoddau iechyd – Canolfan iechyd ac Ysbyty	2
Digwyddiadau celfyddydol	2
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	1
Economi nos fywiog	1
Trafnidiaeth gyhoeddus da	1
Gwelliannau sy'n digwydd drwy'r Ardal Gwella Busnes	1
Ardal ddiogel a saff	1
'Defibrillators' wedi ei diogelu	1
Cyfleoedd a gweithgareddau i bobl ifanc	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr o Dalgylch Bangor yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Dirywiad y Stryd Fawr	5
Diffyg tai sy'n addas a fforddiadwy i bobl leol	4
Effaith tai myfyrwyr ar ardaloedd preswyl	4
Diffyg cyfathrebu a chyd-weithio rhwng sefydliadau a grwpiau	4
Economi leol a dim byd i ddenu pobl i'r ardal	3
Agweddau negyddol	3
Cyswllt Brifysgol gyda chymunedau lleol	3
Bangor wedi colli hunaniaeth a bwrlwm	3
Grwpiau angen cefnogaeth ariannol	2
Angen cymorth / cyllid i fod yn cynnal digwyddiadau / bwrlwm cymunedol	1
Dim digon yn cael ei wneud i uchafu potensial efo Storiel	1
Gormod o finiau sbwriel	1
Dim byd yn cael ei wneud fel rhan o'r BID	1
Angen i'r Ysbyty cymunedol gyfarch anghenion pobl hŷn	1
Dim digon yn defnyddio Parc Menai a Parch Bryn Cegin	1
Cyngor Gwynedd ddim yn cefnogi Ysbyty Gwynedd	1
Problemau yn ymwneud â ffyrdd a thraffig	1
Diffyg llwybrau cerdded diogel	1
Diffyg adnoddau ym Maesgeirchen	1
Cau clybiau ieuenctid yn gamgymeriad mawr	1
Arafwch gwireddu prosiectau	1
Dim digon o adloniant	1
Diffyg swyddi o safon	1
Safon unrhyw waith yn yr ardal o ganlyniad i is-gontractio gan y Cyngor	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bangor am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Datblygu'r stryd fawr	4
Dim agweddau negyddol a magu balchder yn yr ardal	3
Gwneud mwy o'r llwybrau cerdded a beicio lleol	3
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	3
Prifysgol i ffurfio cysylltiadau cryfach efo'r gymuned	3
Cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngorau Cymuned a grwpiau lleol	3
Rheolau cynllunio llym o ran datblygu adeiladau	2
Gwaith atal llifogydd yn Hirael	2
Datblygu ffordd o rannu gwybodaeth	2
Ail agor y clybiau ieuentid a gwasanaethau tebyg	2
Cefnogaeth gan Swyddogion y Cyngor i gynnal prosiectau adfywio	1
Mwy o ddigwyddiadau e.e. Ffair	1
Gwneud mwy o'r ardaloedd tu hwnt i ganol Bangor	1
Swyddfeydd Cyngor Gwynedd wedi lleoli ym Mangor	1
Cadw cymunedau yn lan a thaclus	1
Cryfhau Cyngor tref Bangor	1
Prosiectau treftadaeth leol	1
Ardal sy'n ateb gofynion pobl ifanc	1
Mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg	1
Datblygu Parc y Ddinas	1
"Park and ride" yn ardal yr Ysbyty	1
Man canolog i ddathlu cymunedau'r ardal mewn ffordd weledol	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Dalgylch Bangor:

- Cyngor Gwynedd
- Y Brifysgol
- Storiel
- Castell Penrhyn
- Menter Iaith Bangor
- Cwmni'r Fran Wen
- Ysbyty Gwynedd
- Bwrdd Iechyd
- Partneriaeth Bangor
- Grwpiau a Busnesau Lleol
- Maes Ni
- Ysgolion yr ardal
- Cyngor Dinas
- Cynghorau Cymuned
- Pontio
- Cymdeithasau Tai e.e ADRA
- Grŵp Maestryfan
- Partneriaeth BID Bangor
- Llywodraeth Cymru
- Coleg Menai
- Bangor First
- Wild Elements
- Y gadeirlan
- Archfarchnadoedd y ddinas

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Prif Gynllun Dinas Bangor wedi ei gyhoeddi Awst 2020

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Dalgylch Bangor:

- Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill a llawer o drafodaeth e.e. Dinas dysg, ond mae pobl yn teimlo'n rhwystredig ac mae angen gweld y pethau bychan yn digwydd sydd mor bwysig i falchder y gymuned.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Peris

Ardal Ni 2035
Bro Peris



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **23** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Peris.
- 1.6 Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3**.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r pethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Peris yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	12
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	9
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	8
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	7
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	6
Ardal ddiogel a saff	6
Treftadaeth a hanes yr ardal	4
Adnoddau iechyd – ysbyty, fferyllfa, meddygfa	4
Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell	4
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	4
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	3
Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc	3
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	3
Ardal glan a thaclus	3
Cynnyrch a busnesau lleol	3
Potensial ynni adnewyddadwy	2
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	1
Gwirfoddolwyr	1
Aer glan / dim llygredd	1
Darpariaeth/cyflwr tai	1
Economi cryf / dim llawer o dlodi	1
Ardal efo traddodiad creadigol / celfyddydol	1
Rhandiroedd cymunedol Caban Cyf	1
Uwchraddio Neuadd Rhiwlas wedi gwneud gwahaniaeth mawr	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Peris yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Problemau yn ymwneud a pharcio	13
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	12
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	8
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	8
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	6
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	6
Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid	6
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	5
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	5
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	5
Yr iaith / diwylliant yn colli tir	4
Materion yn ymwneud â darpariaeth addysg / lleoliad ysgolion	4
Angen denu pobl i fod yn rhan o Gyngorau Cymuned / Pwyllgorau	3
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau	3
Dim man ymgynnull / hwb cymunedol	3
Diffyg llwybrau cerdded a beicio o safon / diogel	3
Cyflwr gwael tai	3
Diffyg darpariaeth a chyfleusterau pêl droed	2
Gormod o ddigwyddiadau mewn rhai rhannau o'r ardal e.e. rasys	2
Rhaniad o fewn yr ardal	2
Costau gweithgareddau yn yr ardal	1
Band eang / cysylltiad we wael	1
Tlodi yn yr ardal	1
Angen i Cyngor Gwynedd i roi cefnogaeth/hyfforddiant i Gyngor Cymuned	1
Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol	1
Ymddygiad gwrthgymdeithasol	1
Dim digon o dai newydd yn cael eu hadeiladu	1
Diffyg gweithgareddau i bobl hŷn	1
Busnesau lleol angen cefnogaeth	1
Problemau efo tudalen gwefan gymunedol	1
Diffyg cyfathrebu ynglŷn â'r Neuadd Goffa Llanrug	1
Angen gwell rheolaeth a Phwyllgor i Neuadd Gymunedol Waunfawr	1
Diffyg cydweithio rhwng mudiadau a Chynghorau Cymuned	1
Ffynhonnell egni gwyrdd ddim yn gynaliadwy	1

Pentrefi e.e. Rhiwlas ddim yn elwa o prosiectau cyfagos e.e. Safle Treftadaeth, Ynni Ogwen	1
--	---

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	11
Cefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol	9
Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy glir yn ei le er mwyn cael gwell rheolaeth ar dwristiaeth ac uchafu potensial economaidd	9
Gwell rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobol leol	8
Gwella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at ei gilydd e.e. clybiau, ffair haf, dosbarthiadau	8
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	8
Cynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded	8
Cymunedau yn cymryd rheolaeth o asedau ac yn fwy annibynnol er mwyn cyfarch anghenion lleol e.e. Ysgol Cwm y Glo	7
Gwella edrychiad yr ardal – strydoedd glan, mwy o finiau, blodau	7
Datblygu'r Cynghorau Cymuned a rhoi cefnogaeth / sgiliau addas i aelodau	7
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	6
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	6
Gwell cydweithio ar lefel lleol e.e. Rhwng mudiadau, mentrau, grwpiau a Chynghorau Cymuned	5
Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc	5
Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi	4
Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned	4
Mwy anogaeth i'r iaith / diwylliant er mwyn ffynnu a helpu dysgwyr	4
Cae pêl droed	3
Buddsoddi er mwyn gwella ffyrdd yr ardal	3
Taclo problemau llifogydd	2
Creu is-adeiladaeth band eang	2
Mwy o gefnogaeth i iechyd a llesiant meddyliol	1
Taclo problem cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	1
Mwy o ofod gwag mewn mynwentydd	1
Canolfan iechyd i blant ac oedolion	1
Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl hŷn	1
Cyfleoedd i wella cymuned drwy gelfyddydau	1

Gwaith diogelu a hyrwyddo henebion	1
Dim tlodi	1
Ymchwiliad nifer rhandiroedd	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Peris:

- Cyngor Gwynedd
- Ysgolion
- Grwpiau Cymunedol
- Tyddyn Teg
- Menter Fachwen
- Antur Waunfawr
- Grŵp Adfywio Llanberis
- Yr Heddlu
- Cyngorwyr Lleol
- Engie
- Ynni Padarn Peris
- Sefydliadau Celfyddydol
- Sefydliadau RSPB/ BTO
- Bwrdd Iechyd
- Clwb Ieuenctid
- Llywodraeth San Steffan
- Elusennau
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Mudiad Ysgol Meithrin
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Y Band
- Clybiau Pêl-droed
- Parc Cenedlaethol
- Llywodraeth Cymru
- Busnesau Lleol
- Amgueddfa Lechi
- Parc Padarn
- Rhwydweithiau Amgylcheddol
- Prosiect GwyrddNi
- Cyfoeth Naturiol
- Merched y Wawr
- Mudiadau gwirfoddol
- Neuadd Gymuned
- Busnesau mawr e.e. McDonalds
- Grŵp Cynefin
- Cynllun Heneiddio'n Dda (Age Cymru)
- Hunaniaith
- Men's Shed

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Ymgynghoriad Pwyllgor Neuadd Rhiwlas ar gynlluniau Uwchraddio'r Neuadd

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Bro Peris:

- Methodoleg cyd-gynhyrchu yn bwysig ar gyfer ymateb i newid hinsawdd.
- Wrth symud ymlaen i siarad yn ehangach hefo cymunedau yn y prosiect yma, yn dymuno cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gan bod llawer ddim yn defnyddio technoleg ac bod angen sicrhau bod y sgysiau a'r wybodaeth yn hygyrch i bawb.
- Grwp Adfywio Llanberis wedi ei ffurfio yn gymharol ddiweddar gan Gyngor Gwynedd, grwp ac iddo amryw o is baneli yn edrych ar wahanol agweddau ar fywyd Llanberis.
- Sylwadau yn ymwneud â adeilad Mynydd Gwefru ac angen i'r Cyngor roi pwysau er mwyn sicrhau bod y safle yn mynd i ymateb i ddeuadau'r Cymunedau.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda 8 o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau Lleol Dalgylch Caernarfon.
- 1.6 Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuencid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3**.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	8
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	5
Treftadaeth a hanes yr ardal	4
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	4
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	4
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	4
Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell	3
Cynnyrch a busnesau lleol	3
Gwirfoddolwyr	3
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	1
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	1
Ardal saff a diogel	1
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	1
Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc	1
Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth	1
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	1
Cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan Antur Waunfawr	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	5
Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid	3
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	3
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau	3
Ymddygiad gwrthgymdeithasol	3
Angen cefnogaeth / buddsoddiad i fusnesau canol y dref	3
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	3
Tlodi yn yr ardal	2
Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol	2
Problemau yn ymwneud a pharcio	2
Rhaniad o fewn yr ardal	2
Maes Caernarfon angen ei newid	2
Agweddau / damcaniaethau negyddol pobl am yr ardal / pobl	2
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	2
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	2
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	2
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	2
Gormod o grwpiau a dryswch ynglŷn â rôl pawb	1
Pawb ddim yn ymwneud a'r gymuned	1
Diffyg presenoldeb yr heddlu	1
Dim digon o dai cymdeithasol	1
Rhannau o'r dref angen buddsoddiad	1
Elusennau ddim yn cael clod	1
Diffyg gwefan gymunedol	1
Pobl ddim yn rhan o'r gymuned	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Caernarfon am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded	5
Gwella edrychiad yr ardal - glan a thaclus, mwy o finiau, blodau gwyllt	4
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	4
Gwella adeiladau cymunedol a neuaddau	3
Cymryd mantais yn llawn o dwristiaeth er budd economi leol	3
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	3
Cefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu	3
Rhagor o adnoddau iechyd a llesiant	3
Rhagor o gyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon / cadw'n heini	2
Mwy o ddigwyddiadau cymunedol	2
Llai o draffig	2
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	2
Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc	2
Gwell cyfathrebu a chydweithio fewn y gymuned	2
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	2
Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned e.e. drwy'r pwyllgorau	1
Mwy o Heddlu o gwmpas i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol	1
Angen gwneud mwy o etifeddiaeth / treftadaeth leol	1
'Hybiau' gweithio mewn trefi fel bod pobl ddim yn gorfod teithio'n bell i swyddfa	1
Ad fywiad o ddiwydiant pysgota	1
Gwell perthynas rhwng Cyngor Gwynedd a Mentrau / grwpiau lleol	1
Hwb cymunedol i gyfeirio pobl at wasanaeth addas	1
Mwy o gefnogaeth i fentrau lleol	1
Cymunedau llai	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Caernarfon:

- Cyngor Gwynedd
- Rhieni plant ysgolion meithrin y Dref
- Rhieni a disgyblion ysgolion y Dref
- Capeli ac Eglwysi
- Grwpiau o ddiddordeb amrywiol e.e. Gymdeithas Ddinesig
- Elusennau sydd yn gweithio yn y Dref
- CADW
- Galeri
- Yr Urdd a sefydliadau ieuencid eraill
- Ysgolion a phlant
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Perchnogion siopau a busnesau lleol
- Mantell Gwynedd
- GISDA
- Clybiau Chwaraeon
- Pobl Caernarfon
- HWB Caernarfon
- Mentrau Cymdeithasol
- Cymdeithasau tai
- Grwpiau cymunedol/gwirfoddol
- Busnesau preifat

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dim enghraifft wedi ei nodi yn y sgysiau.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Caernarfon:

- Angen bod yn glir o be yn union ydi gweledigaeth a chynllun nesaf Caernarfon. Mae cynllun datblygu'r Maes, Datblygu Galeri ac ardal y Doc ac yna ardal Cei Llechi wedi eu cyflawni. Rwan angen cynllun a gweledigaeth ar gyfer y datblygiad nesaf.
- Angen sicrhau bod y gwaith yma yn berthnasol i'r gymuned gyfan a bod cyfle i bawb o fewn yr ardal cael y cyfle i leisio eu barn
- Ffordd osgoi wedi ei godi fel unrhyw fater arall.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Dolgellau



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda 9 o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Dolgellau.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Dalgylch Dolgellau yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	7
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	5
Ardal ddiogel a saff	4
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	3
Hanes a threftadaeth yr ardal	3
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	2
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	2
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	2
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	2
Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc	1
Trafnidiaeth gyhoeddus - rhwydwaith trenau da	1
Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth	1
Lle da i fagu teulu	1
Cae chwarae da	1
Economi cryf / dim llawer o dlodi	1
Gwirfoddolwyr gweithredol	1
Cymdeithasau yn barod i drefnu a hybu digwyddiadau	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Dalgylch Dolgellau yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Pryderon am ddarpariaeth iechyd - ysbytai a meddygfa	5
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	5
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	2
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	2
Pellter daearyddol o bob man	2
Problemau yn ymwneud a pharcio	2
Mynediad / hygyrchedd y dref a'r traeth	2
Adeiladau cymunedol mewn cyflwr gwael	1
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	1
Diffyg presenoldeb yr heddlu	1
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	1
Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal / dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol	1
Dim digon o bwyntiau gwefru ceir	1
Diffyg gweithredu gan y Cyngor Cymuned	1
Argyfwng amgylcheddol – heintiau coed	1
Dim byd i gadw pobl ifanc yn yr ardal	1
Diffyg tai cymdeithasol	1
Cau ysgolion yn cael effaith negyddol	1
Diffyg is-adeiladaeth band eang	1
Diffyg diddordeb mewn crefydd	1
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	1

4. Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Dolgellau am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	7
Ardal fwy gwerdd a chynlluniau arbed yr amgylchedd	4
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	4
Cynlluniau er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg yn y gymuned	3
Datblygu atomfa Trawsfynydd	3
Gwneud gwell defnydd o adeiladau cyhoeddus	2
Gwneud mwy o ddefnydd o Swyddfeydd Penarlag	2
Gwell darpariaeth iechyd	2
Cefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu	1
Datblygu'r rhwydwaith ffyrdd	1
Cynhyrchu bwyd yn lleol	1
Anodd iawn dweud beth fydd ei angen yn 2035	1
Angen Cynllun Lle i'r ardal	1
Trafnidiaeth gyhoeddus sy'n defnyddio egni trydan	1
Creu is-adeiladaeth band eang	1
Dim angen am fanciau bwyd	1
Gwneud mwy o amgylchedd yr ardal	1
Addysg i bob oedran	1
Rhagor o wasanaethau cyhoeddus e.e. llyfrgell, toiledau, canolfan hamdden	1
Newidiadau gwleidyddol - annibyniaeth i Gymru fel rhan o'r UE	1
Twristiaeth gynaliadwy	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Iechyd Betsi
- Adra
- Cwmni Nod Glas
- Cyngor Ysgol
- Clybiau Chwaraeon
- Sesiwn Fawr Dolgellau
- Cylch Meithrin a Meithrinfa Seren Fach
- Capeli ac Eglwysi
- Partneriaeth megis y BT
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Sansteffan
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Coleg Meirion Dwyfor
- Ysgol Bro Idris
- Partneriaeth Dolgellau
- Ffermwyr Ifanc
- Yr Urdd
- Pwyllgor Parc y Dref
- Cymdeithasau fel Rotari, Merched y Wawr
- Fairbourne Amenities Trust

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Dolgellau:

- Ymgynghori ar waith bysus
- Dim ymgynghoriad ffurfiol wedi bod, ond y cyngor cymuned wedi gweithio efo cyrff eraill i sicrhau ailagor ffordd Aberllefenni i Aberangell cyn gynted ag oedd yn bosib.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Dolgellau:

- Mae gennym ffydd yn y gwasanaeth sifil a ffydd yn y drefn bod swyddogion statudol yn gallu gwneud penderfyniadau er lles y dref yn ddiuedd gan gymryd yr ystyriaethau sydd angen i gyfrif. Os oes adnoddau ar gael, mi fyddem yn cefnogi cael arbenigwyr o rannau arall o'r byd er mwyn rhannu profiadau ac edrych a chynnig gwelliannau/ffyrdd o weithio amgen sydd wedi llwyddo. Dysgu gan eraill.
- Y ramp yw ein prif flaenoriaeth ar y funud – ei angen er mwyn i ymwelwyr barhau ddod i'r ardal.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Dysynni

Ardal Ni 2035
Bro Dysynni



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **10** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Dysynni.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau o Fro Dysynni yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	10
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	7
Ardal ddiogel a saff	6
Aer glan / dim llygredd	3
Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell	3
Cae chwarae i blant	2
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	3
Treftadaeth a hanes yr ardal	1
Lle da i fagu teulu	1
Darpariaeth / cyflwr tai	1
Lwcus o'r twristiaid sy'n rhoi bywoliaeth i bobl leol	1
Trafnidiaeth gyhoeddus dda	1
Ffyrdd da	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Dysynni yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg tai fforddiadwy ac addas i bobl leol	7
Pryderon am ddarpariaeth iechyd – ysbytai a meddygfa	7
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Diffyg darpariaeth gofal a gweithgareddau i bobl hŷn	5
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau	4
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	4
Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal / dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol	4
Prinder tai o safon i'w rhentu	4
Pryder am Gynllunio Tai / Cynllun Datblygu Lleol	3
Pellter daearyddol o bob man	3
Cau ysgolion cynradd yn fygythiad	2
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	2
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	2
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	2
Llifogydd	2
Blerwch a chyflwr cyffredinol yr ardal	2
Costau byw uchel	1
Yr iaith / diwylliant yn colli tir	1
Dim Canolfan Ailgylchu yn yr ardal	1
Cyflwr toiledau cyhoeddus	1
Diffyg gweithwyr efo sgiliau e.e. trydanwyr, adeiladwyr	1
Pobl leol ddim yn ymuno â Phwyllgorau ac ati	1
Ymddygiad bygythiol yn erbyn staff siopau dros Covid-19	1
Datblygiadau yn cymryd amser hir i wireddu	1
Dim digon o dai Cymdeithasol yn yr ardal	1

4. Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Dysynni am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	5
Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel	5
Rhagor o adnoddau iechyd safonol ac ataliol	4
Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau / cefnogi pobl ifanc	3
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	3
Canolfan Ailgylchu yn Nhywyn	2
Angen adnoddau yn lleol - siopau bwyd a chaffi	2
Rhagor o gyfleoedd cymdeithasu e.e. Clybiau	2
Darpariaeth gofal - angen rhagor o ofalwyr	2
Gwell darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus	2
Moderneiddio'r toiledau cyhoeddus	1
Gwella darpariaeth twristiaeth a gweithgareddau ei ymwelwyr e.e.fel Bounce Below	1
Cefnogaeth i'r sector amaethyddol	1
Ardal chwarae newydd i blant	1
Mater Gwesty'r Corbett yn Nhywyn wedi ei ddatrys	1
Datblygu hwb cymunedol canolog i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau	1
Mwy o gyswllt efo Cyngor Gwynedd - syrjeri fisol gyda swyddogion	1
Cystadleuaeth 'Best kept village' yn dod yn ôl i Wynedd.	1
Is-adeiladaeth band eang	1
Gwell rheolaeth ar ail dai	1
Gwell rheolaeth ar dwristiaeth	1
Gwell cyfathrebu gan gyrff cyhoeddus	1
Cefnogi busnesau a chreu ardal menter	1
Rhagor o dai cymdeithasol	1
Gwella'r ffyrdd rhwng Tywyn ac Aberdyfi	1
Gwell perthynas efo Prifysgol Aberystwyth	1
Cyd-weithio er mwyn gwella'r ardal	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Dysynni:

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Tywyn Chamber of Tourism & Commerce
- Y Gymdeithas Hanes
- Bwrdd Iechyd
- Parc Cenedlaethol
- Merched y Wawr
- Ysgolion lleol
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Sector breifat
- Rheilffordd Tal-y-llyn
- Clwb Rotari
- Greener Tywyn
- Pwyllgor y Ganolfan
- Clwb Pêl-droed
- Prifysgol Aberystwyth

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Dysynni:

- Ymgynghori ar y newid i drefniadau gweithwyr gofal cartref
- Ymgynghori efo pobl ifanc am y parc sglerio
- Cynllun Cymdogaeth Aberdyfi

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi ym Mro Dysynni:

- Ystyried newid ffiniau'r ardal adfywio - Mi fydd Bryn-crug, Abergynolwyn a Llanegryn yn dod o dan un cynghorydd. Teimlo fod achos i greu ardal efo'r 3 pentref yna - yn hytrach na Dysynni i gyd yn ehangach - gan fod sefyllfa, amgylchiadau, demograffeg y llefydd yma mor wahanol i Dywyn ac Aberdyfi.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ffestiniog



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynnddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **10** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ffestiniog.
- 1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Ym Mro Ffestiniog roedd yr ymateb a theimladau am yr ardal yn negyddol, er enghraifft, "Dim byd yn dda" "Just dim byd yma nagoes" "no way dwi'n dewis byw yma." Criw bach yn unig a gafodd ei holi ac mae hefyd yn bosib bod digwyddiadau lleol wedi effeithio ar deimladau ar y pryd.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Bro Ffestiniog yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	8
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	7
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	6
Grwpiau a mentrau gweithgar yn yr ardal	2
Hanes a diwylliant	2
Mwynderau - siopau, garej a busnesau lleol	1
Cyfleusterau twristiaeth e.e. Hostel	1
Neuadd gymunedol fawr	1
Cysylltiadau ffyrdd da	1
Clybiau chwaraeon	1
Prosiectau cymunedol arloesol	1
Ardal ddiogel	1
Canolfan iechyd	1
Amaethyddiaeth draddodiadol yn parhau	1
Ysgolion	1
Pob dim	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Bro Ffestiniog yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Nifer o dai haf yn yr ardal a phrinder stoc dai i bobl leol	7
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	6
Ardal ddifreintiedig a thlodi tanwydd	6
Dim byd i gadw'r ifanc yn y fro	4
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	3
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau	3
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	2
Edrychiad y Stryd Fawr	2
Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal / dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol	1
Bygythiadau i'r iaith	1
Problemau gyda'r ffyrdd	1
Meddylfryd y gymuned	1
Safon addysg	1
Dim gwasanaeth ieuencid a blynyddoedd cynnar	1
Diffyg adnoddau diwylliannol	1
Sbwriel yn yr ardal	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ffestiniog am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Mwy o waith a swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau ôl troed carbon	5
Mwy o siopau a mwnderau lleol	5
Taclo'r sefyllfa dai	4
Gwell trafndiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws	3
Iaith a diwylliant yn dal i ffynnu	3
Taclo tlodi tanwydd	3
Mwy o gyfleoedd a chyfleusterau i blant a phobl ifanc	3
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	2
Twristiaeth gynaliadwy er budd y gymuned leol	2
Addysg ac ysgolion	2
Delwedd y Stryd Fawr	2
Cymorth i fusnesau sefydlu a ffynnu	2
Datblygu'r Ganolfan yn y dref	1
Mwy o gwmnïau a mentrau cydweithredol	1
Gwleidyddol - Cymru annibynnol	1
Annog byd natur er mwyn lles corfforol a meddyliol	1
Yr ardal yn hunangynhaliol e.e. cadwyn fwyd	1
Cymorth i gynnal digwyddiadau	1
Gofal plant fforddiadwy	1
Defnyddio'r coleg / theatr fel hwb ar gyfer mudiadau a grwpiau lleol	1
Canolfan chwaraeon yn yr ardal	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Ffestiniog:

- Cyngor Gwynedd
- Cwmni Bro Ffestiniog
- Dref Werdd
- Y Parc Cenedlaethol
- CADW
- Y Theatr
- Rhanddeiliaid y Pwerdy
- Antur Stiniog
- Bwrdd Iechyd Cyhoeddus
- Colegau/Prifysgolion
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Y Ganolfan
- Cymdeithasau Tai
- Coleg Harlech
- Cwmni Trawsnewid
- Mudiadau lleol a mentrau cymdeithasol
- Fforwm Busnesau Lleol
- Gwasanaeth cymdeithasol

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ffestiniog:

- Mae Cwmni Bro Ffestiniog wedi ymgynghori yn y gymuned yn ddiweddar am eu cynlluniau nhw. Yn gyffredinol, roedd priodoleddau cadarnhaol yr ardal yn canolbwyntio mwy ar gymuned, teulu, treftadaeth, hanes, natur, ac ati. Roedd priodoleddau negyddol yn canolbwyntio mwy ar economi, cyfleoedd, adnoddau, tai, ac ati. Mae'r Cwmni wedi rhannu ymatebion cychwynnol y gwaith gyda ni.
- Ambell i ymgynghoriad ar-lein yn bennaf wedi cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd, megis bysyst trydanol cymunedol ac am ardaloedd o fewn Gwynedd.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **15** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau Lleol Bro Lleu a Nantlle.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	10
Treftadaeth a hanes yr ardal	8
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	8
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	6
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	6
Cynnyrch, busnesau a siopau lleol	5
Gwirfoddolwyr	4
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	4
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, gardd wyllt	3
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	3
Datblygiad y Ganolfan Iechyd a Lles	3
Cysylltiadau priffyrdd da	3
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	3
Gweithgareddau hamdden awyr agored	1
Ardal ddiogel a saff	1
Aer glan / dim llygredd	1
Cae chwarae i blant	1
Darpariaeth tai	1
Cefnogaeth i siopau lleol	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	9
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	9
Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuencid	9
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	9
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	7
Diffyg cyd-weithio rhwng mudiadau / mentrau lleol	4
Dim man ymgynnull / hwb cymunedol	4
Pryderon am ddarpariaeth addysg / cau ysgolion	4
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	4
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	4
Ymddygiad gwrthgymdeithasol	3
Yr iaith / diwylliant yn colli tir	3
Cyflwr gwael tai	3
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	3
Diffyg cipiasit / darpariaeth / awch yn lleol i gynnal gweithgareddau a denu pobl newydd i fod yn arwain Cyngorau Cymuned a grwpiau	2
Toriadau / dirywiad i wasanaethau Cyngor Gwynedd	2
Prinder tai o safon i'w rhentu	2
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau	2
Pryder am Gynllunio Tai / Cynllun Datblygu Lleol	2
Band eang / cysylltiad we wael	2
Tlodi a thlodi tanwydd	2
Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel	1
Unigedd	1
Llifogydd	1
Llygredd amgylcheddol	1
Cymunedau o dan bwysau oherwydd mewnfudwyr	1
Stoc dai yn hen	1
Coed yn marw	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Lleu a Nantlle am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	9
Rhagor o adnoddau iechyd, gofal a llesiant	9
Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel	8
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	7
Gwell cydweithio ar lefel lleol e.e. rhwng mudiadau, mentrau, Cynghorau Cymuned er lles trigolion yr ardal	6
Mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol ffynnu yn yr ardal	6
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	6
Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc	5
Rhagor o ddarpariaeth i gyfleusterau hamdden / chwaraeon	4
Hwb cymorth / gwybodaeth ganolog	4
Angen twristiaeth ac uchafu potensial economaidd ymwelwyr	4
Mwy o gyfathrebu rhwng Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd	3
Adnodd cymunedol i ddod a phobl at ei gilydd e.e. Ardal tyfu, Tafarn, dosbarthiadau oedolion yn yr Ysgol	3
Adolygu gweledigaeth addysg yn yr ardal	2
Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymunedau e.e. ymuno â Phwyllgorau	2
Cynllun i ddanfon presgripsiwn / bwyd parhaol	2
Mwy anogaeth a gweithgareddau fel bod yr iaith / diwylliant yn ffynnu	2
Creu is-adeiladaeth band eang	2
Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi	2
Cymunedau sy'n barod ar gyfer newid hinsawdd e.e. llifogydd	1
Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus	1
Cymorth i leihau tlodi tanwydd	1
Cymuned i weithio er mwyn atal taflu sbwriel	1
Gwelliannau amgylcheddol e.e. plannu coed	1
Ystyried datblygu mynyddoedd eraill heb law y Wyddfa ar gyfer ymwelwyr	1
Gwella'r rhwydwaith ffyrdd	1
Angen bod yn ymwybodol o statws UNESCO cyn datblygu lleol	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Llew a Nantlle :

- Cyngor Gwynedd
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Dyffryn Nantlle
- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Bwrdd Iechyd
- Asiantaethau Tai - Grwp Cynefin / ADRA
- Grwpiau a Mudiadau Cymunedol
- Menter Ty'n Llan
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Clybiau chwaraeon
- Gwasanaethau cymorth lleol
- Cyflogwyr lleol a newydd
- NFU
- Colegau Lleol
- Canolfan y Fron
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Menter Môn
- Siop Griffiths
- Antur Nantlle
- Y Bont
- Ysgolion Cynradd
- Nantlle Vale
- Canolfannau Cymunedol
- Y gymuned
- Clybiau Celfyddydol
- Trafnidiaeth Cymru
- Twristiaeth Cymru
- Cymdeithas Trigolion Fron
- Prosiect Loteri Treftadaeth Llechi

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Llew a Nantlle:

- Strategaeth Bro Llew
- Menter Ty'n Llan wedi cynnal ymgynghoriad lleol fel rhan o brosiect Ty'n Llan.
- Sgyrsiau ynglŷn a potensial i greu economi gwyrdd lleol yn sgil cau ffatri Northwood.
- Ymgynghoriad Grŵp Cynefin – Canolfan Iechyd
- Ymgynghoriad Pwyllgor Neuadd Goffa Llanllyfni fel rhan o gynllun uwchraddio'r neuadd

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Bro Llew a Nantlle:

- Roedd nifer o sylwadau yn cyfeirio at **Strategaeth Bro Llew** sydd yn weithredol o fewn yr ardal. Roedd awch fod y gwaith Ardal Ni yn bwydo i mewn i hwn mewn rhyw ffordd, ac nid

yn ei ddyblygu. Roedd teimlad hefyd bod angen cyfathrebu'r Strategaeth yn well ac annog cydweithio rhwng y mudiadau a grwpiau lleol.

- Mae pentrefi Nebo a Nasareth yn cynnwys oddeutu 125 dai gyda thua 250 o drigolion. Ar wahân i Sgwâr Nebo, mae eiddo yn aml yn ynysig heb unrhyw gymdogion agos. Mae'r ddemograffig yn tueddu i fod tua 50+. Mae ein sylwadau yn adlewyrchu'r heriau sy'n ein hwynebu yn byw mewn cymuned wledig iawn, lle mae rhai preswylwyr yn lleisio pryderon bod y pentrefi wedi'u gadael ar ôl.
- Angen i Gyngor Gwynedd i weithredu yn hytrach na chynnal ymgynghoriad ar ôl ymgynghoriad a chyrraedd unman. Angen bod yn glir o ffynonellau ariannu ar gyfer y prosiect hwn a'u heffaith ar wasanaethau cyfredol.
- Teimlo nad ydi Cyngor Gwynedd yn rhoi digon o gyfleodd i gynghorau cymuned i roi mewnbwn i mewn i benderfyniadau strategaethol sy'n effeithio ar gymunedau, Angen newid y sefyllfa yma. Disgwyl i Gynghorau Gymuned dderbyn lot mwy o gyfrifoldeb yn y blynyddoedd diwethaf, ac angen cofio mai gwirfoddolwyr ydi'r cynghorau cymuned.

DRAFT

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **17** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau, Aelodau lleol ac unigolion ardal Llŷn.
- 1.6 Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3**.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r pethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	16
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	16
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	11
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	8
Ardal ddiogel a saff	6
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	3
Cynnyrch a busnesau lleol	3
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	3
Aer glan / dim llygredd	3
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	4
Treftadaeth a hanes yr ardal	1
Tir da sy'n rhoi posibilïadau economaidd	1
Potensial ynni adnewyddadwy	1
Cyfleusterau cymunedol e.e. Neuaddau, Canolfan	1
Gallu denu twristiaeth er budd economaidd	1
Trafnidiaeth gyhoeddus a byses cymunedol	1
Cyfleoedd swyddi a gwneud elw yn yr ardal	1
Ysgol dda	2
Gwasanaeth a darpariaeth iechyd da	1
Ardal glan a thaclus	1
Teulu	1
Cysylltiad wifi da yn rhan fwyaf o lefydd	1
Tywydd	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	15
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	12
Pryderon am ddarpariaeth iechyd a lles e.e. gwasanaeth brys, meddygfa	12
Nifer o ail dai a tai haf yn yr ardal	10
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	10
Diffyg darpariaeth gofal a gweithgareddau i bobl hŷn	9
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	8
Yr iaith / diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr	8
Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel	5
Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid	5
Dim digwyddiadau / gweithgareddau cymunedol	5
Unigedd	4
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	4
Pryderon am ffyrdd a parcio	4
Band eang / cysylltiad we gwael	3
Tlodi a chostau byw uchel	3
Cau ysgolion cynradd yn fygythiad	3
Pryder ynghylch darpariaeth iechyd meddwl	3
Problemau Alcohol a Cyffuriau	3
Adeiladau cymunedol mewn cyflwr gwael e.e. Neuadd Bentref	2
Mae angen gwneud mwy o gynnyrch lleol a treftadaeth yr ardal	2
Newidiadau gwleidyddol wrth i nifer o Gynghorwyr Sir yn lleihau	2
Diffyg presenoldeb yr heddlu	2
Problemau tirlithriad a llifogydd	2
Angen ymestyn y tymor gwyliau i wneud y mwyaf o dwristiaeth	1
Dim digon o bwyntiau gwefru	1
Siopau a busnesau yn cau	1
Dim llawer o gaffis / bwytai safonol	1
Dim gwariant yn ardal Dwyfor – arian yn cael ei defnyddio ar Caernarfon a Bangor	1
Dim llawer o fentrau 'gwyrdd'	1
Polisiau Cynllunio anaddas i anghenion lleol	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	14
Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel	10
Mwy anogaeth a gweithgareddau fel bod yr iaith / diwylliant yn ffynnu	8
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	8
Rhagor o adnoddau iechyd a gofal	8
Twristiaeth gynaliadwy er mwyn uchafu budd i'r economi leol	8
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	7
Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol	6
Gweithgareddau cymunedol i gefnogi llesiant	5
Hyrwyddo mwy ar gynnyrch lleol	5
Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau / cefnogi pobl ifanc	4
Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi	4
Adolygu'r Polisi Cynllunio	4
Gwneud y mwy o'r cefn gwlad a gwella'r llwybrau beicio a cherdded	3
Cynlluniau i annog ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth leol	3
Creu is-adeiladaeth band eang	2
Taclo tirlithriadau	2
Digwyddiadau creadigol a diwylliannol rheolaidd	2
Mwy o gaffis a bwytai safonol	2
Rhagor o bresenoldeb yr heddlu	1
Datrysiaid i broblemau parcio	1
Cyngor Gwynedd i wrando ar lais cymunedau lleol	1
Llŷn fwy hunangynhaliol	1
Gwell cynrychiolaeth wleidyddol	1
Cymunedau i gynnal ymgyrchoedd e.e. atal sbwriel, plannu coed ac ati.	1
Taclo materion sbwriel a chynnal a chadw	1
Taclo tlodi	1
Cefnogaeth y Cyngor wrth adfer o Covid	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal Llŷn:

- Cyngor Gwynedd
- AHNE Llŷn
- Cydweithio Lles Llŷn
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Gwasanaeth Tân
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ysgolion Meithrin
- Be Nesaf Llŷn?
- Clybiau Chwaraeon
- Merched y Wawr
- Y Fic
- Tafarn yr Heliwr
- O Ddrws i Ddrws
- Ynni Llŷn
- Gyrfaoedd Cymru
- Canolfan Waith
- Arloesi Gwynedd Wledig
- Menter Môn
- Pwyllgorau'r Neuaddau
- Grŵp Twristiaeth Aberdaron
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Canolfan Cydweithredol
- Sustainable Abersoch Cynaliadwy.
- Arbenigwyr creu Ynni di garbon
- Grwpiau o ieuencid lleol
- Clwb Pel-droed Nefyn
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Senedd Cymru
- Partneriaeth Llŷn
- Heddlu
- Adra
- Grŵp Cynefin
- Undeb Amaethyddol
- Yr Urdd
- Ffermwyr Ifanc
- Capeli
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Partneriaeth Eco Amgueddfa
- Hunaniaith
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Cwmni Deg
- Busnesau lleol e.e. Cwrw Llŷn, Nanhoron
- Coleg Llandrillo Menai
- Sefydliad y Merched
- Grŵp Twristiaeth
- Pwyllgorau Canolfannau Cymunedol
- Plas Carmel
- Fforymau Mynediad Lleol
- CPRW Lleol
- Diwydiannau Lleol
- BT

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal Llŷn:

- Arolwg o fwriadau a dealltwriaeth trigolion Llŷn am gerbydau trydan a gwefru gan Ynni Llŷn, Canolfan Fenter Congl Meinciau a SPEN [Scottish Power Energy Network].

- Eco Amgueddfa [Swyddog Prosiect Tirlun Llŷn]
- Gwaith gwerthusiad cyfranogol Cymunedau Gyntaf Pen Llŷn
- Ymgynghoriad ar gyfer datblygiad cartrefi Penrhos ar gyfer pobl hŷn
- Ymgynghoriad Ysgol Abersoch
- Ymgynghoriad tai gwyliau / premiwm treth Cyngor
- Mae Hwylusydd Tai Gwledig yn cynnal arolwg ar hyn o bryd ar ran Cymdeithas Dai Grŵp Cynefin i ddarganfod beth yw'r angen am dai yn yr ardal.
- Gweithgareddau ymgysylltu Prosiect Plas Carmel yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf.
- Llawer o bobl wedi troi i fyny i brotestiadau Hawl i Fyw Adra yn dangos cefnogaeth a bod dipyn o alw ar y Cyngor i wneud rhywbeth hefo'r argyfwng tai
- Yr Heliwr wedi holi barn pobl leol am wasanaethau yn y dafarn. Yr Heliwr yn y broses o sefydlu gardd gymunedol yng Nghae Iorwerth, Nefyn; 'hwb i'r hinsawdd' ydi enw'r cynllun
- Adroddiad Ail gartrefi Simon Brooks.
- Cwmni Fran Wen wedi gweithio efo pobl ifanc Nefyn yn ddiweddar.
- Cyngor Tref Nefyn wedi bod mewn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru.
- Prosiect cynnyrch fferm gyda'r Hen felin yn Aberdaron e.e. ffermwyr yn cynhyrchu yd a'i falu yn lleol i gynhyrchu blawd.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Llŷn;

- Pryder am gywirdeb yr ystadegau a gyflwynwyd, mae un yn creu pryder mawr ac yn rhoi camargraff llwyr o'r ardal sef yr ystadegau yma am yr Amgylchedd - Pen Llŷn 55.1%, Gwynedd 76.6%, Cymru 77%. *sef yr isaf yng Ngwynedd
- Ystadegau yn gam-arweiniol ac mae pobl sydd wedi symud i'r ardal hefyd yn rhan o'r ystadegau. Adroddiad wedi'i chyhoeddi gan Arsyllfa Wledig Cymru ar Ardaloedd Gwledig Dwfn yn dangos bod cyflogau yn gallu bod mor isel a £5,000.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen

Ardal Ni 2035
Bro Ogwen



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **10** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ogwen.
- 1.6 Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuencid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3**.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	5
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	5
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	4
Potensial ynni adnewyddol a phrosiectau amgylcheddol	4
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	3
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau a thimau chwaraeon	3
Dynodiad Safle Treftadaeth y Byd	3
Darpariaeth addysg ac ysgolion da	2
Wedi casglu arian i gael sawl diffibriliwr	2
Tir da sy'n rhoi posibiliadau economaidd	1
Ardal ddiogel a saff	1
Trafnidiaeth gyhoeddus da	1
Twristiaeth yn dod a budd economaidd i'r ardal	1
Cadwyn Ogwen - prosiect wedi creu hwb yn yr ardal	1
Adnoddau a mwynderau o fewn pellter teithio cyfleus	1
Pryniant Cae'r Felin - safle canolog yn y Pentref	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau	4
Pryderon am dwristiaeth anghynladwy	4
Problemau yn ymwneud a pharcio	4
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	3
Problemau yn ymwneud â cheisiadau Cynllunio	2
Camdefnyddio cyffuriau ac alcohol	2
Ymddygiad gwrthgymdeithasol	2
Gormod o fflatiau gosod yn yr ardal	2
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	2
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	2
Diffyg gwaith a swyddi gwerth uchel	2
Dim digon o sylw i'r ardal gan y Cyngor a sefydliadau	2
Prisiau tai yn codi yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd	1
Band eang / cysylltiad we wael	1
Tlodi yn yr ardal	1
Biwrocratiaeth yn ei gwneud yn anodd i gael grantiau i fudiadau lleol	1
Atyniadau ddim yn dod a budd i'r dref	1
Diffyg presenoldeb yr heddlu	1
Cwrt Tennis newydd yn yr Ysgol ddim yn dod a budd i'r gymuned	1
Anghenion gofal a phoblogaeth yn heneiddio	1
Llifogydd	1
Rhwystrau rhag gwerthu trydan hydro	1
Ail gartrefi / tai haf	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Datrys problemau ffyrdd gwael a thraffig	4
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, di-blastig, pwyntiau gwefru	4
Twristiaeth gynaliadwy er mwyn cael y budd gorau i gymunedau e.e. manteisio ar Safle Treftadaeth y Byd	3
Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc	2
Gofod canolog i gymdeithasu	2
Gwell rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobol leol	2
Trefniadau monitro ac atal llifogydd yn eu lle	2
Gwella darpariaeth siopau / unedau manwerthu	2
Mwy o gydweithio i ddatrys problemau	2
Gwneud hi'n hawdd i grwpiau lleol gael cefnogaeth grantiau	1
Gwell darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus	1
Datrys problemau cyffuriau	1
Rhagor o gamerâu CCTV	1
Parc chwarae yn lleol	1
Gwell cyfathrebu rhwng Cyngorau Cymuned a'r Cyngor	1
Adeiladau ysgolion angen sylw	1
Angen ystyried datblygiadau tai a chynllunio yn ofalus gan wrando ar y gymuned	1
Cydweithio efo Cyfoeth Naturiol Cymru i gael budd o goedwigaeth yr ardal	1
Gofod swyddfa i'w llogi i'r rhai sy'n gweithio o adref	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ogwen:

- Cyngor Gwynedd
- Partneriaeth Ogwen
- Ynni Ogwen
- Canolfan Gymunedol Tregarth
- Heddlu
- Ysgolion
- Merched y Wawr
- Parc Cenedlaethol
- Cwmni Adfywio Abergwyngregyn (ARC).
- Cymdeithasau Tai
- Clwb Criced a Bowlio
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Neuadd Ogwen
- Clybiau chwaraeon
- Urdd Gobaith Cymru
- Cyngorwyr
- Fforwm Busnes
- Ynni Anafon
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prifysgol Bangor
- Clwb Rygbi Bethesda

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ogwen:


- Gwaith ymgynghori trylwyr gan Bartneriaeth Ogwen yn 2020 oedd yn gofyn cwestiynau tebyg iawn i'r hyn sydd yn cael ei ofyn fel rhan o Ardal Ni 2035. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd gosod cyfeiriad clir - ar ffurf Theory of Change - i raglen waith y Bartneriaeth ei hun ac nid fel templed ar gyfer rhaglen waith adfywio mwy cyffredinol yn yr ardal (fel sy'n fwriad yn Ardal Ni). Mae Prif Swyddog Partneriaeth wedi rhannu canlyniadau'r ymgynghoriad yma (sef "Adroddiad Ymchwil Cymunedol Dyffryn Ogwen 2020"), ond mae'n bwysig iawn nad ydym ni'n defnyddio dim heb gydnabyddiaeth lawn o'r adroddiad hwn a chofio beth oedd ei brif bwrpas.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi ym Mro Ogwen:

- Cynhaliwyd sgwrs yn Bethesda gyda sawl grŵp ar y cyd - Partneriaeth Ogwen; Clwb Rygbi Bethesda; Clwb Criced Bethesda; Neuadd Ogwen. Nid oedd fformat y sgwrs ar union yr un patrwm a'r sgysiau ymgynghori eraill oherwydd statws gwaith Partneriaeth Ogwen (P.O) ym Methesda. Nid oedd ardal Abergwyngregyn yn disgyn o fewn ardal ymgynghori P.O. ond mae'r ardal honno o fewn ardal "Ogwen", Ardal Ni 2035.

- Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio mwy ar osod blaenoriaethau yn Nyffryn Ogwen i'r dyfodol yn hytrach na "Pethau da" a "Dim cystal". Rhai o'r pethau pwysig (mwy penodol) i'w nodi o'r sgwrs oedd: -
 1. Yr angen i ffurfio economi werdd drwy ddatblygu'r gwaith trafndiaeth wyrdd sydd eisoes ar waith yn yr ardal.
 2. Dylid canolbwyntio ar ddatblygu'r ardal i'r dyfodol ar sail "localism" a "foundational economy" drwy fentrau cymdeithasol lleol, yn hytrach na disgwyl am gwmnïau mawr i leoli yn yr ardal i roi hwb i'r economi leol. Mae'r agwedd yma yn un sy'n bodoli eisoes yn strategaethau cyfredol Llywodraeth Cymru ac yn un hefyd sy'n adlewyrchu dymuniad trigolion yr ardal. (Roedd 87% o'r rhai wnaeth ymateb i holiadur P.O. yn credu hyn)
 3. Dylid ymateb yn well i gyfleoedd yn y maes twristiaeth a gwneud hynny mewn ffordd sy'n perchnogi twristiaeth yn yr ardal. Yn hyn o beth, dylid creu cynnig mwy atyniadol mewn ffurf llwybrau cerdded gwell trwy'r ardal... yn yr ystyr eu bod yn cael eu brandio'n fwy effeithiol. (Llwybrau Treftadaeth ac ati) ac yn cysylltu hefo'i gilydd yn well. Hefyd, mae cyfle i greu safleoedd ar gyfer camperfans a gwerysyla. Mae ymateb yn y ffordd yma yn sicrhau bod yr elw o dwristiaeth yn aros yn yr ardal. (*Nodwyd y bydd P.O. yn penodi Swyddog Marchnata Twristiaeth yn ystod 2022 ac y bydd y rôl yma yn ymdrechu i fynd i'r afael â rhai materion o'r fath).
 4. Mae cyfle da i greu hybiau i bobl weithio'n lleol yn lle eu bod nhw'n gorfod defnyddio ceir i deithio allan o'r ardal i weithio. Mae hyn yn ddatblygiad naturiol o'r newid agwedd at weithleoedd sydd wedi ymddangos yn sgil Covid. Mae Neuadd Ogwen, Cefnfaes a'r Clwb Rygbi yn eithaf amlwg fel llefydd lle gallai hyn ddigwydd.
 5. Rhoddwyd pwyslais trwm ar bwysigrwydd CYDWEITHIO agos rhwng prif grwpiau'r ardal i'r dyfodol. Fel bod pawb yn wynebu i'r un cyfeiriad. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd at drefn sydd yn ei lle ar hyn o bryd yn ardal Blaenau Ffestiniog lle mae cwmni bro'r ardal yn gyfrwng i weithredu fel fforwm i 15 o fentrau cymdeithasol lleol i drafod a rhannu profiadau. Awgrymwyd y byddai creu fforwm tebyg yn Nyffryn Ogwen yn ddefnyddiol dros ben.
- Mae'r sylwadau yma wedi ei gofnodi yn y dadansoddiad ond mae mwy o fanylion am y pwyntiau hyn uchod.

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda 7 o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth** yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	5
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	4
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	3
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	2
Y Rheilffordd	2
Ysgol Gynradd dda	2
Ardal ddiogel a saff	1
Treftadaeth a hanes yr ardal	1
Hafod y Gest i bobl hŷn	1
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	1
Stryd Fawr lydan	1
Harbwr	1
Busnesau lleol a chyfleoedd y parciau busnes	1
Safle gwyrdd yn hen waith Cooke's. (Y Dref Werdd – Hwb Deudraeth)	1
Y Clwb pêl-droed	1
Neuadd Gymunedol sy'n addas i ofynion yr ardal	1
Y gymuned	1
Pobl ifanc yn dychwelyd i fyw yn yr ardal	1
Potensial trafndiaeth werdd	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau **Ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth** yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	4
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	4
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	4
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	4
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	2
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	2
Yr iaith yn colli tir	2
Pryderon am ddarpariaeth iechyd a gofal	2
Diffyg darpariaeth i bobl ifanc	2
Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel	2
Llifogydd a thiroedd gwlyb	2
Diffyg toiledau cyhoeddus	2
Safon gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol	1
Diffyg cwmni cydweithredol i yrru newidiadau e.e. Cwmni Bro Stiniog	1
Dim canolfan gymunedol	1
Effaith Siopau ar-lein ar fusnesau lleol	1
Darpariaeth addysg uwch	1
Problemau parcio	1
Dim digon yn cael ei wneud am ynni cynaliadwy	1
Diffyg toiledau cyhoeddus	1
Pryderon am atomfa Trawsfynydd	1
Cyngor Gwynedd ddim yn taclo problemau tai gwag	1
Tlodi dal i fodoli	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	5
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	4
Rhagor o adnoddau iechyd, llesiant a gofal	4
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, di-blastig, pwyntiau gwefru	3
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	2
Rheolaeth ar broblemau traffig	2
Darparu rhagor o gyfleusterau a sgiliau i bobl ifanc	1
Cwblhau gwelliannau i'r Cob Crwn a Cob Mawr	1
Prosiectau i ddod ac arian i mewn yn lleol	1
Cynhyrchu bwyd o safon sy'n gynaliadwy ac yn lleol	1
Angen delio gyda'r effaith poblogaeth yn mynd yn hyn	1
Cynnal deialog rhwng Cyngorau Cymuned yn arwain at ddatblygiadau positif e.e. llwybr beic rhwng Llanfrothen a Penrhyndeudraeth	1
Ysgol gynradd dal yn hyfyw	1
Cyfleoedd i ymwelwyr a mewnfudwyr ddysgu Cymraeg	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth**:

- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd
- Arloesi Gwynedd Wledig/Menter Môn
- Age Cymru Gwynedd a Môn
- Ffermwyr Ifanc
- Merched y Wawr
- Sefydliad y Merched
- Ffrindiau Gardd Natur
- Deudraeth Cyf
- Y Dref Werdd – Hwb Deudraeth
- Sefydliadau addysg
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Adra Tai
- Grŵp Cynefin,
- Fforwm Busnes Criccieth
- U3A
- Eglwysi a Chapeli
- Criccieth yn ei Blodau
- Caru Port
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth**:

- Mae gan Gyngor Tref Criccieth Gynllun Cymunedol sydd wedi ei gymeradwyo Mawrth 2019 yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr a gweithdai gyda'r gymuned yn 2018.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth**:

- Rydym yn siomedig iawn nad yw Cyngor Gwynedd wedi cynnwys Criccieth sy'n un o'r trefi hynaf yng Nghymru gyda chastell a adeiladwyd gan Dywysog Cymru gyntaf - Llywelyn yn y teitl rhanbarthol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.
- Nid wyf yn deall 'Sgôr ar gyfer agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch (%)'. O ystyried yr amgylchedd a'n awyrgylch o fod ger yr arfordir ac yn agos i fynyddoedd Eryri byddai disgwyl ein hardal sgorio yn uchel yn y mesur hwn ,ond efallai nad wyf yn dehongli'r wybodaeth yn gywir.
- Nid oes unrhyw sylw yn y cyflwyniad ynglŷn ag effaith newid hinsawdd yn y degawdau i ddod. Pa effeithiau gellir ei ddisgwyl i'n cymuned e.e. llifogydd, stormydd, sychder, gordwristiaeth, straen iechyd meddwl.

- Fe dynnodd Cyfeillion Croesor sylw at y ffaith eu bod nhw yn gweld eu hunain yn uniaethu'n fwy hefo bro Blaenau Ffestiniog oherwydd eu lleoliad. Mae'r pwynt hwn wedi ei wneud o'r blaen ac yn un y dylid ei ystyried wrth lunio cynllun ardal Porthmadog a Phenrhyndeudraeth. Nid ydi ffiniau'r ymgynghoriad Ardal Ni 2035 yn plethu'n naturiol hefo'r ffordd maen nhw'n gweld eu gwaith nhw yn datblygu yng Nghroesor i'r dyfodol.

DEAFFE

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **14** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau, Aelodau leol ac unigolion dalgylch Pwllheli.
- 1.6 Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3**.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	13
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	9
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	8
Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau	7
Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol	6
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	4
Cynnyrch a busnesau lleol	4
Mwynderau a chyfleusterau e.e. siopau, caffis, bwytai	4
Gwirfoddolwyr	4
Ardal ddiogel a saff	3
Treftadaeth a hanes yr ardal	3
Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell	2
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	1
Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth	1
Trafnidiaeth gyhoeddus da	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	10
Economi leol a diffyg adnoddau e.e. Swyddfa bost, gwesty ac angen adfywio canol trefi	9
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	9
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	7
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	6
Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal	6
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	5
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	5
Problemau yn ymwneud a ffyrdd a pharcio	5
Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid	5
Pryder am Gynllunio Tai / Cynllun Datblygu Lleol	4
Pobl ifanc yn gadael yr ardal	3
Tlodi yn yr ardal	3
Ymddygiad gwrthgymdeithasol a diffyg presenoldeb yr Heddlu	3
Prinder tai o safon i'w rhentu	3
Band eang / cysylltiad we wael	2
Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel	2
Costau bancio i fudiadau lleol	2
Dim man ymgynnull / hwb cymunedol	2
Diffyg gwesty ym Mhwllheli	2
Dim digon o bwyntiau gwefru ceir	2
Y broses o drosglwyddo asedau cymunedol yn cymryd amser	2
Yr iaith / diwylliant yn colli tir a ddiffyg cyfle i ddysgwyr	2
Mae angen gwneud mwy o gynnyrch lleol a threftadaeth yr ardal	1
Cyflwr toiledau cyhoeddus	1
Diffyg arweinyddiaeth leol a chymunedol	1
Dim digon o ystyriaeth i adnoddau amgylcheddol	1
Cyngor Cymuned yn gorfod darparu biniau halen	1
Anfodlon efo darpariaeth Addysg Uwch	1
Anodd recriwtio i'r maes lletygarwch	1
Llifogydd difrifol yn rhannau o'r ardal	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	9
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	9
Twristiaeth gynaliadwy er mwyn uchafu gwerth economaidd i'r ardal	8
Mwy anogaeth i'r iaith / diwylliant er mwyn ffynnu a helpu dysgwyr	8
Cefnogaeth i Fentrau, grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned / Tref	6
Cefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu	5
Rhagor o adnoddau iechyd, llesiant a gofal	5
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	5
Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc	5
Gwneud yn fwy o atyniadau hanesyddol a diwylliannol	4
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru	4
Gwireddu potensial adeiladau gwag	3
Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi	2
Cynnal a datblygu llwybrau beicio a llwybrau cerdded	2
Addysg i bwrpas sy'n uchafu sgiliau pobl ifanc	2
Cynyddu potensial yr adnodd hwylio / Doc Pwllheli	2
Uchafu potensial yn y maes lletygarwch e.e. gwesty ym Mhwlheli	3
Mwy o bresenoldeb heddlu	2
Gwell cydweithio ar lefel lleol e.e. Rhwng mudiadau, mentrau a Chynghorau Cymuned	2
Gwneud mwy i atal llifogydd	1
Swyddogion i gadw cymunedau yn lan a thaclus	1
Creu is-adeiladaeth band eang	1
Pwyslais ar gymunedau llai er mwyn dosbarthu treth Cyngor yn well	1
Gwariant ar yr amgylchfyd	1
Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned e.e. Drwy'r pwyllgorau	1
Digon o feysydd parcio	1
Sefydlu Gŵyl Fwyd Pwllheli	1
Angen Cynllun economaidd i'r ardal	1
Mwy o gefnogaeth i bobl – cyfeirio pobl at y cymorth cywir	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Pwllheli:

- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd
- Sefydliad y Merched
- Clwb y Bont
- Amgueddfa Lloyd George
- Tŷ Newydd Llanystumdwy
- Menter y Plu
- Pobl y gymuned
- Y Ganolfan
- Pwyllgor Cae Chwarae
- Antur Aelhaearn
- Canolfan Cydweithredol
- Llywodraeth Cymru
- Ffermwyr Ifanc
- Llywodraethwyr Ysgol
- Clwb drama
- Capeli ag Eglwysi
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Yr Heddlu
- Clybiau Chwaraeon
- Ysgolion
- Clwb Hwyllo
- Merched y Wawr
- Cymdeithasau Capel ac Eglwys
- Mantell Gwynedd
- Age Cymru
- Tafarn y Fic
- Nant Gwrtheyrn
- M-SParc / Ffiws
- Canolfan y Gwystl
- Bryn Meddyg
- Y Neuadd
- Busnesau

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Amgueddfa Lloyd George wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu dros y 2 flynedd diwethaf.
- Gwaith ymgysylltu sy'n benodol i gynlluniau Menter y Plu.
- Peth trafod, er yn aneffeithiol, rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd ynglŷn â sefydlu a datblygu'r Warchodfa Natur.
- Gweithgareddau ymgysylltu Hafod Ceiri
- Gweithgareddau ymgysylltu Pwyllgor Cae Chwarae.
- Holiadur gym cymunedol gan Antur Aelhaearn.
- Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad cartrefi modur.
- Cyngor Cymuned Pistyll wedi edrych ar faes parcio.
- Cyngorau cymuned a thref yn gweithredu ar ran y gymuned, e.e. creu deiseb i ddangos faint o alw oedd gan y gymuned i gael llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen.
- Gwaith ymchwil gan Richard Parry Hughes yn ystod 2 -3 blynedd diwethaf ar effaith cynllunio tir ers 50 mlynedd ar Ben Llŷn
- Adroddiad Seimon Brooks ar ail gartrefi yn waith diweddar, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Pwllheli:

- Dim eisiau gweld 'siop siarad', eisiau gweld rhywbeth pendant yn dod o'r gwaith ymgysylltu ac yn bwysig ei barhau.
- Pwysigrwydd holi pobol a theuluoedd ifanc y dref am eu gweledigaeth ar gyfer 2035 - buasai cynnal cyfarfodydd i gael barn yn syniad da.

DRAFT

Eitem 6a

Enw'r Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad y Cyfarfod	8 Chwefror, 2022
Teitl yr Eitem	Aflonyddu ar benaethiaid ysgolion, athrawon a staff ysgolion trwy gyfryngau cymdeithasol
Aelod Cabinet	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1 PWRPAS YR ADRODDIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn ydy ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am gyflwyniad ar aflonyddu ar athrawon a staff ysgolion trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â rhannu gwybodaeth gyda'r aelodau am yr hyn sydd wedi ei wneud a'i gyflawni gan yr Adran Addysg er mwyn bod o gymorth i ysgolion ddelio â sefyllfaoedd ble mae hynny'n digwydd.

2 CEFNDIR

- i) Yn achlysurol, ond yn gynyddol yn lled ddiweddar, ceir enghreifftiau o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i aflonyddu ar benaethiaid ysgolion, athrawon a staff ysgolion.
- ii) Gall hyn fod gan rieni neu ofalwyr, disgyblion neu aelodau eraill o'r cyhoedd.
- iii) Mae'r rhan fwyaf o achlysuron yn syrthio i un o ddau gategori:
 - a. Sylwadau cyffredinol ar gyfryngau cymdeithasol;
 - b. Postio delweddau neu fideos o staff ysgolion ar apiau digidol (e.e. *tiktok*) heb ganiatâd, a chyda'r rheiny'n aml yn wawdlyd ac yn amhriodol.

3 GWEITHREDU YNGLŶN AG ACHOSION

- i) Mewn perthynas â'r categori cyntaf (a.), mae angen dod i benderfyniad ynglŷn ag os yw'r sylwadau yn mynegi barn yn unig, ynteu ydynt yn cynnwys sylwadau sydd unai yn enllibus neu'n fygythiol, neu'r ddau. Os yw ysgolion yn dwyn unrhyw ymholiad i sylw'r Adran Addysg, byddwn yn cynghori fel a ganlyn.
- ii) Os mai mater o fynegi barn yn unig sydd yn y sylwadau, ac er nad yw ysgol yn derbyn bod y sylwadau yn deg neu'n gywir, ychydig iawn, os o gwbl, gellir ei wneud am hynny. Mewn cymdeithas rydd, mae gan bobl hawl i fynegi barn am wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus. Gellir ymhelaethu ar enghreifftiau posib' o'r sefyllfaoedd hyn ar lafar yn ystod y cyfarfod ar 8 Chwefror.

- iii) Pe cyfyd achos ble mae'r sylwadau unai yn enllibus neu'n fygythiol, neu'r ddau, dylid sicrhau cyngor cyfreithiol neu ddwyn y mater i sylw'r heddlu, a gall yr heddlu ymchwilio i hynny ar ran yr achwynydd.
- iv) Mewn achosion sydd yn syrthio i'r ail gategori (b.), cynghorir nad yw hynny'n dderbyniol, ac eu bod yn faterion sydd yn destun disgyblu yn erbyn yr unigolion perthnasol.
- v) Daeth y math yma o aflonyddu yn amlwg mewn rhai o ysgolion uwchradd Gwynedd (ac ysgolion ledled Cymru, Y DU a thu hwnt), yn ystod tymor yr hydref 2021, yn bennaf trwy ddefnydd o'r ap digidol *tiktok*. Roedd yr enghreifftiau y'u soniwyd amdanynt yn cynnwys delweddau a fideos o staff ysgolion wedi'u cymryd heb ganiatâd, ac yn cael eu defnyddio yn amhriodol, a disgyblion yn cael eu ffilmio, neu'n ffilmio eu hunain, yn cymryd rhan mewn 'sialensiau' misol oedd yn cynnwys rhai oedd yn rhywiaethol neu'n dreisgar eu natur, ac oedd yn cael eu hyrwyddo'n rhyngwladol gan ddefnydd amhriodol o'r ap digidol *tiktok*.
- vi) Fe weithredodd yr Adran Addysg yn syth trwy holi penaethiaid ein hysgolion uwchradd ynglŷn â hyd a lled y broblem, a darparwyd llythyr (gweler Atodiad 1) gan yr Adran Addysg, ac fe'i anfonwyd at benaethiaid ein hysgolion uwchradd i'w anfon ymlaen at holl rieni/gofalwyr y disgyblion uwchradd. Cafodd yr arweiniad a'r gefnogaeth ei werthfawrogi gan yr ysgolion, ynghyd â phrydlondeb ymateb yr adran i'r sefyllfa hon.

4 SEFYLLFA BRESENNOL

- i) Mewn perthynas a'r categori cyntaf (a.), mae'r adran yn parhau i gynghori ysgolion (gweler 3 i) pe cyfyd achosion ble mae ysgolion yn dwyn hyn i'n sylw.
- ii) Mewn perthynas a'r ail gategori (b.), mae'n hysgolion yn parhau i fonitro'r sefyllfa er na chredir bod yr angen i anfon y llythyr eto wedi codi ers tymor yr hydref 2021.
- iii) Mae eitem benodol wedi'i rhaglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Grŵp Strategol penaethiaid uwchradd ar 2 Chwefror er trafod y sefyllfa ymhellach gyda'r gobaith bod y gweithredu ataliol a wnaed gan yr adran yn nhymor yr hydref 2021 wedi sicrhau rheolaeth o'r sefyllfa, a gellir adrodd ar hynny ar lafar i'r pwyllgor hwn ar 8 Chwefror.

5 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr adroddiad, a chynnig sylwadau ar ei gynnwys.

Addysg / Education



Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Garem Jackson**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **GJ/CC**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

5 Tachwedd 2021

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Mae wedi dod i'n sylw bod rhai disgyblion yn ein hysgolion uwchradd wedi bod yn gwneud ffilmiau byr ac yn eu huwchlwytho ar wefan Tik Tok tra yn yr ysgol. Atgoffir nad yw disgyblion yn cael ffilmio ar eiddo ysgol heb ganiatâd. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gofyn i ysgolion atgoffa disgyblion na chaniateir iddynt uwchlwytho ffilmiau byr anawdurdodedig yn enw eu hysgol.

Ym mhob achos, rydym wedi gofyn i ysgolion ystyried sancsiynau priodol ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi ffilmio ac uwchlwytho deunydd amhriodol sy'n cynnwys staff ysgolion a disgyblion tra ar eiddo ysgol. Mae sancsiynau posib yn cynnwys gwaharddiad allanol a gallant gynnwys Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfaoedd eithafol.

Gofynnwn yn garedig i rieni a gofalwyr drafod y mater hwn â'u plant a phwysleisio'r neges hon. Gwiriwch gyfrifon ffonau symudol/cyfringau cymdeithasol eich plant i sicrhau bod unrhyw fideos perthnasol wedi'u dileu. Bydd ysgolion yn parhau i fonitro cyfringau cymdeithasol, gan gynnwys Tik Tok, dros yr ychydig ddyddiau ac wythnosau nesaf ac yn cymryd y camau angenrheidiol.

Mae cymunedau cyfan yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd, ac rwy'n siŵr y byddwch chi i gyd yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein hysgolion i hyrwyddo parch a charedigrwydd wrth inni wynebu'r heriau hyn gyda'n gilydd.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

Garem Jackson
Pennaeth Addysg

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.uk

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Aflonyddu'n rhywiol mewn ysgolion
Dyddiad y Cyfarfod	8/2/22
Swyddog Perthnasol	Delyth Lloyd Griffiths, uwch Swyddog Diogelu Plant
Aelod Cabinet	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

“Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon”
(Estyn, Rhagfyr 2021).

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn sgil cyhoeddi adroddiad gan Estyn ym mis Rhagfyr 2021, “*Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon*”.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn ymateb i wybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn 2021 pan welwyd gwybodaeth am aflonyddu rhywiol ar ddisgyblion ar y wefan “*Everybody's Invited*”.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn ynghyd â'r atodiadau cysylltiedig yn manylu ar:
- gynnwys adroddiad Estyn, yn benodol llais y plant ar yr hyn sydd angen ei newid o fewn darpariaeth ysgolion er mwyn i blant deimlo'n ddiogel mewn ysgolion.
 - argymhellion adroddiad Estyn gan argymhell dull o weithredu ar gyfer ysgolion Gwynedd.

2. CEFNDIR ADRODDIAD ESTYN. (Rhagfyr 2021)

- 2.1 Cefndir yr adroddiad oedd bod gwybodaeth ar y wefan “**Everyones's Invited**” a gafodd ei greu gan rai sydd wedi dioddef aflonyddu rhywiol tra yn ddisgyblion ysgol.
- 2.2 Mae'r wefan “**Everyones invited**” wedi argraffu sylwadau 16,000 o blant a phobl ifanc sydd wedi rhoi tystiolaeth am eu profiadau mewn ysgolion.
- 2.3 Mae cyfeiriadau at 91 o ysgolion Cymru ar y wefan, gyda chyfeiriad at dair ysgol yng Ngwynedd.
- 2.4 Cychwynwyd y wefan oherwydd bod plant a phobl ifanc oedd yn mynychu Ysgolion Annibynnol yn anhapus iawn nad oedd staff yr ysgolion yma yn cymryd cwynion o aflonyddu yn rhywiol o ddifri.

Cam-drin rhywiol rhwng cyfoedion - nodweddion

- trais rhywiol - megis trais rhywiol, ymosodiad drwy dreiddio ac ymosodiad rhywiol;
- aflonyddu rhywiol - megis sylwadau rhywiol, sylwadau, jôcs ac aflonyddu rhywiol ar-lein, a all fod yn annibynnol neu'n rhan o batrwm ehangach o gam-drin

- iii. uwchsgilio - sydd fel arfer yn golygu tynnu llun o dan ddillad person heb iddynt wybod, gyda'r bwriad o edrych ar eu horganau cenhedlu i gael rhodd rywiol, neu i achosi cywilydd, trallod neu ddychryn i'r dioddefwr
 - iv. secstio - (a elwir hefyd yn 'ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc')
- 2.5 Roedd amrywiaeth eang o ymddygiadau y dywedodd y plant a'r bobl ifanc wrthym eu bod yn digwydd ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys:
- derbyn ffotograffau neu fideos penodol digymell, er enghraifft 'dick pics'
 - anfon, neu gael pwysau i anfon, ffotograffau neu fideos noeth a lled-noeth ('nudes')
 - cael eu hanfon neu eu dangos yn nodi, neu'n cael eu nodi ar-lein - deunydd penodol, megis fideos pornograffig.
- 3. MAE ADRODDIAD ESTYN - “DYDYN NI DDIM YN DWEUD WRTH EIN HATHRAWON” (RHAGFYR 2021) YN GOSOD ALLAN BETH WNAETH EU HYMHOLIADAU EI GANFOD YNGLŶN Â BETH SYDD YN BWYSIG I BLANT YSGOL.**
- 3.1 Roedd 61% o'r merched a holwyd yn ystod arolwg yn Adroddiad Estyn yn adrodd eu bod yn dweud iddynt ddiodeff aflonyddu yn yr ysgol. Adroddwyd fod 82% o'r rhai o fu yn rhan o'r arolwg eu bod yn ymwybodol bod aflonyddu wedi digwydd i eraill yn yr ysgol.
- 3.2 O ran bechgyn roedd y canran a oedd yn dweud eu bod wedi diodeff aflonyddu gan gyfoedion yn yr ysgol yn sylweddol yn llai sef 29%, gyda 71% yn nodi eu bod yn ymwybodol bod aflonyddu wedi digwydd i eraill yn yr ysgol.
- 3.3 Mae'r adroddiad yn glir beth yw'r dulliau sydd yn cael eu defnyddio i aflonyddu a bod yr aflonyddu yn digwydd yn fwy aml y tu allan i'r ysgol nac yn yr ysgol, a hynny drwy gyswllt ar y we fel arfer.
- 3.4 Mae plant yn defnyddio ffonau symudol, y cyfryngau cymdeithasol a gemau cyfrifiadurol i aflonyddu.
- 3.5 Mae'r adroddiad yn tynnu'n sylw at y gwahanol ddulliau o aflonyddu ar gyfoedion yn yr ysgol, sef:
- i. Bwlio ar lein
 - ii. Rhoi sylwadau creulon ar lein yn arbennig am sut mae rhywun yn edrych.
 - iii. Gofyn ac anfon lluniau noeth ar lein.
 - iv. Creu proffil ffug ar lein er mwyn targedu eraill (Catfish).
 - v. Gofyn am fod yn ffrind heb eu hannog i ofyn ar lein ac anfon ceisiadau am luniau noeth trwy ddefnyddio proffil ffug ar lein.
 - vi. Siarad mewn termau negyddol am ferched wrth chwarae gemau ar lein.

Y ffurf mwyaf rheolaidd o aflonyddu yn ôl yr arolwg oedd galw enwau ar eraill yn ystod y diwrnod ysgol, a gwneud sylwadau rhywiol yn yr ysgol, yn ogystal â sylwadau o natur homoffobaidd yn erbyn bechgyn fel arfer.

- 3.6 Adroddwyd bod sylwadau am y ffordd mae plant yn ymddangos hefyd yn arferol.
- 3.7 Adroddwyd gan y gymuned LGBTQ+ bod y sylwadau ar aflonyddu rhywiol yn digwydd yn rheolaidd yn yr ysgol ac mae hwn oedd yr aflonyddu mwyaf rheolaidd i'r grŵp yma o blant.

4. ARGYMHELLION AR GYFER YSGOLION.

- 4.1 Mae'r adroddiad yn adrodd beth sydd yn bwysig i'r plant a gymerodd ran yn yr arolwg. Gwelir y prif bethau sydd angen i ysgolion eu gwneud er mwyn i blant deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dyma'r pethau pwysig i ysgolion eu cyflawni yn ôl y plant a gafodd eu holi fel rhan or arolwg.:-

- 1) **Trafod beth yw parch.** Mae angen creu awyrgylch o barch at bawb o fewn ysgolion. Gwneir hyn drwy ymateb yn fuan i faterion fel mae'n nhw'n codi. Ymateb drwy gosbi yn syth y rhai sydd wedi aflonyddu. Defnyddio asiantaethau allanol i drafod yr ymddygiad gyda'r un sydd wedi bod yn gyfrifol am yr aflonyddu. Mae angen ymateb mewn ffordd sydd yn diogelu cyfrinachedd bob amser. Creu trefn ymhob ysgol sydd yn sicrhau nad yw materion o aflonyddu yn cael eu hanwybyddu a bod cosb i bawb sydd yn aflonyddu'n rhywiol ar eraill yn yr ysgol neu mewn digwyddiad y tu allan i'r ysgol.

- 2) **Cyflwyniadau gan bobl o'r byd go iawn i drafod pynciau perthnasol.** Darparu addysg addas yn y maes Perthynas Iach / Perthynas Ormesol gan ddefnyddio asiantaethau perthnasol (e.e. RASA, Sbectrwm, Hafan Cymru) i siarad â phlant am bob elfen o berthynas iach gan gynnwys perthynas LGBTQ.

Comisiynu gwaith pwrpasol gan asiantaethau allanol i gyflwyno sesiynau ym maes perthnasau iach.

Cynnal gwasanaethau rheolaidd yn trafod elfennau o berthynas iach a LGBTQ.

Clustnodi arian penodol i sicrhau fod pob un ysgol yn derbyn cymorth gan fudiadau megis Hafan Cymru a Sbectrwm Cymru er mwyn gwella ansawdd yr addysg bersonol a rhywiol sydd yn cael ei gynnig yn ein hysgolion.

- 3) **Annog trafodaeth am faterion o aflonyddu yn rhywiol o fewn gwersi.** Cynnal gwasanaethau rheolaidd i roi sylw i'r pynciau canolog yn yr adroddiad yma sef:

Bwlio ar lein gan gynnwys defnyddio sylwadau creulon a sylwadau am ddelwedd unigolyn a sylwadau cas a homoffobaidd. Anfon sylwadau creulon ar y cyfryngau cymdeithasol at blant yn yr ysgol.

Gofyn am luniau noeth yn aml gan ferched fel arfer yn yr ysgol ond cynnig llun noeth iddynt yn achlysurol heb fod y cais wedi ei wneud amdano.

Creu llun a chyfri ffug ar lein (proffil) er mwyn anfon sylwadau creulon i blant yn yr ysgol.

Creu grwpiau rheolaidd i ferched i drafod materion o aflonyddu ym mhob ysgol o dan arweiniad cyson person profiadol yn y maes cam drin rhywiol.

4) Darparu cefnogaeth addas i bob plentyn drwy sicrhau fod aelod o staff ar gael i siarad â phlentyn bob amser.

Sicrhau bod gwasanaeth bugeiliol ysgolion ar gael yn gyson i bob plentyn.

Sicrhau fod gan bob plentyn oedolyn addas (Penodol) i wrando ac i roi cefnogaeth iddo bob amser yn yr Ysgol.

Darparu gofod diogel i blant gael siarad o fewn adeilad yr Ysgol.

Darparu amser addas ar gyfer trafod perthynas iach o fewn amserlen yr Ysgol.

Sicrhau amser ar gyfer materion lles ac iechyd yn amserlen yr Ysgol.

Rhoi pwyslais ar gynllunio'r gwersi yn y maes perthynas iach gan gynnwys plant a staff yn y cynllunio manwl.

5) Hyfforddi staff yn drylwyr ym maes perthynas iach, addasrwydd pob ymddygiad a chanlyniadau pob ymddygiad.

Hyfforddiant trylwyr ar gyfer staff sydd yn ymateb i faterion aflonyddu yn rhywiol (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol).

Buddsoddi mewn hyfforddiant i aelodau staff i wneud y gwaith yn drylwyr. Dim gwaith eilradd yw'r maes yma lle y gellir defnyddio athrawon i lenwi gwersi rhydd.

Nid ychwanegiad i ddarpariaeth yr ysgol yw'r gwaith yn y maes yma ond darpariaeth graidd.

5 ARGYMHELLION




Gofynnir i'r aelodau:-

- gyflwyno unrhyw sylwadau ar addasrwydd yr argymhellion
- ddarparu sylwadau ar sut i ariannu y gwelliannau mewn ysgolion yn unol a argymhellion Estyn.

“Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon”

Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru

Rhagfyr 2021



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru.

© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	3
Prif ganfyddiadau	6
Disgyblion	6
Ysgolion	7
Awdurdodau lleol	9
Argymhellion	11
Yr hyn a ddywedodd disgyblion wrthym ni – canfyddiadau o weithgareddau grwpiau ffocws disgyblion a holiadur ar-lein	13
Dealltwriaeth disgyblion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion	13
Aflonyddu rhywiol yn yr ysgol	15
Dillad a rhywioli merched	17
Aflonyddu rhywiol ar-lein	18
Pam nad yw disgyblion yn dweud wrth eu hathrawon am aflonyddu rhywiol a ble maen nhw'n mynd am gymorth	21
Barn pobl ifanc am addysg bersonol a chymdeithasol, a'u profiad ohoni	24
Beth mae disgyblion eisiau i'w hysgolion ei wybod	26
Beth mae disgyblion eisiau i'w hysgolion ei wneud	28
Darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn ysgolion uwchradd	30
Diwylliant diogelu	30
Gofal, cymorth ac arweiniad	33
Y cwricwlwm	38
Arweinyddiaeth	44
Y cymorth sydd ei angen ar ysgolion	47
Pam nad yw disgyblion yn dweud wrth eu hathrawon am aflonyddu rhywiol, a pham nad yw ysgolion yn gwybod am raddau'r broblem	49
Atodiad 1: Methodoleg	51
Atodiad 6: Diffiniadau a Geirfa	53
Atodiad 7: Cyfeiriadau	55

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ym mywydau pobl ifanc oedran uwchradd, ac yn adolygu'r diwylliant a'r prosesau sy'n helpu gwarchod a chynorthwyo pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru. Mae aflonyddu rhywiol yn digwydd pan fydd person yn ymgymryd ag ymddygiad digroeso o natur rhywiol sydd gyda'r bwriad neu'r effaith o:

- amharu ar urddas rhywun; neu
- Greu amgylchedd bygythiol, cas, diraddiol, ymosodol neu sy'n cywilyddio iddynt

Mae aflonyddu rhywiol yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ein gwaith gyda disgyblion, dyma sut y diffinir aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion:

- gwneud sylwadau neu jôcs rhywiol naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein
- codi sgertiau neu dynnu llun o dan ddillad rhywun heb yn wybod iddi/iddo
- gwneud sylwadau cas am gorff, rhywedd, rhywioldeb neu olwg rhywun i achosi cywilydd, gofid neu fraw iddo/iddi
- camdriniaeth yn seiliedig ar ddelwedd, fel rhannu llun neu fideo o rywun yn noeth / hanner noeth heb gydsyniad y sawl sydd yn y llun
- anfon ffotograffau / fideos rhywiol, cignoeth neu bornograffig digroeso at rywun

Ysgrifennwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2021. Mae'r adolygiad hwn yn berthnasol i ddysgwyr, rhieni ac ysgolion yn ogystal â Llywodraeth Cymru, gwasanaethau statudol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o arweiniad a chymorth presennol ar gyfer ysgolion ac asiantaethau perthnasol eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae'n amlygu'r modd y mae ysgolion effeithiol yn datblygu a chynnal diwylliant diogelu cryf sy'n hyrwyddo parch a phwysigrwydd perthnasoedd iach a chadarnhaol. Mae'r adroddiad yn rhannu'r modd y mae arweinyddiaeth gref a dulliau rhagweithiol yn annog ac yn grymuso disgyblion i ymddiried yn eu hathrawon, herio eu cyfoedion, a rhoi gwybod am bob math o aflonyddu rhywiol. Hefyd, mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r diffygion sy'n cael effaith negyddol ar les disgyblion.

Mae'r adroddiad yn amlygu arfer effeithiol a diffygion a welwyd gan arolygwyr yn ystod ymweliadau ag ysgolion. Bydd yr adroddiad o bwysigrwydd penodol i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn oherwydd y bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn dod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion o 3 blwydd oed mewn ysgolion cynradd o fis Medi 2022 ac i Flynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd, naill ai o fis Medi 2022 neu fis Medi 2023 os yw ysgolion yn dymuno gohirio'i gyflwyno.

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddisgyblion oedran uwchradd yn unig. Ymwelom ni â 35 o ysgolion i gyd, yr oedd 27 ohonynt yn ysgolion uwchradd a gynhelir, dwy yn

ysgolion pob oed a gynhelir, a 6 yn ysgolion annibynnol. Daeth arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gyda ni i dair ysgol annibynnol gyda darpariaeth breswyl.

Ymwelom ag o leiaf un ysgol uwchradd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Pan oedd gan awdurdod lleol fwy na 9 ysgol uwchradd, ymwelom ni ag ail ysgol. Yn ychwanegol, dewisom ni nifer gymesur o ysgolion a enwir ar wefan [Everyone's Invited](#) ble mae disgyblion neu gyn-ddisgyblion wedi rhannu tystiolaethau o brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Roedd ein sampl yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau o weithgareddau grwpiau ffocws disgyblion. Cafodd arolygwyr drafodaethau uniongyrchol â dysgwyr oedran uwchradd mewn gweithdai rhyngweithiol. Yn y gweithdai, cymerodd disgyblion ran mewn trafodaethau agored a chwblhau llyfryn gwaith wedi'i gynllunio'n ofalus am eu profiadau a'u dealltwriaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio dyfyniadau uniongyrchol gan ddisgyblion, ac o ganlyniad, mae'r adroddiad yn cynnwys geiriau ac ymadroddion a allai beri gofid i ddarllenwyr.

Hefyd, mae'r adroddiad yn roi crynodeb a dadansoddiad o holiadur y gofynnwyd i ddisgyblion ei lenwi yn rhan o'r gweithgareddau grwpiau ffocws. Siaradodd arolygwyr â staff ysgol am y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCCh), yn cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb. Hefyd, gofynnwyd ni i staff am natur a mynychter aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a sut mae ysgolion yn rheoli hyn.

Ymwelom ag ysgolion rhwng 27 Medi ac 8 Hydref 2021. Roedd hyn yn ystod cyfnod pan oedd niferoedd uchel iawn o achosion COVID-19 ymhlith plant ysgol a staff ysgol ledled Cymru. Roeddem wedi trefnu ymgysylltu â 1,600 o ddisgyblion trwy ein hymweliadau, ond oherwydd nifer uchel yr absenoldebau, gweithiom gyda thua 1,300 o ddisgyblion. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff a disgyblion ysgol am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod cyfnod heriol iawn. Ymatebodd pob pennaeth yn gadarnhaol i'n cais i'w hysgol gymryd rhan yn y gwaith hwn gan eu bod i gyd yn cytuno bod delio ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fater pwysig.

Ymgysylltom ni â sawl rhanddeiliad allanol perthnasol (gweler Atodiad 1). Cynhaliom ni hefyd gyfweiliadau gyda swyddogion o leiarif o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Hoffem gydnabod y gefnogaeth a gafwyd gan yr Athro EJ Renold, Prifysgol Caerdydd cyn ac wrth gyd-greu y llyfryn grwpiau ffocws. Rydym yn ddiolchgar i'r Athro am eu caniatâd i gyhoeddi'r llyfrynau grwpiau ffocws tiwtoriaid a disgyblion at ddefnydd ysgolion. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Athro Renold a chydweithwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Plant a NSPCC Cymru am yr hyfforddiant wedi'i deilwra a ddarparwyd ganddynt i arolygwyr yn cynnal ymweliadau ag ysgolion.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen [Adnoddau Ategol](#) ochr yn ochr â'r adroddiad hwn sy'n cynnwys manylion canllawiau Llywodraeth Cymru, canfyddiadau ymchwil ac adnoddau defnyddiol i ysgolion. Yn ogystal, mae'r ddogfen Adnoddau Ategol yn cynnwys canfyddiadau llawn y gweithgareddau grwpiau ffocws disgyblion, y dadansoddiad llawn o'r holiadur disgyblion a'r llyfrynau grwpiau ffocws disgyblion a thiwtoriaid.

Cefndir

Mae pobl ifanc, Llywodraeth Cymru a llawer o sefydliadau wedi rhannu eu pryderon yn gyhoeddus am fynychter honedig aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dywed disgyblion wrthym ni fod hyn yn digwydd wyneb yn wyneb yn ystod oriau ysgol, ond dywedant hefyd fod hyn yn digwydd mwy ar-lein ac ar ôl yr ysgol.

Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, yn cynnwys aflonyddu rhywiol ar-lein, yn broblem gymdeithasol sy'n gyffredin ym mywyd oedolion hefyd. Mae nifer yr oedolion, yn enwedig menywod sydd wedi profi rhyw fath o aflonyddu rhywiol mewn gofod cyhoeddus neu ar-lein yn eithriadol o uchel, yn enwedig ymhlith pobl 18-24 mlwydd oed. Canfu adroddiad diweddar yn dwyn y teitl 'Prevalence and reporting of sexual harassment in public places' gan Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar gyfer UN Women UK fod 71% o fenywod o bob oedran yn y Deyrnas Unedig wedi profi rhyw fath o aflonyddu rhywiol mewn gofod cyhoeddus. Dywedodd cynifer ag 86% o fenywod 18-24 mlwydd oed eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol. Fodd bynnag, mae nifer y menywod a roddodd wybod i'r heddlu am y digwyddiad yn frawychus o isel. Dyma'r ddau brif reswm a ddyfynnwyd gan fenywod o bob oedran am beidio â rhoi gwybod i'r heddlu am ddiwyddiadau:

Doeddwn i ddim yn meddwl bod y digwyddiad yn ddigon difrifol i roi gwybod i'r heddlu (55%) a

Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai rhoi gwybod am y digwyddiad yn helpu (45%). (APPG for UN Women UK, 2021, t.6)

Fodd bynnag, cytunodd 44% o fenywod y byddent yn cael eu hannog i roi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad pe bai hyn yn ei atal rhag digwydd eto.

Ers Mehefin 2021, mae'r mudiad gwrth-dreisio cymunedol '[Everyone's Invited](#)' (dim dyddiad) wedi gwahodd pobl sydd wedi goresi treisio ac aflonyddu rhywiol i rannu eu storïau ar y wefan gyda'r nod o ddadorchuddio diwylliant treisiol drwy sgwrsio, addysg a chefnogaeth. Mae dros 15,000 o dystiolaethau dienw wedi cael eu cyflwyno a'u rhannu ar y wefan. Ar adeg y cynllunio ar gyfer y gwaith hwn, roedd y wefan yn cynnwys tystiolaethau gan ddisgyblion neu gyn-ddisgyblion am aflonyddu rhywiol honedig rhwng cyfoedion mewn 84 o ddarparwyr addysg yng Nghymru. Mae'r ysgolion a enwyd yn cynnwys ysgolion uwchradd ac annibynnol prif ffrwd ac ychydig iawn o ysgolion cynradd. Mae'r wefan yn cynnwys tystiolaethau gan ddisgyblion mewn ychydig iawn o golegau addysg bellach yng Nghymru hefyd.

Mae cefnogaeth ar gyfer diwygio a newid agweddau tuag at aflonyddu a cham-drin rhywiol, yn enwedig tuag at fenywod, wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf trwy weithgareddau gan sefydliadau fel 'mudiad [Me Too](#)' (2021) (mudiad cymdeithasol yn erbyn cam-drin rhywiol ac aflonyddu rhywiol lle mae unigolion yn rhoi cyhoeddusrwydd i honiadau o droseddau rhywiol. Nod y mudiad yw grymuso dioddefwyr i siarad, a chael empathi a chydgefnogaeth gan bobl eraill). Fodd bynnag,

mae ymchwil yn dangos nad yw menywod a dynion sy'n profi aflonyddu rhywiol yn bwrw ymlaen â'u cwynion trwy'r llysoedd mewn llawer o achosion.

Trwy ein gwaith gyda disgyblion yn ystod ymweliadau ag ysgolion, gwelwn fod problem debyg yn bodoli mewn ysgolion uwchradd¹. Nid yw disgyblion yn dweud wrth eu hathrawon yn systematig am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae hyn yn digwydd am nifer o resymau, sef:

- mae pobl ifanc yn teimlo bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion wedi cael ei normaleiddio a bron i'w ddisgwyl
- caiff eu hymddygiadau a'u hagweddau eu dylanwadu'n sylweddol gan yr hyn maent yn ei weld yn digwydd ar gyfryngau cymdeithasol
- mae plant a phobl ifanc yn troi yn fwy at y rhyngwyd am gymorth ac arweiniad yn hytrach nag ymgynghori â rhieni neu oedolion eraill
- dywed disgyblion nad yw athrawon yn cymryd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ddigon difrifol

Polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru

O fewn [Deddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021](#) (Senedd Cymru, 2021), bydd gan y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (MDaPh) yr un statws yn ôl y gyfraith ag sydd gan y 5 MDPH arall (Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y Dyniaethau, y Celfyddydau Mynegiannol). Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar 'Bedwar Diben' neu nodau'r cwricwlwm newydd. Un o'r pedwar diben hyn o dan adran 2(1) o'r Ddeddf yw 'galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu i fod yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas'. (Llywodraeth Cymru, 2020a). Bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion o 3 oed ymlaen mewn ysgolion cynradd, yn ogystal ag ysgolion meithrin a lleoliadau meithrin sy'n cael eu cynnal o fis Medi 2022. Gall ysgolion uwchradd sydd yn barod i ddechrau Cwricwlwm i Gymru i ddisgyblion Blwyddyn 7 wneud hynny o fis Medi 2022, fodd bynnag, nid fydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn orfodol hyd nes 2023 pan fydd yn berthnasol i Flwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn y lle cyntaf. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arfaethedig yn datgan:

Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae wrth greu amgylcheddau diogel ac grymusol sydd yn cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau perthnasoedd cyflawn, iach a diogel trwy gydol eu bywydau. Mae hyn yn greiddiol er mwyn adeiladu cymdeithas sydd yn trin eraill gyda dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag eu hethnigrwydd; eu cefndir cymdeithasol economaidd; eu hanabledd; neu eu rhyw, eu rhywedd neu eu rhywioldeb.

Yn ychwanegol, mae Adran 64 y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Senedd Cymru, 2021) yn cynnwys dyletswyddau i bob aelod o staff ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac UNCRPD (pobl ag anableddau).

¹ Pan gyfeirir at ysgolion uwchradd, rydym yn cynnwys disgyblion oedran ysgolion uwchradd mewn ysgolion pob oed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi sawl dogfen berthnasol â chanllawiau i gynorthwyo ysgolion i sefydlu diwylliant o ddiogelu, a hyrwyddo pwysigrwydd perthynas iach ac agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth, yn cynnwys:

[Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion](#) (Llywodraeth Cymru 2020b)

[Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc – Cadw'n ddiogel ar-lein – Hwb \(llyw.cymru\)](#) (Llywodraeth Cymru 2020c)

[Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: canllawiau i lywodraethwyr | LLYW.CYMRU \(2016\)](#) (Llywodraeth Cymru, 2016)

[Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir 2019](#) (Llywodraeth Cymru 2019a)

Rydym wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau perthnasol ar y themâu hyn hefyd. Mae adrannau penodol Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymorth arbenigol wedi creu adnoddau buddiol ar gyfer ysgolion hefyd. Mae rhestr gynhwysfawr o adroddiadau, dogfennau canllawiau ac adnoddau perthnasol wedi eu cynnwys yn y ddogfen [Adnoddau Ategol](#), ynghyd â manylion bras am eu cynnwys. Mae'r rhain i gyd wedi eu cynnwys i helpu ysgolion i gynllunio a chyflenwi cymorth a darpariaeth ar gyfer hyrwyddo parch, perthnasoedd cadarnhaol ac amrywiaeth.

Prif ganfyddiadau

Disgyblion

- 1 Dywed tua hanner yr holl ddisgyblion fod ganddynt brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a dywed tri chwarter o'r holl ddisgyblion eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn profi hyn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall sut gall aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion gael effaith negyddol ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc.
- 2 Dywed mwyafrif o ddisgyblion benywaidd (61%) eu bod wedi cael profiad personol o aflonyddu rhwng cyfoedion ac mae llawer (82%) yn adrodd eu bod wedi gweld pobl eraill yn ei brofi. Mae hyn yn cymharu â chyfran is o ddisgyblion gwrywaidd (29% a 71% yn y drefn honno).
- 3 Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fwy cyffredin ar-lein a'r tu allan i'r ysgol nag ydyw yn yr ysgol. Mae gan bobl ifanc brofiad sylweddol o gael eu haflynyddu gan eu cyfoedion trwy ffôn symudol, y cyfryngau cymdeithasol a safleoedd gemau. Mae hyn yn cynnwys:
 - bwlio ar-lein
 - postio sylwadau creulon, yn enwedig am ymddangosiad
 - anfon, rhannu a gofyn am ffotograffau noeth neu hanner noeth
 - [swyno trwy dwyll](#)
 - ceisiadau digymell i fod yn ffrind neu ofyn am ffotograffau noeth gan ddieithriad neu bobl sydd â phroffil ffug ar y cyfryngau cymdeithasol
 - agweddau negyddol tuag at ferched mewn gemau digidol
- 4 Y mathau mwyaf cyffredin o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ystod y diwrnod ysgol yw disgyblion yn heclo a gwneud sylwadau cas, gwneud sylwadau homoffobig (tuag at fechgyn yn bennaf), a sylwadau am ymddangosiad.
- 5 Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn dweud wrth athrawon pan maent yn profi aflonyddu rhywiol. Mae hyn oherwydd ei fod yn digwydd mor rheolaidd, ac maent aml yn aml naill ai ond yn dweud wrth ffrind neu'n ei gadw iddyn nhw eu hunain. Maent yn teimlo bod hyn wedi dod yn ymddygiad wedi'i normaleiddio ac yn dweud nad yw athrawon yn ymwybodol o raddau'r broblem. Yn ychwanegol, dywed disgyblion fod athrawon yn aml yn wfftio digwyddiadau fel rhai pitw, neu'n annog disgyblion i'w hanwybyddu. Yn ôl bron i hanner y disgyblion a ddywedodd eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol gan eu cyfoedion, cadwon nhw'r achos o aflonyddu rhywiol iddyn nhw eu hunain.
- 6 Mae gan ddisgyblion LHDTTC+ brofiadau personol sylweddol o aflonyddu homoffobig geiriol, a dywed llawer ohonynt fod bwlio homoffobig yn digwydd trwy'r amser ac mai dyma'r math mwyaf cyffredin o aflonyddu yn eu hysgol.

- 7 Mae llawer o ddisgyblion yn profi effaith negyddol pwysau gan gyfoedion ynghylch disgwyliadau o'r ffordd y dylent edrych a chywilyddio a bwlio rhywun oherwydd ei gorff, os nad yw ei gorff yn cydymffurfio â delwedd benodol o harddwch neu ffitrwydd. Dywed disgyblion fod problemau penodol ynghylch hyd a ffit y sgert ysgol lle caiff merched eu bwlio gan ferched eraill os yw eu sgertiau'n rhy hir, ac fe gânt eu haflonyddu'n rhywiol gan fechgyn os yw'r sgertiau'n rhy fyr.
- 8 Mae lleiafrif y bechgyn yn siarad am ymwneud yn bersonol ag aflonyddu'n rhywiol ar eu cyfoedion, yn cynnwys rhoi pwysau ar ferched i anfon ffotograffau noeth. Er eu bod yn cydnabod ei fod yn anghywir, mae llawer o fechgyn yn dweud bod rhannu ffotograffau noeth o ferched ymhlith eu ffrindiau a brolio am nifer y ffotograffau noeth sydd ganddyn nhw yn rhywbeth cyffredin.
- 9 Dywed llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan nad ydynt wedi cael digon o addysg rhyw a chydberthynas. Dywed disgyblion hŷn mewn llawer o ysgolion nad ydynt wedi cael unrhyw addysg rhyw o gwbl, a'u bod yn awyddus iawn i gael mwy o gyngor ac arweiniad ynghyd â chyfluoedd i drafod rhyw a pherthnasoedd mewn awyrgylch diogel a chyfforddus. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi gwersi addysg bersonol a chymdeithasol wedi eu cyflwyno'n dda, ond dywedant nad ydynt yn cael digon o gyfluoedd i drafod materion pwysig fel parch, perthnasoedd iach, ymddygiadau rhywiol niweidiol a hawliau LHDTC+. Dywed llawer ohonynt eu bod eisiau gweld mwy o amser yn cael ei roi i drafod 'materion bywyd go iawn' yn yr ysgol.
- 10 Mae disgyblion yn ganmoliaethus iawn am gyflwyniadau gan siaradwyr ac arbenigwyr allanol am addysg rhyw a pherthnasoedd iach. Maent yn gwerthfawrogi cael gwersi gan 'bobl go iawn sy'n siarad am broblemau bywyd go iawn' ac eisiau gweld mwy o'r math hwn o ddysgu.

Ysgolion

- 11 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos cryf o barch ym mhob agwedd ar eu gwaith. Maent yn blaenoriaethu lles ac yn mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ragweithiol tuag at hyrwyddo a dathlu amrywiaeth. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cyflogi staff bugeiliol o safon uchel ac yn gosod disgwyliadau uchel. Mae polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad ar gyfer staff a disgyblion yn cysylltu'n glir â nodau ac amcanion sy'n sicrhau bod lles wrth wraidd gwaith yr ysgol.
- 12 Mewn llawer o ysgolion, mae ymagwedd gref o fynd i'r afael â diogelu fel tîm. Caiff staff hyfforddiant rheolaidd a phriodol, maent yn deall eu cyfrifoldeb o ran diogelu plant ac yn cyflawni eu dyletswyddau diogelu yn dda. Fel arfer, mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i gŵynion ffurfiol gan rieni neu ddisgyblion am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ac yn cynnwys asiantaethau allanol priodol. Mae mwyafrif yr ysgolion yn gweithredu ymagwedd adferol at ymddygiad gwael, bwlio ac achosion hysbys o aflonyddu, ac yn defnyddio asiantaethau allanol yn dda i gefnogi eu gwaith. Mae hyn fel arfer yn cynnwys darparu cefnogaeth addas megis cwnsela i ddioddefwyr.

- 13 Ceir anghysondeb cyffredinol ymhlith staff ysgolion am eu dealltwriaeth o beth mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ei olygu, yn cynnwys materion ehangach yn ymwneud â chydarddoldeb ac amrywiaeth a sut maen nhw'n effeithio ar ddisgyblion.
- 14 Hyd yn oed o fewn ysgolion, mae anghysondeb yn y ffordd y mae athrawon yn ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol. Yn yr achosion gwaethaf, mae athrawon yn wffftio neu'n anwybyddu achosion o aflonyddu rhywiol geiriol gan ddisgyblion tuag at eu cyfoedion.
- 15 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn ymwybodol o fynychter uchel aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith pobl ifanc gan nad yw disgyblion yn dweud wrthynt amdano yn systematig. Ceir polareiddio llym rhwng yr hyn mae disgyblion yn ei ddweud sy'n digwydd a'r hyn mae staff yn ei wybod. Mae aflonyddu rhywiol yn broblem gymdeithasol nad yw'n unigryw i leoliadau addysg ac mae ysgolion yn aml yn delio gyda phroblemau sydd yn deillio o'r tu allan i'r ysgol. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn ymateb yn briodol i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y cânt wybod amdano, ond nid ydynt yn ddigon rhagweithiol yn eu hymagwedd i'w atal rhag digwydd. Drwyddi draw, nid yw ysgolion yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion siarad am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn agored.
- 16 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae systemau a phrosesau addas i staff gofnodi pryderon a gweithredoedd. Yn gyffredinol, mae staff yn defnyddio systemau o'r fath yn rheolaidd, ac mae arweinwyr yn ymateb yn gyflym i wybodaeth newydd. At ei gilydd, mae ysgolion yn defnyddio systemau digidol a systemau ar-lein yn dda i gofnodi achosion o fwlio ac aflonyddu. Yn gyffredinol, mae cofnodion yn amlinellu natur y digwyddiad a naratif o'r modd y mae'r problemau hyn wedi datblygu ac yn cael eu datrys.
- 17 Er gwaethaf y ffaith fod ysgolion yn cofnodi digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad a bwlio at ei gilydd, nid ydynt yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt gategoreiddio a dadansoddi achosion o fwlio ac aflonyddu rhwng cyfoedion yn ddigon da. Mae hyn yn atal ysgolion rhag cael darlun cywir o raddau gwahanol fathau o fwlio ac aflonyddu, fel aflonyddu rhywiol. Mewn llawer o achosion, nid yw ysgolion yn cofnodi achosion o aflonyddu rhywiol yn systematig, ac yn aml, mae eu dosbarthiad o 'fwlio' yn rhy eang ac nid yw'n galluogi'r ysgol i gofnodi a gwerthuso achosion o fwlio homoffobig, rhywiaethol neu fwlio â chymhelliant hiliol.
- 18 Oherwydd y materion y manylir arnynt uchod, nid yw llawer o arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am dueddiadau yn ymddygiad disgyblion ac effaith camau dilynol i ddelio â nhw i werthuso effeithiolrwydd eu gwaith. Yn ychwanegol, mewn llawer o ysgolion, nid yw arweinwyr yn gwneud digon o ddefnydd o ganfyddiadau'r 'Adroddiad ar Iechyd a Lles Myfyrwyr' (Page *et al.*, 2021) bob dwy flynedd a lunnir gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) i gynllunio darpariaeth.
- 19 Mewn tua hanner yr ysgolion, mae arweinwyr wedi cychwyn datblygu darpariaeth addas ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) 'Iechyd a Lles' (Llywodraeth Cymru 2020a) y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer un grŵp blwyddyn, gan amlaf Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 8. At ei gilydd, caiff testunau sy'n cwmpasu perthnasoedd iach ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn eu cynnwys yn ddigonol. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer addysg bersonol a

chymdeithasol (ABCh) ar draws yr ystod oedran gyfan, yn cynnwys ar gyfer disgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ddarpariaeth hon yn gyfuniad o wersi ABCh dynodedig, gwasanaethau, gweithdai a rhywfaint o ymdriniaeth mewn gwersi pynciau eraill.

- 20 Mae gormod o amrywiad yn yr amser a neilltuir ar gyfer ABCh ar draws ysgolion yng Nghymru ac ni roddir digon o ystyriaeth i ba mor eang a manwl y dylid ymdrin â thestunau ABCh wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, yn bennaf o ganlyniad i bwysau'r cwricwlwm presennol, nid oes gwersi ABCh rheolaidd ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 na disgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r pandemig a dysgu o bell wedi cael effaith anghymesur ar y ddarpariaeth ar gyfer ABCh a chafodd darpariaeth gan bartneriaid allanol ei hatal dros dro yn ystod y cyfnodau clo.
- 21 Mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae arweinwyr yn mynd ati i gael barn disgyblion am faterion personol a chymdeithasol, yn cynnwys aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ac yn ymateb yn dda i broblemau wrth iddynt godi, neu pan fyddant yn cael eu rhannu gan ddisgyblion a staff. Mae enghreifftiau o arferion cryf yn cynnwys gosod blychau 'pryderon' mewn ardaloedd addas, 'Blwch Awgrymiadau am ABCh' mewn ystafelloedd dosbarth, mentoriaid sy'n ddisgyblion hŷn ar ddyletswydd yn ystod amser egwyl, a grŵp cyfeirio LHDTTC+ sy'n darparu cyngor a chymorth i arweinwyr ysgol ar faterion amrywiaeth.
- 22 Mae pob ysgol yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chydweithrediad asiantaethau allanol, megis swyddog heddlu'r ysgol a gweithwyr ieuenctid, i ychwanegu at eu darpariaeth ABCh. Fodd bynnag, dywed ysgolion fod y cymorth arbenigol allanol ar gyfer addysg rhyw yn gyfyngedig erbyn hyn. Caiff y diffyg darpariaeth hwn effaith negyddol ar les llawer o ddisgyblion.
- 23 Dywed pob ysgol fod angen mwy o hyfforddiant a chymorth arnynt i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol ysgol gyfan ar sut i ymgysylltu'n rhagweithiol mewn sgysiau gyda disgyblion am faterion rhywedd ac aflonyddu rhywiol. Hefyd, mae angen iddynt gael hyfforddiant ar gyfer eu staff ysgol gyfan ar faterion LHDTTC+, er enghraifft sut i gefnogi disgyblion sy'n trawsnewid neu ddisgyblion trawsryweddol, gan gynnwys drwy ddefnydd addas o iaith neu ragenwau personol y byddai'n well ganddynt i bobl eu defnyddio.
- 24 Mae staff ysgol yn mynegi'n gryf fod angen cydweithio â rhieni, a bod angen eu cydweithrediad wrth ddelio ag achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Yn aml, mae'r achosion hyn yn digwydd ar-lein gyda'r nos ac yn ystod penwythnosau, ond yn effeithio ar les ac ymddygiad disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r cydweithio hwn yn cynnwys rhieni'n monitro defnydd plant o gyfryngau cymdeithasol a chyfleusterau sgwrsio yn rheolaidd.

Awdurdodau lleol

- 25 O dan Ganllawiau Gwrthfwlio Statudol Llywodraeth Cymru (2019b), mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i fonitro'r data tymhorol ar fwlio a chydaddoldeb y mae ysgolion yn ei rannu â nhw, a rhoi cyngor i ysgolion ar dueddiadau lleol. Prin yw'r achosion o fwlio y mae ysgolion yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol amdanynt, ac anaml y

byddant yn adrodd ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae diffyg cysondeb yn y modd y mae awdurdodau lleol yn casglu, dadansoddi a defnyddio data ar fwlio ac aflonyddu, er enghraifft i gynllunio ymyrraeth neu hyfforddiant i staff.

Argymhellion

Dylai ysgolion uwchradd:

- A1 **Gydnabod bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fynych iawn ym mywydau disgyblion ifanc a mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ataliol a rhagweithiol i ddelio â'r mater.** Rhan bwysig o hyn yw ei bod yn cynnwys darparu sicrwydd i ddisgyblion y bydd staff ysgol yn cymryd pob achos o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o ddifrif ac yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau allanol.
- A2 **Darparu cyfleoedd dysgu digonol, cronol a buddiol ar gyfer disgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan am berthnasoedd iach, addysg rhyw a rhywioldeb.** Mae hyn yn cynnwys darparu amgylchedd diogel, cefnogol a galluogol ar gyfer trafodaethau agored a gonest.
- A3 **Gwella'r ffordd maen nhw'n cofnodi, categorioedd a dadansoddi achosion o aflonyddu a bwlio.** Dylai cofnodion gynnwys manylion am y math o achosion, a'u natur, yr effaith ar y dioddefwr a chymau gweithredu priodol i ymateb i gyflawnwyr a dioddefwyr, fel ei gilydd. Dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn adolygu cofnodion yn rheolaidd, ac yn gwerthuso effaith eu gweithredoedd ar les disgyblion.
- A4 **Sicrhau bod holl staff ysgolion yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd a phwrpasol ar faterion addysg bersonol a chymdeithasol, yn cynnwys perthnasoedd, rhywedd, amrywiaeth a thrawsnewid.** Mae hyn yn cynnwys darparu awyrgylch diogel, anogol a chefnogol ar gyfer trafodaethau agored ac onest.

Dylai awdurdodau lleol:

- A5 **Weithio gydag ysgolion i gasglu, categorioedd a dadansoddi'r holl ddata ar fwlio ac aflonyddu yn gywir ac yn gynhwysfawr.** Yn ychwanegol, cynorthwyo ysgolion i ddadansoddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd i nodi tueddiadau a rhoi trefniadau adferol ar waith.
- A6 **Cynllunio ymyrraeth a chymorth addas ar faterion rhyw ar lefel ysgol ac awdurdod lleol a gwerthuso effaith hyn ar les disgyblion yn rheolaidd.**
- A7 **Darparu dysgu proffesiynol angenrheidiol ar gyfer staff ysgol i'w galluogi i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, yn cynnwys bwlio ac aflonyddu homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.** Dylai hyn ddigwydd mewn cydweithrediad â'r consortia rhanbarthol lle y bo'n briodol.

Dylai Llywodraeth Cymru:


- A8 Weithio gydag awdurdodau addysg lleol er mwyn gwella'r ffordd y maent yn casglu gwybodaeth am fwlio ac aflonyddu gan ysgolion a sicrhau bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn ymateb i batrymau a thueddiadau mewn ymddygiad.** Mae hyn er mwyn cynllunio arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth addas i ysgolion.
- A9 Sicrhau bod ysgolion yn cael diweddariadau rheolaidd a llawn gwybodaeth ar arferion gorau ac adnoddau addas sydd ar gael i'w cynorthwyo i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb**

Beth ddywedodd disgyblion wrthym ni – crynodeb o ganfyddiadau o weithgareddau grwpiau ffocws disgyblion a holiadur ar-lein disgyblion

Dealltwriaeth a profiad disgyblion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

Mae gan y rhan fwyaf o fechgyn a merched ddealltwriaeth glir o beth yw aflonyddu rhywiol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cyfeirio at gydsyniad wrth bennu p'un a yw ymddygiadau yn briodol ai peidio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig merched, yn deall bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel arfer yn achosi i bobl ifanc deimlo'n anghyfforddus, yn orbryderus neu'n anhapus. Yn gyffredinol, mae gan ferched wybodaeth gynhwysfawr am y gwahanol fathau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'r effaith negyddol uniongyrchol ar ddioddefwyr. Mae bechgyn yn deall beth yw aflonyddu rhywiol hefyd, ond mae ganddynt ddealltwriaeth fwy cyfyng o'i effaith. Mae diffiniadau merched yn eang ac yn cynnwys teimlo eu bod yn cael eu gwrthrycholi, eu barnu a'u cyfyngu, yn ogystal â pheidio â chael eu parchu. Mae safbwyntiau bechgyn yn llai arlliwiedig na safbwyntiau'r merched, ac yn tueddu i ganolbwyntio ar yr agweddau amlycaf fel defnydd o iaith ac ymddygiadau sydd gyfwerth ag aflonyddu rhywiol.


Yn gyffredinol, mae gwahaniaeth rhwng yr hyn mae disgyblion hŷn a disgyblion iau yn ei ddweud. Yn gyffredinol, mae disgyblion hŷn yn seilio eu hymatebion ar yr hyn y maent yn ei wybod ac wedi'i brofi dros gyfnod, tra bod disgyblion iau (y rhai ym Mlwyddyn 8) yn ysgrifennu ac yn siarad yn fwy cyffredinol am beth allai'r achos fod, yn eu barn nhw. Hefyd, yr hynaf yw'r disgyblion, y mwyafrif eglur maen nhw'n mynegi pethau o ran aflonyddu rhywiol, ond i lawer o'r disgyblion iau (Blwyddyn 8 a mwyafrif Blwyddyn 9), mae'n ymwneud yn fwy â bwlio yn gyffredinol. Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd oedran, profiad a graddau aeddfedrwydd. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio pa mor gyflym y mae profiad pobl ifanc o aflonyddu rhywiol yn newid yn sgil y glasoed.



Wrth ymateb i'r holiadur i ddisgyblion, dywed 46% o'r holl ddisgyblion fod ganddynt brofiad personol o ryw fath o aflonyddu rhywiol, tra bod 76% yn dweud eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn profi hyn. Mae disgyblion na ddewison nhw ryw neu nad ydynt yn nodi mai gwrywaidd neu fenywaidd yw eu hunaniaeth yn adrodd am gyfradd uwch o aflonyddu rhwng cyfoedion, ac roedd 64% wedi cael profiad personol ohono. Dywed llawer o ddisgyblion benywaidd (86%) eu bod wedi cael profiad personol o aflonyddu rhwng cyfoedion neu wedi gweld disgyblion eraill yn profi hyn. Mae hyn yn cymharu â chyfran is o ddisgyblion gwrywaidd (74%). Mae dwywaith gymaint o ferched (61%) yn adrodd eu bod wedi cael profiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion na bechgyn (29%).

Mae profiad disgyblion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cynyddu wrth iddynt fynd yn hŷn. Dywed cyfran fwy o ddisgyblion hŷn eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion (gweler Ffigur 1). Dywed bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 13 (95%) eu bod wedi gweld yr aflonyddu hwn, a dywed 72% eu bod wedi'i weld yn yr ysgol, 75% y tu allan i'r ysgol a 75% ar-lein. Dim ond 20% o ddisgyblion Blwyddyn 13 sy'n dweud nad ydynt wedi gweld na phrofi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar-lein.

Ffigur 1: Disgyblion sydd yn dweud eu bod wedi gweld eraill yn profi aflonyddu rhywiol, fesul blwyddyn ysgol



Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion

Ar draws pob ysgol, yr achosion mwyaf cyffredin o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion yw heclo, gwneud sylwadau homoffobig tuag at fechgyn yn bennaf, a sylwadau am y corff. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran mai gan gyfoedion am ymddangosiad yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o aflonyddu rhywiol maen nhw'n ei brofi. Mae'r math hwn o aflonyddu rhywiol yn digwydd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae rhywioli neu wrthrycholi'r corff – i fechgyn a merched – a materion ynghylch ffitrwydd yn sbarduno [heclo](#), [galw enwau](#) a chywilyddio rhywun yn gyhoeddus oherwydd ei gorff, yn cynnwys '[cywilyddio rhywun oherwydd rhagfarnau bod rhywun yn dew. am fod yn dew](#)'.

Bron ym mhob achos, mae ymatebion merched yn canolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei brofi eu hunain gyda sylwadau neu ddisgrifiadau cyfyngedig ar beth allai aflonyddu rhywiol ei olygu i'r bechgyn. Mae llawer o fechgyn yn credu bod galw enwau ar bobl neu anfon negeseuon anwedus o gwmpas dim ond er mwyn cael hwyl, ac yn digwydd oherwydd pwysau gan gyfoedion – **“mae pawb yn hoffi hwyl ac yn mwynhau gweld pobl eraill yn teimlo'n anghyforddus”**.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhoi sylwadau i ryw raddau ar alw enwau homoffobig mewn coridorau yn eu hysgolion, y mae disgyblion ac ychydig o athrawon yn nodi mai **“cellwair yn unig”** yw hyn. Mae bechgyn, yn arbennig, yn dweud mai bechgyn yw prif gyflawnwyr camdriniaeth homoffobig, ddeuffobig a thrawsffobig. Mae llawer o ddisgyblion LHDTTC+ yn nodi bod bwlio homoffobig yn digwydd drwy'r amser ac mai dyma'r math mwyaf cyffredin o aflonyddu yn yr ysgol. **“Bob tro rydyn ni'n cerdded i lawr y coridor, bydd rhywun yn galw enwau arnon ni”**.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad am bwysau gan gyfoedion a disgwyladau am y ffordd y dylent edrych, a'r ffaith eu bod yn cael eu cywilyddio am eu corff a'u bwlio os nad yw eu cyrff yn cydymffurfio â delwedd benodol o harddwch neu ffitrwydd. Yn gyffredinol, dywed bechgyn a merched y gall unrhyw un gael ei gywilyddio am ei gorff a bod hyn yn cael effaith negyddol ar hunan-barch ac ymdeimlad o werth.

Mae merched yn nodi gorbryderon sylweddol ynglŷn â bod yn rhy denau neu'n rhy dew, a sut mae pwysau gan gyfoedion a sylwadau gan ferched eraill am ddelwedd y corff yn gwneud iddyn nhw deimlo'n annigonol ac yn anneniadol. Mae galw enwau fel **"hwch"** neu **"ffati"** a sylwadau cas fel **"starfia dy hun"** neu **"cuddia dy olion stretshio"** yn gallu achosi i rai merched fynd ar diet i golli pwysau er mwyn iddynt edrych fel eu cyfoedion teneuach. Mae ychydig ohonynt yn disgrifio hyn fel ceisio edrych yn **"ddelach ac yn fwy rhywiol"**. Hefyd, mae merched yn siarad am bwysau oddi ar y teledu, gan enwogion a chyfryngau cymdeithasol, a sut gallai gweld **"y corff benywaidd perffaith"** achosi i ferched ddatblygu anhwylderau bwyta.

Mae disgyblion yn deall bod gweld eraill yn ddeniadol yn iach ac yn naturiol. Fodd bynnag, mae llawer o fechgyn yn teimlo bod merched dan bwysau i edrych yn dda iddyn nhw. Maen nhw'n aml yn beio merched eraill am hyn ac yn disgrifio'r diwylliant **'heclo'** ymhlith merched sy'n bodoli yn yr ysgol ac ar-lein. Mae mwyafrif o'r bechgyn o'r farn fod eisiau cariad ar bob un o'r merched, ac felly maent yn barod i newid y ffordd maen nhw'n edrych i gyflawni hyn. Mae llawer o fechgyn o'r farn pan fydd merched yn dangos unrhyw rannau o'u corff, trwy wisgo dillad byr neu ddillad sy'n dangos popeth, eu bod yn chwilio am sylw rhywiol. Hefyd, maent yn credu bod hyn oherwydd bod merched eisiau sylw. Dywed lleiafrif ohonynt fod merched eisiau i'r bechgyn eu heclo neu eisiau cael eu cyffwrdd gan fechgyn. Wrth iddynt fynd yn hŷn, mae mynychter cynyddol o ran bechgyn yn beirniadu a graddio cyrff merched a gwneud cymariaethau rhyngddyn nhw ar sail siâp a maint y corff neu lefel ganfyddedig rhywioldeb. Hefyd, mae bechgyn yn cyfaddef iddynt syllu ar ferched ond nad ydynt yn dirnad bod hyn yn aflonyddu rhywiol ond yn hytrach yn **"ymddygiad normal gan fechgyn"**.

Mae disgyblion LHDTTC+ wedi cael profiadau personol sylweddol o aflonyddu homoffobig geiriol oherwydd siâp eu corff neu'u hymddangosiad. Er enghraifft, mae merched lesbiaidd yn siarad am gael eu galw'n **"lesi dew"**, er nad ydyn nhw'n or-dew. Yn aml, caiff gweithredoedd neu ymddangosiad bechgyn eu galw allan gan gyfoedion â sylwadau fel **"mae hynny mor 'gay'"** neu **"mae dy wallt di mor gay"**. Yn aml, bydd bechgyn heterorywiol yn tynnu coes cyfoedion cyfunrhywiol gan ddweud eu bod yn eu **"ffansio"** nhw ac eisiau **"bangio nhw"**.

Dywed ychydig o ferched fod hunan-barch isel am eu golwg, neu broblemau ag acne neu smotiau yn ystod yr arddegau yn gallu achosi iddyn nhw ddefnyddio colur o oedran ifanc. Maent yn siarad am y modd maen nhw'n **"casáu'r ffordd maen nhw'n edrych"** a pha mor siomedig ydyn nhw fod eu hysgolion ddim yn caniatáu colur. Gallai hyn arwain at broblemau emosiynol sylweddol iddyn nhw, yn ogystal â'u gwneud yn agored i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Er enghraifft, dywed lleiafrif o fechgyn fod disgyblion yn **"pigo ar"** ferched sy'n gwisgo colur ac yn galw enwau fel **"slag"** arnyh nhw.

Gwisg ysgol a rhywioli merched

Mae bechgyn a merched yn llafar iawn am faterion ynghylch dewisiadau dillad, yn enwedig y sgert ysgol a rhywioli merched yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o ferched a mwyafrif y bechgyn yn trafod materion ynghylch hyd a ffit y sgert ysgol. Dywedant fod merched yn cael eu bwlio gan ferched eraill os yw eu sgertiau'n rhy hir, a'u haflonyddu'n rhywiol gan fechgyn os yw eu sgertiau'n rhy fyr.

“Os yw dy sgert yn rhy fyr, rwyt ti'n slebog neu'n slwten. Os yw dy sgert yn rhy hir, rwyt ti'n ddiflas neu'n oeraidd. Os wyt ti'n gwisgo sgert, bydd bechgyn yn defnyddio hynny fel ffordd o gydsynio - rwyt ti'n gofyn amdani.”

Mae mwyafrif y merched wedi cael rhyw brofiad o rywun yn codi eu sgert yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan feio bechgyn am **“dynnu sgertiau merched i fyny bob amser neu edrych i fyny eu sgertiau pan fyddan nhw'n eistedd i lawr”**. Dywed ychydig o ferched y bydd bechgyn yn **“cyffwrdd â'u penolau”** os ydyn nhw'n gwisgo sgertiau tynn i weld a ydyn nhw'n gwisgo unrhyw ddillad isaf, a bod merched yn tueddu i wisgo siorts o dan eu sgertiau **“i atal bechgyn rhag edrych”**. Dywed merched eraill eu bod yn gwisgo sgertiau tynn i'w gwneud yn anoddach i'r bechgyn eu codi i fyny. Yn gyffredinol, mae llawer o ferched yn mynegi dicter fod athrawon yn rhoi pryd o dafod iddynt am wisgo sgertiau tynn, ond dydyn nhw ddim yn dweud wrth y bechgyn i beidio â chorff-gyffwrdd (grope) a heclo. Dywed disgyblion iau ym Mlwyddyn 8 ac ychydig o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 fod bechgyn iau bob amser yn ceisio codi sgertiau merched i fyny wrth iddynt redeg, ond maent yn diystyru hyn fel bechgyn yn bod **“yn ddim ond niwsans”** a **“does dim byd rhywiol yn gysylltiedig â hyn”**. Dywed bechgyn iau eu bod yn meddwl bod codi sgertiau merched i fyny yn digwydd **“o ran hwyl”** yn bennaf. Mae bechgyn yn sôn am adegau pan maen nhw wedi codi sgertiau merched am fod eu cyfoedion wedi eu herio i wneud hynny, ac yn cael cymeradwyaeth gymdeithasol am wneud hynny.


Mae llawer o ferched yn dweud bod cyfoedion yn rhoi pwysau sylweddol arnynt i rollo eu sgert ysgol i fyny i'w gwneud yn fyrrach, ac wedyn bydd hyn yn cael ei rywioli gan fechgyn a merched. Maent yn disgrifio sut maent yn teimlo'n bryderus os byddant yn dilyn y duedd, ond hefyd am orbryderon y byddant yn eu profi os na fyddant yn ei dilyn. Dywed merched fod pa mor fyr yw'r sgert yn denu sylwadau, 'cellwair' a sylw gan fechgyn, ond mae ychydig o fechgyn yn teimlo mai'r byrraf yw sgert y ferch, y mwyafrif y cânt roi sylwadau neu weithredu gan eu bod nhw'n meddwl mai dyma mae merched ei eisiau. Ychydig iawn o fechgyn sy'n dangos empathi tuag at ferched. Fodd bynnag, yn y chweched dosbarth, mae bechgyn yn trafod mater gwrthrycholi merched a'r modd y mae cymdeithas yn beio merched am eu dewis o ddillad. Maent yn cytuno bod hyn yn anghywir a bod angen mynd i'r afael ag ef. Dywedodd un disgybl:

“Mae dynion yn credu bod merched yn haeddu beth sy'n digwydd iddyn nhw, os ydyn nhw'n gwisgo dillad sy'n dangos popeth. Dylen ni ddysgu dynion i reoli eu hunain.”

Aflonyddu rhywiol ar-lein

Dywed disgyblion fod aflonyddu rhwng cyfoedion yn digwydd mwy ar-lein nag yn yr ysgol. Maent yn siarad yn gynhwysfawr am ffonau symudol, cyfryngau cymdeithasol a safleoedd gemau a'r problemau sy'n gysylltiedig â nhw.

Ffigur 2: Ymatebion i'r cwestiwn "Ble mae aflonyddu rhywiol rhwng disgyblion yn digwydd amlaf?"



Dyma'r prif themâu sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ar-lein fel y nodwyd gan y disgyblion:

- pwysau gan gyfoedion i gael nifer fawr o 'ffrindiau' ar-lein, arwyddion 'hoffi' a sylwadau ar broffiliau
- bwlio ar-lein, postio sylwadau cas am gyfoedion, yn enwedig sylwadau am ymddangosiad
- gwrthrycholi ffotograffau rhywiol o ferched gan fechgyn
- gofyn am, anfon a rhannu ffotograffau noeth neu hanner noeth
- swyno trwy dwyll, ceisiadau digymell i fod yn ffrind neu ofyn am ffotograffau noeth gan ddieithriaid neu bobl sydd â phroffil ffug ar y cyfryngau cymdeithasol
- agweddau negyddol tuag at gymeriadau benywaidd a/neu pan mae merched yn chwarae gemau digidol

Er bod pobl ifanc yn gweld gwerth bod yn berchen ar ffôn symudol, maent yn deall sut gall y problemau yn gysylltiedig â nhw gael effaith negyddol ar iechyd meddwl. Ar sail eu sylwadau, mae'n glir fod pobl ifanc yn teimlo bod pwysau i bostio sylwadau poblogaidd yn rheolaidd ac i gael eu 'hoffi' ar gyfryngau cymdeithasol.

“Rydych chi’n cael eich gwneud i deimlo fel bod rhaid i chi bostio i blesio pobl a chael arwyddion ‘hoffi’. Mae pwysau i bostio ddydd a nos.”

Mae bechgyn a merched fel ei gilydd yn siarad yn helaeth am bwysau gan gyfoedion ar-lein i fod yn boblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol, a bod angen cael arwyddion ‘hoffi’ a ‘dilynwyr’.

Caiff sylwadau cas gan gyfoedion eu gwneud yn amlach ar-lein nag yn yr ysgol. Mae merched, yn enwedig, yn cael sylwadau negyddol gan ferched eraill oherwydd eu bod wedi rhannu llun ohonyn nhw eu hunain ar eu tudalen proffil ar gyfryngau cymdeithasol. Maent yn teimlo dan bwysau i gydymffurfio â disgwyliadau penodol am siâp a golwg gan eu bod yn dirnad bod merched ifanc deniadol yn postio lluniau ohonyn nhw eu hunain yn rheolaidd, gan ddisgwyl i bobl eraill wneud sylwadau canmoliaethus amdanyh nhw a’r ffordd maen nhw’n edrych. Mae bechgyn yn cyfaddef eu bod wedi anfon a derbyn sylwadau a negeseuon testun di-chwaeth gan fechgyn eraill, yn aml yn gysylltiedig â chywilyddio rhywun am fod yn dew neu wneud hwyl o bostiadau bechgyn eraill. Maent yn dirnad bod hyn yn **“normal”**.

Mewn ychydig o achosion, mae bwlio mwy targedig rhwng merched lle maent yn rhoi straeon ar led am weithgarwch rhywiol merched eraill, yn herio merched eraill i gael rhyw neu anfon ffotograffau ohonyn nhw eu hunain yn eu dillad isaf. Wedyn, mae merched yn rhannu’r ffotograffau hyn o gwmpas ac yn galw enwau arnyh nhw fel **“slag”** a **“slwten”**.

“Mae llawer o fwlio ar gyfryngau cymdeithasol. Mae pobl yn pigo ar bobl eraill oherwydd eu golwg. Gallai hyn gael effaith ar bobl yn feddyliol, yn enwedig os yw rhywun yn galw chi’n ‘hwren’ neu’n ‘slag’.”

Mae lleiafrif y merched yn pryderu am effeithiau bwlio ar-lein, yn dweud y gall hyn arwain at orbyrder, iselder a [dysmorffia](#)’r corff, a allai hefyd arwain at anhwylderau bwyta a hunangasineb.

O ran secstio, rhywioli cyfoedion ac anfon ffotograffau noeth, mae bron pob disgybl o Flwyddyn 10 ymlaen yn nodi materion cyffredin. Fodd bynnag, nid oedd llawer yn sylweddoli bod hyn yn weithred droseddol. Trwy anfon neu dderbyn llun noeth, gall blentyn gyflawni troseddau sy’n perthyn i greu a rhannu lluniau anwedus o blât o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 (sydd yn cynnwys delweddau o’r rhai o 16 a 17 oed trwy adran 45 o’r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003), adran 160 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ac adran 62 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Gall secstio gan blant hefyd arwain at wneud neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol o dan adran 8 (plentyn dan 13) neu adran 10 (plentyn) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

Mae’n amlwg fod pwysau i rannu ffotograffau noeth, colli rheolaeth dros ddelweddau wedi iddynt gael eu rhannu, a phobl ifanc yn cael eu gwneud i deimlo’n euog pan na fyddant yn anfon ffotograffau, yn gyffredin ymhlith disgyblion hŷn. Dywed y rhan fwyaf o ferched fod bechgyn yn gofyn am ffotograffau ohonynt yn noeth yn digwydd

yn rheolaidd, ac maent yn sôn am y pwysau parhaus gan fechgyn i anfon ffotograffau. Er enghraifft, nododd un ferch, **“Mae’n digwydd bob dydd – mae’n gyffredin iawn. Mae bechgyn yn gofyn am luniau noeth neu barhau i sbamio’ch ffôn.”**

Mae’r rhan fwyaf o ferched yn ymwybodol o beryglon anfon ffotograffau trwy neges destun a’r bygythiad y bydd unrhyw un yn eu rhannu ymhellach. Dywed pob merch sy’n siarad am ei phrofiad o secstio mai bechgyn yn unig sy’n gofyn am ffotograffau noeth, ond mae ambell un yn beio merched hefyd am gydymffurfio **“dim ond i blesio bechgyn a chael eu hoffi neu’u caru’n fwy”**.

Mae dros hanner y bechgyn yn siarad am fod ynghlwm yn bersonol ag aflonyddu’n rhywiol ar gyfoedion, er enghraifft aflonyddu ar ferched gyda delweddau noeth o ddieithriaid neu ffotograffau neu fideos amhriodol eraill. Hefyd, mae bechgyn yn siarad am y pwysau gan fechgyn eraill i anfon ffotograffau noeth neu gynnwys rhywiol. Dywed llawer o fechgyn fod rhannu ffotograffau noeth o ferched ymhlith eu ffrindiau a brolio am nifer y ffotograffau noeth sydd ganddynt yn eu meddiant yn gyffredin. Er eu bod yn cyfaddef iddynt wneud hyn, mae mwyafrif y bechgyn yn cydnabod bod hyn yn anghywir ac yn amharchus.

Dywed lleiafrif o fechgyn hŷn fod pornograffi yn cael ei rannu o gwmpas am fod **“bechgyn eisiau gwneud argraff ar eu ffrindiau”**. Gan amlaf, nid yw’r cynnwys yn lluniau o rywun maent yn ei (h)adnabod. Pan ofynnwyd iddynt a ydyn nhw’n meddwl bod hyn yn dderbyniol – dywed lleiafrif ohonynt ei fod yn **“iawn ar yr amod nad ydych chi’n adnabod y merched yn y lluniau”**. At ei gilydd, ychydig o ddisgyblion LHDTTC+ yn unig sy’n dweud bod ganddynt brofiad personol o secstio, gan ddatgan bod gan aelodau o’r gymuned LHDTTC+ fwy o barch at ei gilydd na phobl ifanc eraill. Rhannodd un....

“Rydyn ni’n fwy preifat, ac yn gofalu am ein gilydd gan nad ydy neb arall. Rydyn ni’n siarad amdano yn y clwb LHDTTC+. Does dim byd yn digwydd mewn gwirionedd ar ôl hynny, ond rydyn ni’n cael cyfle i siarad amdano.”

Mae llawer o fechgyn yn nodi bod rhagbaratoi (grooming) gan bobl hŷn yn risg sylweddol ar-lein. Mae hyn yn cynnwys pobl nad ydynt yn eu hadnabod yn cysylltu â bechgyn ac yn anfon ‘ceisiadau i fod yn ffrind’, a dywedant fod hyn yn digwydd yn rheolaidd. Mae lleiafrif y bechgyn yn nodi bod pobl ar hap yn aml yn ymddangos ar-lein a’i bod **“yn rhy hawdd cyfathrebu â phobl ydydych chi ddim yn eu hadnabod trwy gemau ar-lein.”** Mae bron pob un ohonynt yn ymwybodol na ddylent siarad â phobl nad ydyn nhw’n eu hadnabod ar-lein na derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan ddieithriaid.

Mae disgyblion yn siarad yn wybodus am ‘swyno trwy dwyll’ lle mae disgyblion yn creu cyfrifon ffug i anfon delweddau digymell a phoenydio disgyblion eraill. Maent yn datgan bod swyno trwy dwyll yn broblem gyffredin ac fel arfer yn cynnwys dynion hŷn yn targedu merched ifanc. Dywed nifer sylweddol o ferched eu bod wedi cael eu targedu, fel arfer trwy dderbyn lluniau a negeseuon testun amhriodol gan ddieithriaid ac nid gan gyfoedion ar ap poblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae mwyafrif y bobl ifanc yn gwybod sut i adnabod cyfrifon ffug ac yn teimlo eu bod yn gallu eu rhwystro. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn deall y term 'rhagbaratoi' ac yn dweud y byddent yn rhoi gwybod i rywun pe bai'n digwydd iddyn nhw. Mae merched hŷn yn siarad am dderbyn negeseuon gan ddynion a bechgyn nad ydynt yn eu hadnabod ar safle cyfryngau cymdeithasol sy'n boblogaidd er mwyn rhannu lluniau yn gofyn iddynt anfon delweddau ohonynt nhw eu hunain, **"yn begian am luniau noeth"**.

Dywed y rhan fwyaf o fechgyn eu bod wedi chwarae gemau maen nhw'n rhy ifanc i'w chwarae yn gyfreithlon. Dywed bechgyn hŷn eu bod yn chwarae'r gemau hyn yn rheolaidd ac yn eu mwynhau tra bod y bechgyn iau yn dweud eu bod yn cael eu rhoi dan bwysau i regi a **"siarad yn fudr"** wrth chwarae'r gemau hyn. Mae gan fechgyn yn y chweched dosbarth ymwybyddiaeth resymol o lefel natur wenwynig yr iaith a ddefnyddir mewn fforymau gemau, yn cynnwys y defnydd wedi'i normaleiddio o dermau fel **"slwten"** a **"hwren"** wrth gyfeirio at fenywod. Mae merched sy'n siarad am hyn yn nodi problem yn ymwneud â gemau amhriodol yn bennaf sy'n aml yn cywilyddio menywod. Mae merched yn siarad am bortreadu menywod yn rhywiaethol mewn gemau sy'n boblogaidd gyda bechgyn, ble caiff merched eu trin mewn modd bychanol a rhywiol. Mae ychydig o fechgyn yn efelychu'r dôn hon yn y ffordd y maent yn siarad â merched yn ystod gemau ar-lein,

"Mae bechgyn yn trin menywod yn wahanol gan fod gemau'n portreadu menywod fel pe baen nhw'n israddol i ddynion."

Pam nad yw disgyblion yn dweud wrth eu hathrawon am aflonyddu rhywiol a ble maen nhw'n mynd am gymorth

Mewn trafodaethau gyda phobl ifanc yn y grwpiau ffocws a thrwy'r holiadur ar-lein, mae'n amlwg nad yw disgyblion yn dweud popeth wrth eu hathrawon am eu profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd eu bod yn meddwl bod yr ymddygiad hwn yn normal ac nad yw'n werth cwyno amdano. Hefyd, nid ydynt yn dymuno tynnu sylw atyn nhw eu hunain. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn meddwl bod cwynion am aflonyddu rhywiol yn aml yn cael eu hanwybyddu neu nid yw ysgolion yn delio â nhw'n ddigon da. Maent yn teimlo bod aflonyddu rhywiol geiriol yn cael ei ystyried yn **"gellwair"** yn rhy aml gan gyfoedion ac oedolion, fel ei gilydd. Dywed llawer o ferched eu bod wedi cael profiadau negyddol wrth gwyno i athrawon ar lafar am agweddau neu ymddygiad bechgyn. Maent yn rhoi enghreifftiau o ymatebion diystyriol athrawon i'w cwynion, fel **"peidiwch â chymryd sylw ohono"**, neu **"maen nhw jest yn bod yn wirion"** a'r ymateb amlaf yw **"dyna natur bechgyn"**.

Mae lleiafrif y disgyblion yn nodi y trafodir aflonyddu rhywiol weithiau mewn gwasanaethau neu wersi, a'u bod yn cael rhywfaint o arweiniad amdano. Fodd bynnag, mae disgyblion hefyd yn nodi bod cwynion yn aml yn cael eu 'hanwybyddu' gan staff ysgol neu nid ymdrinnir â nhw'n briodol. Dywedant fod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â beth yw aflonyddu rhywiol a sut y dylai disgyblion wneud cwynion. Mae'n glir o ymatebion disgyblion fod llawer ohonynt yn teimlo bod ysgolion yn tanamcangyfrif mynychter aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ym mywydau pobl ifanc. Dywed disgyblion nad yw athrawon yn deall graddau'r broblem, yn enwedig beth sy'n digwydd ar-lein. **"Mae'n digwydd yn fwy nag yr ydych yn meddwl"**.


Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion LHDTTC+ yn teimlo mai ychydig o athrawon yn unig fyddai'n gwneud unrhyw beth pe baent yn clywed disgyblion yn defnyddio iaith sarhaus homoffobig yn eu herbyn. Mae canran uchel o ddisgyblion anneauaid yn teimlo bod cwynion yn cael eu hanwybyddu neu nid ymdrinnir â nhw. Mae'r rhai nad oeddent yn dymuno datgelu eu rhywedd yn teimlo'n gyffredinol fod problemau aflonyddu rhywiol yn cael eu hanwybyddu neu nid ymdrinnir â nhw'n dda, ond maent hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o arweiniad iddynt ar beth i'w wneud amdano.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion LHDTTC+ yn datgan mewn trafodaethau grŵp ac yn yr holiadur eu bod yn flin neu'n siomedig nad yw eu hathrawon yn ymateb pan fyddant yn clywed enwau homoffobig yn cael eu defnyddio. Mae llawer o ddisgyblion LHDTTC+ yn teimlo nad yw eu hysgolion yn deall graddau'r bwlio homoffobig, deuffobig neu drawsffobig ac eisiau i athrawon gael eu haddysgu ar sut i'w adnabod a delio ag ef.

Yn ôl disgyblion, dim ond ychydig o ysgolion uwchradd sy'n delio'n dda ag achosion o agweddau negyddol neu rywiaethol pan fyddant yn dod yn ymwybodol ohonynt.

Mae disgyblion sydd wedi profi aflonyddu yn llai tebygol o gredu bod cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif. (Ffigur 3) Y rhai na ddewiswn nhw ryw neu nad oeddent yn nodi mai gwryw neu fenyw oedd eu hunaniaeth sydd fwyaf tebygol o gredu bod cwynion byth yn cael eu cymryd o ddifrif, neu'n anaml. At ei gilydd, mae merched yn llai tebygol o gredu bod cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif na bechgyn. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn amlach.

Ffigur 3: Ymatebion i'r cwestiwn "Yn eich barn chi, a yw pobl yn eich ysgol yn cymryd cwynion am aflonyddu rhywiol o ddifrif, ac yn ymateb yn briodol?"




Yn yr holiadur, dywed 46% o ddisgyblion a ddywedodd eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol gan eu cyfoedion eu bod wedi cadw'r profiad iddyn nhw eu hunain. Mae merched yn fwy tebygol o gadw achos o aflonyddu rhywiol iddyn nhw eu hunain na

bechgyn, a hefyd yn llai tebygol o ddweud wrth rywun ag awdurdod. Fodd bynnag, mae merched yn llawer mwy tebygol o ddweud wrth eu ffrindiau na bechgyn (68% o gymharu â 36%). Dim ond 22% o'r holl ddisgyblion a ddywedodd eu bod wedi dweud wrth athro, a dywedodd 30% wrth eu rhieni neu ofalwyr. At ei gilydd, roedd mwyafrif y disgyblion a oedd wedi cael eu haflynyddu'n rhywiol wedi siarad â'u ffrindiau amdano.

Wrth lenwi'r holiadur, cafodd disgyblion nad ydynt wedi profi aflonyddu yn bersonol eu cyfeirio fel mater o drefn at gwestiwn yn gofyn iddyn nhw beth fyddent yn ei wneud pe baent yn ei brofi. Mae disgyblion nad ydynt wedi profi aflonyddu rhywiol yn credu y byddent yn ei wrthwynebu pe baent yn wynebu'r broblem neu'n dweud wrth oedolyn cyfrifol. Mae'r canlyniadau hyn yn wahanol iawn i'r rhai sydd wedi profi aflonyddu fel a nodir isod.

Ffigur 4: Ymatebion i'r cwestiwn "Sut y gwnaethoch / y byddech chi yn delio â hyn?"



Mewn trafodaethau grwpiau ffocws am ffynonellau cymorth ar gyfer aflonyddu rhywiol ar-lein, secstio ac anfon neu dderbyn ffotograffau noeth, mae disgyblion yn nodweddiadol yn dweud eu bod yn estyn allan i'w ffrindiau gan eu bod yn gyffredinol yn teimlo'n fwy cyfforddus yn dweud wrth ffrind amdano na dweud wrth oedolyn cyfrifol neu aelod o'r teulu. Mae ychydig ohonynt yn nodi eu bod yn rhy ofnus i ddweud wrth unrhyw un o gwbl.

Mae ychydig ohonynt yn nodi eu bod wedi cael gweithgareddau dan arweiniad athro i amlygu peryglon secstio ac wedi cael eu hannog i roi gwybod am unrhyw achosion i'w pennaeth blwyddyn. Er bod llawer o ddisgyblion yn deall bod angen adrodd am unrhyw weithgarwch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar gyfryngau cymdeithasol, nid ydynt yn nodweddiadol yn datgan y byddent yn dweud wrth eu hathrawon.

O ran cymorth mwy cyffredinol ar gyfer unrhyw brofiad o aflonyddu, dywed mwy o fechgyn y byddent yn dweud wrth athro na merched. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig – llai na 10 y cant – sy'n sôn am wasanaethau cymorth allanol fel Childline, NSPCC a'r heddlu. Dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion ffydd sy'n dweud y byddent yn troi at eu heglwys neu ffigur crefyddol am gymorth. Dywed lleiafrif o ddisgyblion mewn ysgolion preswyl annibynnol y byddent yn siarad â'u rhiant yn y llety.

Mae ychydig o ddisgyblion, merched yn bennaf, yn dweud eu bod yn cadw gofidiau a theimladau iddyn nhw eu hunain; mae ychydig o'r rhain yn dweud y byddent yn 'siarad â nhw eu hunain' gan ddefnyddio plattform sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion LHDTTC+ hefyd yn nodi y byddent yn siarad â nhw eu hunain os ydynt yn pryderu ynghylch siarad am eu teimladau am ryw, rhywedd a rhywioldeb gyda phobl eraill.

Barn pobl ifanc am addysg bersonol a chymdeithasol, a'u profiad ohoni

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ond yn dweud nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i drafod materion y maent yn eu hystyried yn bwysig yn y gwersi hyn. Maent yn teimlo bod rhywfaint o'r cynnwys, fel gwersi ar gamddefnyddio sylweddau, yn ddefnyddiol a phwysig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod angen i ysgolion dreulio mwy o amser yn addysgu disgyblion ynglŷn â pharch, perthnasoedd iach, ymddygiadau rhywiol niweidiol a hawliau LHDTTC+. Dywed llawer ohonynt eu bod eisiau gweld mwy o amser yn cael ei roi i drafod **"materion bywyd go iawn"** yn yr ysgol a bod gwasanaeth achlysurol am aflonyddu rhywiol neu destun arall **"ddim yn ddigon fel arfer"**. Hefyd, dywedant eu bod eisiau i **"athrawon sydd â diddordeb yn y pwnc ei addysgu"**.

Dywed llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan nad ydynt wedi cael digon o addysg rhyw yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion chweched dosbarth, yn arbennig, yn awyddus iawn i gael mwy o addysg rhyw, gyda llawer yn dweud nad ydynt wedi cael unrhyw addysg rhyw o gwbl. Mewn mwyafrif mawr o ysgolion, dywed disgyblion hŷn eu bod yn mwynhau gweithgareddau ABCh pan maent yn digwydd ond yr hoffent gael mwy o gyfleoedd i drafod perthnasoedd iach, positifrwydd y corff sut i gadw perthynas rhamantus.

“Mae angen i ABCh fod yn orfodol trwy gydol bywyd ysgol. Mae angen i chi gael ABCh trwy gydol eich oes, ac felly mae angen i ni gael mwy o fanylion am bopeth. LHDT, addysg rhyw, aflonyddu rhywiol, materion rhywedd – mae angen i ni gael mwy o FANYLION am y pynciau hyn, yn ogystal ag iechyd meddwl. Mae aflonyddu’n digwydd o ganlyniad i ddiffyg addysg.”

Mae pobl ifanc yn benodol yn mwynhau sesiynau a gynhelir gan siaradwyr allanol sy’n rhoi cyflwyniadau ac yn cynnal gweithdai. Mae bron pob disgybl yn gweld pwysigrwydd clywed **“storïau bywyd go iawn gan bobl go iawn”** ac yn cytuno bod y gwersi a’r gwasanaethau gan swyddog heddlu’r ysgol yn hynod fuddiol. Mae mwyafrif y disgyblion yn galw i gof wasanaethau hynod fuddiol a gyflwynwyd gan swyddog heddlu’r ysgol ar secstio ac anfon neu rannu delweddau noeth neu amhriodol. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn siarad am fideo maen nhw wedi’i weld ar ryw cydsyniol, o’r enw ‘the tea video’, ond yn teimlo bod **“un gwasanaeth yn unig ar hyn ddim yn ddigon”**. Dywed disgyblion eraill eu bod wedi cael **“gwasanaethau da”** ar fudiad Pride a hawliau LHDT+ ond nad oes cyfle fel arfer i gael trafodaeth bellach am y materion hyn mewn gwersi yn ddiweddarach.

Mewn ysgolion lle mae’r ddarpariaeth ar gyfer ABCh yn gryf, mae disgyblion yn canmol cyfleoedd gwerthfawr i drafod perthnasoedd iach, yn cynnwys sut i gyfathrebu’n briodol ac yn barchus â chyfoedion, a siarad am gydsynio. Hefyd, mae disgyblion yn dweud eu bod weithiau’n cael trafodaethau defnyddiol am berthnasoedd mewn gwersi addysg grefyddol, yn enwedig agweddau tuag at fenywod a merched mewn gwahanol ddiwylliannau a ffydd.

Beth mae disgyblion eisiau i'w hysgolion ei wybod



Gofynnem ni i ddisgyblion beth yn fwy maen nhw'n meddwl y gall ysgolion ei wneud i ddelio ag aflonyddu rhywiol. Mae llawer ohonynt yn credu y dylai ysgolion addysgu disgyblion am aflonyddu rhywiol yn fwy rheolaidd, yn enwedig mewn gwersi fel Bagloriaeth Cymru ac ABCh. Hefyd, maent yn dweud y byddai trefnu mwy o wasanaethau a chael ymwelwyr allanol yn yr ysgol yn helpu addysgu disgyblion amdano. Dywed mwy o fechgyn na merched eu bod yn credu bod ysgolion yn gwneud digon yn barod. Mae mwy o fechgyn yn datgan y byddai gosod gwybodaeth fel posteri o gwmpas yr ysgol yn ddigon i ddelio â'r mater.

Mae llawer o ddisgyblion, yn enwedig merched, yn cyfeirio at y ffaith fod angen i ysgolion greu amgylchedd mwy diogel a mwy cyfforddus ble gall disgyblion siarad ag athrawon neu aelodau staff eraill am eu profiadau. Mae ychydig ohonynt yn awgrymu y dylid gwahanu bechgyn a merched yn ystod y sgysiau fel eu bod yn teimlo'n fwy

cyfforddus yn trafod y materion. Hefyd, mae llawer o ddisgyblion anneauidd yn credu y dylid creu amgylchedd mwy diogel ar gyfer trafodaethau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfeirio at yr angen i newid agweddau staff, gyda llawer o ddisgyblion yn credu y dylai staff gymryd materion yn fwy difrifol ac y dylid rhoi cosbau llymach ar waith ar gyfer achosion o aflonyddu. Hefyd, mae ychydig o ddisgyblion yn credu bod angen ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol, naill ai trwy staff yn talu mwy o sylw pan fydd aflonyddu rhywiol yn digwydd, neu drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Mae disgyblion anneauidd a disgyblion yr oedd yn well ganddynt beidio â diffinio eu rhyw neu eu rhywedd yn cyfeirio'n benodol at gynyddu ymwybyddiaeth staff am faterion trawsryweddol. Mae llawer ohonynt eisiau i ysgolion fynd i'r afael ag effaith niweidiol galw enwau homoffobig gan ei fod yn effeithio ar iechyd meddwl ac emosiynol disgyblion.

Beth mae disgyblion eisiau i'w hysgolion ei wneud

Yn y gweithgaredd grŵp ffocws terfynol, gofynnwyd i ddisgyblion ystyried tri pheth, sef:

1. beth hoffen nhw i'w hysgol **roi'r gorau** i'w wneud
2. beth hoffen nhw i'w hysgol **ddechrau** ei wneud, a
3. beth hoffen nhw i'w hysgol **barhau** i'w wneud.

		
<p>“ysgubo achosiondan y mat!”</p> <p>“portreadu bechgyn fel yr unig dramgwyddwyr”</p> <p>“osgoi'r broblem”</p> <p>“rhoi pryd o dafod l ferched am eu sgertiau ond ddim yn addysgu bechgyn”</p> <p>“gadael i bobl beidio â chael eu cosbi am wneud drwg”</p> <p>“ailadrodd gwersi ar gyffuriau”</p>	<p>“rhoi sylw i faterion LHDT”</p> <p>“cael grŵp o ddisgyblion l siarad am y materion hyn”</p> <p>“rhoi mwy o ABCCh”</p> <p>“addysg rhiw”</p> <p>“addysgu dynion ynghylch gwrywdod gwenwynig a hyrwyddo diwylliant ble caiff ei ddileu”</p> <p>“cael dathliadau Pride”</p> <p>“cynnal llawer mwy o wasanaethau a chael amser i siarad amdano ar ôl hynny”</p>	<p>“siarad am barcht”</p> <p>“siarad amdano mewn gwasanaethau”</p> <p>“cael pobl i siarad â nhw yn gyfrinachol”</p> <p>“cael pobl go iawn sydd wedi bod trwy broblemau go iawn i siarad â ni”</p> <p>“gwneud beth rydych chi'n ei wneud i'n cefnogi”</p> <p>“annog dadleuon a thrafodaethau am aflonyddu rhywiol mewn gwersi”</p>

Mae negeseuon allweddol gan ddisgyblion am yr arferion yr hoffon nhw i ysgolion **roi'r gorau** iddynt yn cynnwys ysgolion yn osgoi neu'n anwybyddu materion yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae hyn yn cynnwys sylwadau am atal ysgolion rhag derbyn traddodiadau cynhenid o fechgyn yn gwneud hwyl ar ei gilydd, cael agweddau rhywiaethol a gwneud cyfeiriadau rhywiol am ferched. Dywed lleiafrif y bechgyn eu bod eisiau i ysgolion roi'r gorau i feddwl mai merched yn unig

sy'n dioddef aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae thema gyffredin hefyd ynghylch awydd disgyblion i atal y gwersi ABCh niferus tebyg neu ailadroddus maen nhw wedi eu cael ar yr un thema, fel ailadrodd gwersi ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Mae apêl gyffredin a chlir gan ddisgyblion i ysgolion **ddechrau** darparu gwersi addysg rhyw. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu hawydd i gael mwy o wersi ABCh yn gyffredinol, a chael gwersi ar ymddygiadau rhywiol niweidiol a'u heffaith ar iechyd meddwl disgyblion. Mae lleiafrif ohonynt yn sôn y dylid cael grwpiau ffocws disgyblion rheolaidd ble gellid **"annog disgyblion i fynegi eu hunain yn agored"**. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 10 ymlaen yn mynegi bod angen i ysgolion ddarparu ymdriniaeth well â materion LHDTTC+ ac am fwy o gymorth ar gyfer y grŵp penodol hwn o bobl.

Mae disgyblion yn unfrydol yn eu barn y dylai ysgolion **barhau** â gwersi a gwasanaethau gan swyddog heddlu'r ysgol. Mae'n amlwg fod pob disgybl ar draws pob ardal o Gymru yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hon yn fawr. Mae disgyblion yn cytuno'n gryf y dylai ysgolion barhau i gael siaradwyr allanol a **"phobl go iawn sy'n siarad am broblemau bywyd go iawn"**. Mae llawer o ddisgyblion yn rhoi sylwadau ar yr angen i ysgolion barhau i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt a chael y staff cywir i siarad am broblemau â nhw. Dywed lleiafrif y disgyblion eu bod eisiau i'w hysgolion barhau i siarad am barch, a'i hyrwyddo. Y disgyblion hyn yw'r rhai sy'n mynychu ysgolion ag iddynt ethos cryf o barch ac amrywiaeth.

Darpariaeth ac arweinyddiaeth, yn cynnwys enghreifftiau o arfer gref ac effeithiol

Diwylliant diogelu mewn ysgolion uwchradd

Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr a staff bugeiliol yn hyrwyddo a chynnal diwylliant cryf o ddiogelu a lles. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth da ac yn hyderus bod y systemau sydd ar waith yn helpu diogelu pob aelod o gymuned yr ysgol. Yn y mwyafrif o achosion, mae datganiad cenhadaeth yr ysgol yn pwysleisio'n gryf bwysigrwydd canolog gwerthoedd fel parch a charedigrwydd. Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer staff a disgyblion yn cysylltu'n glir â nodau ac amcanion sy'n sicrhau bod lles wrth wraidd gwaith yr ysgol. Bron ym mhob ysgol, caiff staff hyfforddiant diogelu rheolaidd, ac mae gweithdrefnau recriwtio diogel yn gadarn.

At ei gilydd, mae diwylliant o barch yn nodwedd gyffredin mewn ysgolion ag iddynt gymeriad crefyddol hefyd. Mewn un ysgol ffydd, mae ffocws cryf iawn ar urddas a pharch personol disgyblion at ei gilydd, sydd bob amser yn cael ei ategu gan gatecismau Catholig. Mewn cyfarfodydd gydag arolygwyr mewn un ysgol ffydd annibynnol, dangosodd bron pob un o'r staff eu bod yn rhannu gwerthoedd yr ysgol i fod yn gymuned Gristnogol ofalgar a pharchus sy'n disgrifio'i hun fel teulu. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw ysgolion ffydd yn rhoi ymateb cytbwys pan fydd disgyblion yn trafod eu rhywioldeb. Er enghraifft, nid ydynt yn rhoi cymorth a dealltwriaeth briodol i ddisgyblion LHDTTC+ pan fyddant yn cwestiynu neu'n datgan eu rhywioldeb.

Mae gan bob ysgol bolisi diogelu ar waith, a bron ym mhob achos, mae ysgolion yn cyflawni'r gofyniad statudol i gwblhau adolygiad a diweddariad blynyddol o'r polisi. At ei gilydd, mae polisïau'n briodol ac mae canllawiau clir a chynhwysfawr i staff ysgolion ar sut i adnabod achosion o gam-drin, bwlio ac aflonyddu, ac ymateb iddynt. Yn y polisïau diogelu gorau, cyfeirir at ystod eang o fathau o fwlio ac aflonyddu, yn cynnwys manylion sylweddol am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Cyfeirir at y [naw nodwedd warchodedig](#) (gweler yr Eirfa) ac ymrwymiad clir i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn y polisïau diogelu hyn, ceir adran werthfawr hefyd ar y modd y dylai'r ysgol a'i staff weithio mewn modd rhagweithiol i sicrhau bod eu holl ddisgyblion yn ddiogel rhag niwed. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r polisi diogelu yn annigonol ac yn anaddas at ei ddiben.

Mewn llawer o ysgolion, ceir ymagwedd gref tîm at ddiogelu. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles ac yn sicrhau bod digon o staff bugeiliol a staff cymorth yn cael eu cyflogi i gyflawni eu dyletswyddau diogelu. Maent yn darparu arweiniad a hyfforddiant addas i sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant.

Ym mhob achos a rannwyd ag arolygwyr, roedd ysgolion wedi delio'n dda gyda mater diogelu, sy'n cynnwys gwneud cyfeiriadau priodol at asiantaethau allanol perthnasol fel gwasanaethau plant neu'r heddlu. Roedd tystiolaeth gref hefyd o

ysgolion yn darparu ymyriadau addas i helpu cyflawnwyr i sylweddoli difrifoldeb eu gweithredoedd a rhoi cymorth buddiol i ddiodefwyr.

Ymagwedd strategol tîm at ddiogelu

Yn nhymor yr haf, 2021, gwnaeth un uwch dîm arweinyddiaeth benderfyniad strategol i ymateb i'r materion a godwyd trwy wefan Everyone's Invited. Arweiniodd hyn at benodi 'Arweinydd Lles Corfforaethol' nad yw'n addysgu, a phum 'Hyrwyddwr ABC'h'. Gyda'i gilydd, maent wedi creu polisi newydd ar gydbertynas a rhywioldeb ac wedi cynllunio cyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant ysgol gyfan trwy gydol y flwyddyn academaidd 2021-2022.

Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryder am ddisgybl, ac yn siarad yn hyderus am eu gallu i adnabod arwyddion o gam-drin. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir a chywir o beth mae niwed sylweddol yn ei olygu o ran diogelu plant. Mae staff yn dweud wrthym eu bod yn deall sut mae ymddygiad rhywiol niweidiol hefyd yn cael ei ystyried yn fater diogelu ac y byddent yn rhoi gwybod am bryderon am hyn yn yr un ffordd. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid yw athrawon, ac uwch arweinwyr a staff cymorth i raddau llai, yn gwbl ymwybodol o fynychter llawn aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn eu hysgol, fel y dywedodd eu disgyblion wrthym ni, ac nid ydynt yn ymwybodol ei bod yn broblem sylweddol. Mae hyn oherwydd, er ei fod yn gyffredin mewn bywyd ysgol a'r tu allan i'r ysgol, nid yw disgyblion yn rhoi gwybod yn systematig i staff ysgol am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Mae gofyniad statudol ar ysgolion i gael unigolyn diogelu dynodedig wedi'i enwi i oruchwylio diogelu ac amddiffyn plant. Ar draws y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae ansawdd gwaith yr unigolyn diogelu dynodedig o ran ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn gryfder. Yn aml, maent yn arweinwyr profiadol sy'n cyflawni eu cyfrifoldebau'n dda. Fel arfer, maent wedi eu hyfforddi'n dda, yn aml gan asiantaethau statudol allanol perthnasol, ac yn wybodus iawn am [Weithdrefnau Diogelu Cymru](#) (2020). Fel arfer, cânt gymorth buddiol gan ddirprwy unigolyn diogelu dynodedig sydd wedi'i hyfforddi'n addas a thîm hyfforddedig o arweinwyr bugeiliol neu arweinwyr lles a staff cymorth. Mewn llawer o ysgolion, ceir ymagwedd gref tîm at ddelio â materion diogelu ac mae hyn yn golygu bod disgyblion a staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r sawl y gallant droi atynt am gymorth.

Er ei bod yn amlwg bod unigolion diogelu dynodedig ar draws y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cymorth cryf ac ymatebol o ran pryderon ynghylch diogelu, anaml y maent yn cyflawni rôl ragweithiol. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae gan yr unigolyn diogelu dynodedig rolau eraill yn cynnwys ymrwymadau addysgu sy'n ei gwneud yn amhosibl iddynt wneud mwy nag ymateb i bryderon pan fyddant yn codi. Mae'r dyraniad amser i gyflawni rôl unigolyn diogelu dynodedig yn dibynnu ar adnoddau ariannol ac adnoddau dynol yr ysgol.

Mewn ychydig o ysgolion, mae gan arweinwyr brosesau tra ystyriol i adnabod yn gyflym i unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac ymddygiad ac agweddau negyddol gan ddisgyblion a staff. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae blychau cynnil i ddisgyblion rannu unrhyw bryderon ynghylch lles wedi eu gosod ger ffynhonnau dŵr.

Mewn ysgol arall, mae 'Blwch Awgrymiadau ABCh' wedi ei osod ym mhob ystafell ddosbarth i ddisgyblion gynnig syniadau ar themâu i'w trafod neu ar gyfer gwasanaethau. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion hŷn wedi eu hyfforddi'n fentoriaid i gynorthwyo disgyblion a bod yn 'negesydd' os oes ganddynt ofidiau penodol ac nad ydynt yn teimlo'n barod i siarad â staff. Mae mentoriaid disgyblion ar gael i ddisgyblion mewn ardaloedd dynodedig fel llyfrgell neu ffretur yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl.

Mae un ysgol yn trefnu 'Diwrnodau Enfys' rheolaidd lle mae staff a disgyblion LHDTTC+ yn trefnu cyflwyniadau mewn gwasanaethau rhithwir yn ystod amser dosbarth. Dilynir y rhain gan drafodaethau dosbarth ar faterion amrywiaeth. Mae gan ysgol arall 'Grŵp Enfys', sef is-bwyllgor y Cyngor Ysgol sy'n canolbwyntio ar faterion cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae clwb LHDTTC+ mewn un ysgol yn gweithredu fel grŵp cyfeirio, yn cynghori staff ar faterion amrywiaeth ac yn rhoi arweiniad ar ddefnyddio termau'n gywir.

Mae un ysgol Yr Eglwys yng Nghymru yn gweithio i sicrhau bod cymuned yr ysgol gyfan, yn cynnwys ysgolion cynradd dalgyllchol, yn deall eu gwerthoedd a'u hethos fod amrywiaeth yn normal, ac yn rhywbeth i'w groesawu a'i ddatlu.

Diwylliant o barch

Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo ei diwylliant cryf o barch trwy ei gwaith pontio gyda disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ei hysgolion bwydo. Mae'r ysgol yn cysylltu gwerthoedd y Beibl a'r Efengyl, yn enwedig pwysigrwydd sut rydych chi'n trin pobl eraill yn ei gweithgareddau pontio. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn hyrwyddo parch trwy weddïau dosbarth bob dydd, addoli ar y cyd a chyflwyniadau arbennig. Mae ethos Cristnogol yn treiddio trwy holl waith ABCh yr ysgol, a cheir synnwyr cryf o werth mewn amrywiaeth. Mae disgyblion LHDTTC+ yn y chweched dosbarth wedi cael hyfforddiant buddiol gan Dîm Sbectrwm Hafan Cymru, ac yn trefnu gwasanaethau addysgiadol a chefnogol ar gyfer pob grŵp blwyddyn. (Caiff prosiect Sbectrwm ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno sesiynau ar berthnasoedd iach a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) i ysgolion cynradd ac uwchradd).

Ers cyhoeddi'r tystiolaethau ar wefan Everyone's Invited, mae ychydig o ysgolion wedi adolygu eu polisiau a'u gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Newidiodd un ysgol enw ei 'Pholisi Ymddygiad' i 'Polisi Perthnasoedd' ac mae wedi gwneud addasiadau addas i amlygu ymddygiad ac agweddau derbyniol ac annerbyniol. Cynhaliodd un ysgol archwiliad diogelu gyda chymorth swyddog awdurdod lleol i chwilio am dystiolaeth o waith rhagweithiol ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Helpodd y broses hon yr ysgol i nodi cryfderau a meysydd allweddol i'w datblygu ymhellach. Mae ychydig o'r ysgolion a enwir yn Everyone's Invited wedi dechrau eu holiadur eu hunain i ddisgyblion, ac erbyn hyn, maent yn gweithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr allanol i gynllunio newidiadau i'w darpariaeth.

Ymateb cyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg

Wrth ymateb i Everyone's Invited a llofruddiaeth Sarah Everard, gweithiodd un ysgol yn gyflym i gynllunio gweithgareddau ymgynghori gyda disgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan. Gweithion nhw gyda phartneriaid allanol i greu holiaduron i ddisgyblion a threfnu grwpiau trafod â ffocws. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn cynllunio darpariaeth briodol i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg a materion gwaelodol sydd wedi dod i'r amlwg yn dilyn ymgynghori â'u disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae systemau a phrosesau effeithiol i staff gofnodi pryderon a champau gweithredu. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio system gwybodaeth reoli fasnachol ar-lein i gofnodi achosion, pryderon neu atgyfeiriadau i asiantaethau statudol allanol. At ei gilydd, mae staff yn defnyddio systemau o'r fath yn rheolaidd ac yn dda, ac mae arweinwyr yn ymateb yn gyflym ac yn briodol i wybodaeth newydd am ddigwyddiadau unigol. Ceir amrywiad yn natur y pryderon sy'n cael eu cofnodi gan staff ar y systemau hyn. Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio'r system ddigidol i gofnodi pob achos ymddygiad neu pan fydd disgyblion yn arddangos agweddau negyddol tuag at eu gwaith. Mae hyn fel arfer oherwydd bod staff cymorth a lles yn gallu mynd at y system, a disgwylir iddynt ymateb i bryderon athrawon. Mewn ysgolion eraill, defnyddir y system gwybodaeth reoli yn gyfan gwbl ar gyfer pryderon ynghylch diogelu a lles.

At ei gilydd, mae ysgolion yn defnyddio systemau digidol ac ar-lein yn dda hefyd i gofnodi achosion o fwlio ac aflonyddu, ond nid ydynt yn gwneud hynny'n gyson yn erbyn y [nodweddion gwarchoddedig](#) perthnasol. Mae cofnodion am achosion bwlio a gofnodir gan ysgolion yn amlinellu natur y digwyddiad a'r sgwrsiau rhwng y dioddefwyr, y cyflawnwyr, staff yr ysgol a rhieni. Fel arfer, maent yn darparu naratif am sut mae'r materion hyn wedi datblygu, a sut cawsant eu datrys. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw cofnodion yn cynnwys canlyniadau na llwyddiant y camau a gymerwyd. Mae'r ffactorau hyn yn atal ysgolion rhag cael darlun cywir o effaith eu gwaith neu raddau'r bwlio a'r aflonyddu sy'n cysylltu â gwahanol gategoriâu, fel aflonyddu rhywiol.

Pan fydd modd defnyddio systemau gwybodaeth reoli digidol ac ar-lein at ddibenion dadansoddi, er enghraifft i nodi tueddiadau mewn ymddygiad, ychydig o ysgolion yn unig sy'n gwneud hyn. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn nodi patrymau yn ymddygiad ac agweddau unigolion neu grwpiau o ddisgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio ymyriadau neu hyfforddiant staff.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Un o'r prif heriau yn gysylltiedig ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yw bod pobl ifanc ddim yn dweud wrth athrawon nac arweinwyr ysgol amdano pan fydd yn digwydd. Ceir polareiddio sylweddol rhwng yr hyn mae disgyblion yn ei ddweud am fynychter aflonyddu rhywiol a'r hyn mae athrawon yn credu sy'n digwydd.

Mewn llawer o ysgolion, mae gan athrawon lai o ymwybyddiaeth o fynychter achosion o aflonyddu rhwng cyfoedion na staff cymorth. Mewn cyfweiliadau ag athrawon yn yr ysgolion hyn, ni allai'r un ohonynt alw achos penodol i gof, gan ddatgan eu bod yn meddwl nad oedd aflonyddu rhwng cyfoedion yn broblem fawr yn

eu hysgol. Wrth siarad â chynorthwyr cymorth a staff lles nad ydynt yn addysgu o'r un ysgolion hyn, yn aml, roedd eu cyfrif ychydig yn wahanol. Mewn llawer o achosion, roeddent yn gallu disgrifio o leiaf un achos o aflonyddu rhywiol yr oeddent wedi delio ag ef eu hunain neu wedi bod yn cynorthwyo disgyblion.

Disgrifiodd bron pob uwch arweinydd un neu ddau achos yr oeddent wedi eu profi yn ddiweddar. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn gysylltiedig â disgyblion yn rhannu lluniau noeth a ble roedd rhieni disgyblion o'r tu allan i'r ysgol wedi rhoi gwybod iddynt am y digwyddiad.

Ymyrraeth ar gyfer cyflawnwyr aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion

Mae un ysgol yn gweithio gydag asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion sydd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion o aflonyddu rhywiol tuag at gyfoedion. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas â'r Ganolfan Gymorth ar gyfer Trais ac Ymosodiadau Rhywiol (RASASC). Mewn un achos, daeth gweithwyr cymorth RASASC i'r ysgol i weithio gyda grwpiau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a oedd wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad rhywiol amhriodol. Yn ogystal â'r gwaith hwn, parhaodd cwnselwyr RASASC i weithio gydag ychydig o unigolion oedd angen arweiniad a chefnogaeth dwysach.

Mae ysgol arall wedi cynnwys tîm o asiantaethau allanol i gynorthwyo dioddefwyr a chyflawnwyr aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Gwelodd arweinwyr yn yr ysgol hon fod canllawiau Llywodraeth Cymru ar rannu lluniau noeth yn hynod fuddiol wrth sefydlu ymateb tîm arfaethedig. Bu cydweithwyr o wasanaethau plant yr awdurdod lleol, gwasanaeth ymddygiad rhywiol niweidiol 'Taith' Barnados a'r heddlu yn gweithio gyda disgyblion.

Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu ymagwedd adferol at broblemau ymddygiadol, bwlio ac aflonyddu a ddangosir gan ddisgyblion. Yn aml, mae partneriaid allanol fel gweithwyr ieuencid, swyddogion heddlu'r ysgol a swyddog cymorth cymunedol yr heddlu lleol (PCSO) yn cynorthwyo ysgolion trwy sesiynau cyfiawnder adferol ac maent yn ymwneud â chynlluniau ymddygiad unigol ar gyfer cyflawnwyr. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan y gweithwyr proffesiynol hyn ac yn dweud y byddent yn elwa ar gael mwy o adnoddau o'r fath pe bai hyn yn bosibl. Mewn ychydig o ysgolion, caiff cyn-swyddogion yr heddlu sydd â phrofiad helaeth o weithio gyda phlant a phobl ifanc eu cyflogi i gefnogi'r tîm lles.

Gwaith cynhwysfawr gyda phartneriaid allanol

Mewn un ysgol, mae gan staff ymagwedd gyfannol at gynorthwyo anghenion unigol eu disgyblion. Mae'r ysgol hon yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gael gwared ar unrhyw rwystrau rhag dysgu a lles. O ganlyniad, ceir cymorth cynhwysfawr ar gyfer dysgwyr. Mae'r tîm bugeiliol estynedig yn cynnwys:

- staff bugeiliol ysgol – tîm o 'weithwyr arweiniad bugeiliol', swyddogion cymorth disgyblion, cydlynnydd pontio a swyddog presenoldeb
- canolfan arbenigol ar gyfer cymorth emosiynol, ymddygiad a lles
- tîm helaeth o asiantaethau allanol: y cwnselydd ysgol, mentoriaid gwasanaethau ieuencid, staff hyb cymunedol (a leolir yn adeilad yr ysgol), staff cymorth o dîm addysg ac ymgysylltu'r awdurdod lleol, staff cymorth gwasanaethau plant a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu

Er na ddisgrifiodd athrawon llawer o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, siaradon nhw'n helaeth am effaith y pandemig a chau ysgolion ar agweddau, hyder ac iechyd meddwl cyffredinol pobl ifanc. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod disgyblion yn dawelach, yn fwy mewnblyg ac yn llai tebygol o ddod i siarad â nhw na chyn y cyfnod clo cyntaf.

Yn gyffredinol, mae staff yn mynegi pryder am normaleiddio iaith ac ymddygiadau rhywiol ymhlith plant a phobl ifanc mewn cymdeithas, a'r effaith mae hyn yn debygol o'i chael ar iechyd meddwl a lles eu disgyblion. Mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod aflonyddu rhywiol, agweddau homoffobig ac agweddau sy'n dangos casineb at fenywod yn broblemau cymdeithasol sy'n cael eu trosglwyddo i blant a phobl ifanc, yn aml gan rieni a dylanwadau eraill. Mae'r cwricwlwm newydd yn annog ysgolion i ymgorffori dysgu yn gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae llawer o ysgolion yn addysgu plant am effeithiau niweidiol rhagfarn a phwysigrwydd amrywiaeth, ond mae athrawon yn teimlo y dylid gwneud hyn gartref hefyd. Pan ofynnir iddynt am gymorth sydd ei angen i ddelio â materion ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, mynegodd athrawon yn gryf fod angen cydweithio a chydweithredu â rhieni. Maent yn glir mai cyfrifoldeb rhieni a gofawr yw monitro defnydd plant o gyfryngau cymdeithasol a chyfleusterau sgwrsio. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae staff ysgolion yn delio ag achosion sydd wedi digwydd ar-lein gyda'r nos ac yn ystod penwythnosau ond sy'n dod yn rhan o'r diwrnod ysgol.

Mae arweinwyr ysgol yn priodoli mynychter cynyddol aflonyddu rhywiol yn seiliedig ar ddelweddau i ddefnyddio platfformau cymdeithasol, lle daw'n anoddach olrhain ffynhonnell yr anfonwr. Er bod ysgolion yn deall pwysigrwydd cyfeirio pryderon difrifol ac achosion unigol at asiantaethau statudol, yn aml cânt eu gadael i ddatrys materion cyfryngau cymdeithasol bob dydd rhwng y cyfoedion eu hunain, a hynny'n ddyddiol. Mae bron holl staff ysgolion yn cytuno ei bod yn bwysig i rieni fod yn ymwybodol, cymryd cyfrifoldeb a deall graddfa'r problemau. Serch hynny, maent i gyd yn dangos llawer o ymrwymiad i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion hefyd pan fyddant yn dod yn ymwybodol ohono.

Ar ôl cyhoeddi tystiolaethau ar wefan Everyone's Invited, mae ychydig o ysgolion wedi gwneud gwelliannau tra ystyriol i'w darpariaeth ar gyfer cymorth i ddisgyblion.

Maent wedi gweithredu ffyrdd creadigol o gasglu barn disgyblion, ac wedi cyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael sgysiau cyffredinol am les gyda staff.

Yr oedolyn y gellir ymddiried ynddo

Mae un ysgol wedi gweithredu 'Cynllun Oedolyn y Gellir Ymddiried Ynddo'. Mae'r holl ddisgyblion yn yr ysgol yn dewis aelod o staff yr ysgol fel eu hoedolyn y gellir ymddiried ynddo. Gall yr oedolyn fod yn athro neu'n gynorthwydd cymorth dysgu. Mae gan yr oedolyn y gellir ymddiried ynddo rôl i gefnogi lles y dysgwr ac ymateb i unrhyw geisiadau i drafod neu siarad am unrhyw ofidiau a allai fod ganddynt. Mae dysgwyr yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd y cynllun hwn.

Mae newid sy'n dod i'r amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer cymorth lles ar draws ysgolion uwchradd. Erbyn hyn, mae nifer gynyddol o ysgolion yn cyflogi staff nad ydynt yn addysgu yn benaethiaid blwyddyn neu'n arweinwyr bugeiliol. Mewn ychydig o achosion, mae'r rhain yn weithwyr cymorth teuluoedd hyfforddedig a phrofiadol, neu rai sydd â chefnidir mewn gwaith cymdeithasol neu waith ieuenctid. Gan nad oes ganddynt ymrwymiad addysgu, gallant ymateb i anghenion disgyblion, cyfathrebu â theuluoedd a mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol allanol yn ystod y diwrnod ysgol heb darfu ar ddysgu. Mewn cyfarfodydd â phenaethiaid, disgrifiodd llawer ohonynt y modd y byddent yn elwa ar allu cyflogi mwy o staff sydd â phrofiad o weithio gydag asiantaethau arbenigol i ymateb i nifer gynyddol y problemau cymdeithasol a lles y mae pobl ifanc yn dod gyda nhw i'r ysgol.

Yn aml, mae staff cymorth lles ac arweinwyr bugeiliol wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar faterion cyfoedion, fel aflonyddu rhywiol, ond mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y maes hwn ar gyfer athrawon eraill yn llai cyffredin. Mae pob athro yn cwblhau hyfforddiant diogelu a Prevent statudol, ac mae lleiafrif o athrawon wedi cwblhau hyfforddiant statudol VAWDASV erbyn hyn. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, dim ond staff cymorth a'r arweinwyr diogelu dynodedig sy'n gallu manteisio'n uniongyrchol ar hyfforddiant arbenigol fel arfer. Er bod ychydig o ysgolion yn neilltuo amser i staff hyfforddedig rannu eu dysgu ag athrawon, nid yw hyn yn wir bob amser. Mae ysgolion sy'n rhoi lles staff a disgyblion wrth wraidd eu gwaith yn sicrhau bod pob un o'u staff wedi eu hyfforddi mewn materion pwysig sy'n effeithio ar les disgyblion.

Hyfforddiant helaeth i gynorthwyo staff wrth ddelio ag aflonyddu rhywiol

Mewn un ysgol, mae pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth da i ddelio ag achosion o aflonyddu rhywiol. Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant i'r holl staff ar faterion LHDTTC+, ac ar anfon a rhannu lluniau noeth. Maent wedi defnyddio darpariaeth allanol i gynorthwyo staff i gynnal trafodaethau anffurfiol â disgyblion am berthnasoedd iach. Mae'r hyfforddiant diogelu blynyddol ar gyfer pob un o'r staff yn cynnwys sesiynau ar gam-drin domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi trefnu dysgu proffesiynol i bob aelod o staff ar gydsynio. Mae athrawon wedi defnyddio'r dysgu hwn i ddarparu sesiynau ar gyfer disgyblion hŷn ar sut i aros yn ddiogel pan fyddant yn mynychu gwyliau.

Dywed staff fod ganddynt ddealltwriaeth gref o ystod yr ymddygiadau rhywiol niweidiol o ganlyniad i hyfforddiant ysgol gyfan gan asiantaeth allanol. Maent yn teimlo'n hyderus yn defnyddio protocol yr ysgol ar gyfer delio ag ystod o fwlio ac aflonyddu, ac yn dweud bod arweinwyr yn ymateb yn dda i unrhyw bryderon y maent yn eu rhannu.

Dywed llawer o staff cymorth ac athrawon fod dysgu proffesiynol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi bod yn hynod ddefnyddiol iddynt wrth ddelio â materion yn gysylltiedig ag ymddygiadau rhywiol niweidiol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff addysg yn y maes hwn ac wedi sicrhau bod ysgolion yn 'ystyriol o drawma'. Yn ystod y cyfnodau clo, cafodd llawer o staff ysgolion hyfforddiant ysgolion sy'n ystyriol o drawma trwy eu gwasanaeth seicoleg addysg lleol neu drwy'r consortiwm rhanbarthol. Disgrifiodd mwyafrif staff bugeiliol ysgolion y modd y maent yn defnyddio'r medrau maen nhw wedi eu caffael trwy'r profiad dysgu proffesiynol penodol hwn i ddelio ag achosion o ymddygiad rhywiol amhriodol gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ymyriadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Mewn un ysgol, roedd angen i staff anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ymateb i sefyllfa lle dechreuodd disgybl ag ADY arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol tuag at gyfoedion. Roedd y sefyllfa'n cynnwys cwynion gan ddisgyblion ag ADY am sylwadau a gweithredoedd rhywiol amhriodol disgybl arall ag ADY.

Cyfeiriodd y tîm ADY at hyfforddiant a gafwyd gan asiantaeth allanol ac addasu asesiadau risg disgyblion. Hefyd, cynhaliodd staff sesiynau gyda'r disgyblion yn unigol ac mewn grwpiau bach i ymateb i'r sefyllfa. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys ystod o ymyriadau, yn dibynnu ar anghenion disgyblion a'u gallu gwybyddol a geiriol:

- defnyddio therapi hambwrdd tywod – dull therapi dieiriau sy'n galluogi plant i greu senarios ac atebion gan ddefnyddio teganau bach a thywod
- sesiynau unigol gyda disgyblion gan ddefnyddio strategaethau sy'n ystyriol o drawma i gydnabod meddyliau, emosiynau a gweithredoedd disgyblion, a rhannu eu gorbryderon:
- defnyddio cardiau 'emosiwn' lluniau i helpu disgyblion nodi sut maen nhw'n teimlo a galluogi disgyblion ag anawsterau cyfathrebu i rannu eu gorbryderon
- sesiynau [ELSA](#) ynghylch gofod diogel a medrau cymdeithasol eraill
- hyfforddiant sy'n addas i ddisgyblion ar anhwylder y sbectrwm awtistig ar gyfer gweddill y dosbarth

Mae'n glir o'n gwaith gyda disgyblion eu bod yn croesawu unrhyw gyfle i siarad yn gyffredinol am faterion cymdeithasol, sef aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn yr achos hwn. Roedd disgyblion mor awyddus i ymgysylltu ag arolygwyr ac roeddent yn gwerthfawrogi'r profiad. Dywed disgyblion (yn enwedig disgyblion hŷn) eu bod eisiau i ysgolion greu cyfleoedd i siarad am berthnasoedd a rhywioldeb mewn amgylchedd diogel, galluogol. Dywed disgyblion nad ydynt yn siarad llawer â'u hathrawon am aflonyddu rhywiol ar hyn o bryd ond maent yn teimlo bod angen i ysgolion wybod sut mae'n effeithio ar eu lles er mwyn iddynt allu eu helpu.

Mannau diogel i siarad

Mewn un ysgol annibynnol, caiff darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb ei hategu gan gyfleoedd 'Amser i Sgwrsio' yn y tai preswyl. Mae'r tîm bugeiliol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion preswyl yn cael cyfleoedd strwythuredig ac unigol i drafod yr hyn y maent wedi'i gwmpasu mewn gwersi ABCh gyda staff preswyl bob wythnos. Hefyd, maent yn sicrhau bod digonedd o drafodaethau ad hoc ynghylch addysg bersonol neu gymdeithasol gyffredinol a materion pryder gyda staff preswyl. Mae staff addysgu ac uwch staff yn yr ysgol hon yn teimlo bod hyn yn gryfder yn y model preswyl, gan ei fod yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion siarad ar ôl yr ysgol.

Y cwricwlwm

Amser a neilltuir ar gyfer ABCh

Ceir amrywiad yn yr amser a neilltuir ar gyfer ABCh ar draws ysgolion. Fodd bynnag, at ei gilydd, yr amser cyfartalog ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yw un wers yr wythnos. Mewn lleiafrif bach o ysgolion, caiff disgyblion un wers bob pythefnos. Mewn ychydig o ysgolion, nid oes unrhyw wersi ABCh amserlenedig o gwbl. Yn yr ysgolion hyn, mae testunau naill ai'n rhan o 'ddiwrnodau ABCh' neu 'ddiwrnodau gollwng yr amserlen' ble caiff yr amserlen arferol ei hatal a'i disodli â chyflwyniadau neu weithdai, neu cânt eu 'cwmpasu' yn ystod cyfnodau cofrestru'r bore. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes amser dynodedig ar gyfer gwersi ABCh ar wahân i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Mae hyn oherwydd y pwysau amser o fewn y cwricwlwm presennol. Mae ychydig o ysgolion yn darparu ychydig o sesiynau ar gyfer y disgyblion hyn yn ystod gwersi Bagloriaeth Cymru, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio gwasanaethau neu ddiwrnodau 'medrau' neu 'les' cynlluniedig i roi cyflwyniadau penodol ar themâu allweddol.

Erbyn hyn, mae nifer gynyddol o ysgolion yn cyflwyno rhaglenni penodol sy'n arwain at gymwysterau allanol yn gysylltiedig â themâu ABCh. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion yn cyflwyno rhaglen BTEC lefel 1 a 2 ynghylch 'Twf a Lles Personol'. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys ychydig o agweddau ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, fel iechyd a lles rhywiol. Er ei fod yn gwrs sydd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer disgyblion is eu gallu a'r rhai sy'n arddangos arwyddion o ymddieithrio â dysgu, mae ychydig o ysgolion yn ei gyflwyno ar draws yr ystod gallu ym Mlwyddyn 11. Nid yw'r cwrs wedi'i gynllunio ar gyfer cyflwyno felly.

Mewn tua hanner yr ysgolion, mae arweinwyr wedi datblygu Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) 'Iechyd a Lles' y Cwricwlwm i Gymru, ac wedi addasu darpariaeth ar gyfer naill ai Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 8 o fis Medi 2021. Eto, mae amrywiad yn yr amser a neilltuir ar gyfer iechyd a lles, sy'n amrywio o ddwy wers yr wythnos i wyth. Y dyraniad cyfartalog yw pedair gwrs yr wythnos. Fel arfer, mae gwersi iechyd a lles yn ymgorffori addysg gorfforol, bwyd a maeth a gwersi ABCh.

Amser cwricwlwm cynyddol ar gyfer iechyd a lles

Mae un ysgol wedi cyflwyno gwersi iechyd a lles yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys ymdriniaeth sy'n briodol i oedran o ran perthnasoedd iach ac ymddygiadau rhywiol, yn ogystal â sesiynau ar fyw yn iach ac iechyd meddwl cadarnhaol. Mae disgyblion Blwyddyn 8 yn gweld y sesiynau hyn yn ddefnyddiol iawn, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu mwy a thrafod y materion pwysig hyn.

Profiad athrawon

Mae ysgolion sydd bellach yn cyflwyno sesiynau iechyd a lles yn hytrach nag ABCh ar wahân yn dechrau defnyddio athrawon penodol i gyflwyno gwersi. Athrawon addysg gorfforol, technoleg bwyd a drama yw'r rhain ar y cyfan, er bod ychydig iawn o ysgolion wedi cyflogi athro dynodedig iechyd a lles.

Arweinwyr canol yn cyflwyno gwersi ABCh

Mewn un ysgol, caiff sesiynau iechyd a lles eu cyflwyno'n bennaf gan dîm dynodedig a thra hyfforddedig. Mae bron pob un ohonynt yn bennaethiaid blwyddyn sydd yn eu galluogi i berthnasu cynnwys hefo materion bugeiliol. Mewn sesiynau grwpiau ffocws yn yr ysgol hon, gwnaeth pob disgybl sylw ar ba mor dda y caiff y gwersi hyn eu cyflwyno.

Mewn llawer o ysgolion dros gyfnod, caiff athrawon sydd wedi bod yn cyflwyno ABCh eu dewis yn ôl y gofod ar eu hamserlen. Mae problemau yn gysylltiedig â hyn gan fod amrywiad yn niddordeb, medrau a brwdfrydedd athrawon o ran cyflwyno gwersi ar destunau sydd weithiau'n rhai sensitif, anodd neu anghyfarwydd. Mae arweinwyr ysgolion yn cydnabod bod ychydig o athrawon yn llai cyfforddus nag eraill yn siarad am faterion penodol, ac nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn arbenigwyr mewn delio â thestunau anodd. Mae disgyblion mewn lleiafrif o ysgolion yn siarad yn negyddol am lefel arbenigedd a diddordeb athrawon sy'n cyflwyno gwersi ABCh. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cynnig llai o gyfleoedd dysgu a hyfforddiant penodol ar gyfer addysgu ABCh yn ystod y blynyddoedd diwethaf o gymharu â thua phum mlynedd yn ôl.

Testunau, themâu a dysgu cronol

Mae'r pandemig a chyfnodau dysgu o bell wedi cael effaith anghymesur ar argaeledd ac ansawdd darpariaeth ABCh. Mae ysgolion yn cyfaddef mai ychydig iawn o addysgu testunau yn gysylltiedig ag ABCh yn uniongyrchol a gafwyd yn ystod y cyfnodau clo. Er bod y cwricwlwm ABCh mewn llawer o ysgolion yn berthnasol a thra ystyriol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb yn amrywio'n fawr.

Mewn lleiafrif o achosion, o fewn y ddarpariaeth ABCh, mae arweinwyr wedi dewis testunau addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ofalus i gynnwys gweithgareddau sy'n briodol i oedran sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ar draws cyfnod allweddol 3, ac mewn ychydig o enghreifftiau, ar draws cyfnodau allweddol pellach. Mae'r ysgolion hyn yn sicrhau bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei

chyflwyno'n gronnol neu fel 'cwricwlwm troellog' lle ailedrychir ar destunau neu bynciau droeon trwy gydol cyfnod addysg plentyn. Nid yw hyn dim ond yn golygu ailadrodd testun, ond yn hytrach dyfnhau'r testun neu Gronni gwybodaeth amdani o'r dysgu blaenorol. Fodd bynnag, mewn gormod o ysgolion, ni roddir digon o ystyriaeth i ba mor eang a manwl yr ymdrinnir â thestunau wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol. Mewn ychydig o'r ysgolion hyn, dywed disgyblion fod testunau yn aml yn cael eu hailadrodd ar yr un lefel manylder. Maent yn dyfynnu gwersi ar gyffuriau ac alcohol fel enghraifft nodweddiadol o hyn. Gall y mater hwn achosi i ddisgyblion ymddieithrio â'r sesiynau.

Cwricwlwm troellog cynlluniedig

Mae un ysgol yn darparu cwricwlwm ABCh cynlluniedig sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ar draws cyfnod allweddol 3, ac yn ychwanegu at y dysgu hwn gyda chalendr o weithgareddau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn credu bod hyn yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion pwysig yn cynyddu a dyfnhau wrth iddynt symud i fyny'r ysgol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynlluniedig hon yn cynnwys ystod o destunau perthnasoedd sy'n iach o ran oedran ym mhob cyfnod, y bwriedir iddynt gefnogi lles disgyblion a datblygu medrau personol a chymdeithasol pwysig.

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn ymgynghori â disgyblion i nodi'r testunau neu'r themâu yr hoffent ymdrin â nhw mewn sesiynau ABCh neu mewn gwasanaethau. Mae un ysgol yn addasu ei darpariaeth ABCh ar gyfer y chweched dosbarth bob blwyddyn ar sail yr hyn mae disgyblion eisiau ei ddysgu. Siaradodd disgyblion yn yr ysgol hon yn estynedig am berthnasedd eu gwersi a'r modd y maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddadansoddi materion a oedd yn bwysig iddyn nhw. Yn gyffredinol, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 y siaradom â nhw yn wael wrth alw i gof brofiadau dysgu mewn ABCh, ond siaradodd bron pob un ohonynt am gyflwyniadau neu wersi defnyddiol gan swyddog heddlu'r ysgol. Maent yn benodol yn cofio gwersi ar ddiogelwch ar-lein a gwersi 'Lluniau Peryglus' ynghylch secstio.

Ymagwedd ysgol gyfan at gynllunio'r cwricwlwm ABCh

Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr wedi gweithio gyda'r cyngor myfyrwyr a grwpiau eraill llais y disgybl i adolygu a gwella cynlluniau dysgu ABCh i gynnwys testunau y mae angen ymdrin â nhw'n well, ym marn disgyblion. Hefyd, mae arweinwyr yn defnyddio data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i nodi unrhyw bryderon penodol y mae angen mynd i'r afael â nhw trwy'r rhaglen ABCh.

Mae arweinwyr wedi gwrandao ar ddisgyblion, ac erbyn hyn yn defnyddio'r un grŵp staff i gyflwyno gwersi. Mae pob un o'r athrawon sy'n cyflwyno ABCh yn cymryd rhan mewn cynllunio a dod o hyd i'r ddarpariaeth ac yn cyfarfod fel tîm i adolygu a datblygu eu gwersi'n rheolaidd. Mae'r cynllun dysgu ABCh yn cwmpasu perthnasoedd iach a materion ynghylch ymddygiadau rhywiol niweidiol mewn modd sy'n briodol i oedran.

Ysgolion ffydd

Ceir hefyd rhywfaint o anghysondeb wrth ymdrin ag addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws ysgolion ffydd yng Nghymru. Mae mwyafrif yr ysgolion ffydd yn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr o ran addysg ar rywioldeb, iechyd a pherthnasoedd, gyda chynhwysiant cytbwys o addysg rhyw heterorywiol a chyfunrhywiol, a gwybodaeth am atal cenhedlu.

Ysgol ffydd yn gweithio mewn partneriaeth

Mae un ysgol ffydd yn gweithio gydag asiantaethau allanol fel yr NSPCC i gyflwyno gwersi'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol a chydlynio. Yn ddiweddar, estynnodd yr ysgol wahoddiad i fenywod drawsryweddol rannu eu profiadau â disgyblion. Cyflwynir addysg cydberthynas a rhywioldeb ym mhob grŵp blwyddyn. Ceir ymagwedd raddedig, thematig at wersi. Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd iach cyffredinol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, meddwl am ryw ym Mlwyddyn 9 a thrafod cydsynio yng nghyfnod allweddol 4, a cham-drin rhywiol yn y chweched dosbarth. At ei gilydd, mae'r rhaglen ABCh yn canolbwyntio ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, ac ym mhob cam dysgu, yn sicrhau bod perthnasoedd o'r un rhyw yn cael cymaint o sylw â pherthnasoedd heterorywiol.

Mae'r cwricwlwm arfaethedig ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb a'r cod statudol addysg cydberthynas a rhywioldeb yn achosi gwrthdaro i ychydig o ysgolion ffydd, yn enwedig ysgolion Catholig. Mae ychydig iawn o ysgolion Catholig wedi gweithio'n dda i addasu eu rhaglenni dysgu dynodedig i gynnwys gwersi ar ryw, rhywioldeb a pherthnasoedd iach mewn modd sy'n arddel amrywiaeth.

Ymagwedd gyfunol wrth gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn ysgol Gatholig

Mae un ysgol yn gweithio ar greu ymagwedd gyfunol ond gyfannol at addysg cydberthynas a rhywioldeb i ymgorffori gwerthoedd Catholig yn y MDPH iechyd a lles. Er bod yr ysgol yn defnyddio rhaglen ABCh Gatholig benodol, maent yn ychwanegu ati gyda gwersi a chyflwyniadau ynglŷn â phwysigrwydd unigoliaeth a pherthnasoedd iach. Mae hyn yn helpu'r ysgol i ddatblygu diwylliant agored ble gall disgyblion drafod materion yn ddiogel gyda staff.

Mae ychydig o ysgolion Catholig yn defnyddio rhaglenni dysgu sefydledig ar gyfer ABCh lle mae gwerthoedd a chredoau'r ffydd yn ganolog i'r cwricwlwm. Er bod y rhaglenni hyn yn cynnwys testunau perthnasol a phwysig, mae'r ffydd a chredoau Catholig yn rhan amlwg o addysgu ychydig o destunau, fel rhyw diogel ac atal cenhedlu. Gallai hyn wrthdaro ag awydd yr ysgol i fod yn gynhwysol bob amser, a gallai achosi her sylweddol i lywodraethwyr a'r esgobaeth pan fydd arweinwyr yn cynnig unrhyw newidiadau polisi. O'r herwydd, nid yw ychydig o ysgolion yn ymdrin â'r un materion rhyw yn eu cwricwla, nac yn rhoi cefnogaeth mor gryf i ddisgyblion LHDTTC+ â'r hyn a welir mewn ysgolion eraill.

Gwasanaethau a chyflwyniadau

Mewn ychydig o ysgolion, nid oes gan ABCh le digon blaenllaw yn y cwricwlwm, a'r unig ddarpariaeth ar gyfer ABCh yw trwy wasanaethau neu amser dosbarth. Fodd bynnag, mae bron pob ysgol yn sicrhau bod gwasanaethau wedi eu harwain gan werthoedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gan roi sylw i ystod o themâu priodol. Bu'n rhaid i lawer o ysgolion roi'r gorau i gynnal gwasanaethau corfforol ysgol gyfan neu flwyddyn gyfan ers dechrau'r pandemig, oherwydd cyfyngiadau o ran cadw pellter cymdeithasol. Er gwaethaf hyn, maent wedi llwyddo i gynhyrchu a darlledu gwasanaethau o ansawdd da yn ddigidol o hyd yn ystod y cyfnod hwn.

O dan amgylchiadau arferol, mae gan lawer o ysgolion raglen gynhwysfawr o weithgareddau cynlluniedig sy'n cwmpasu dathliadau cenedlaethol ac ystod eang o destunau ABCh, fel parch, ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae gwasanaethau'n aml yn ymdrin â chydarddoldeb ac amrywiaeth, cydsynio, materion LHDTTC+ ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Weithiau, cyflwynir y gwasanaethau hyn gan siaradwyr ac arbenigwyr allanol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn rhoi gwerth uchel ar gyflwyniadau gan siaradwyr allanol ac maent yn eu galw i gof yn dda fel profiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ysgolion yn gwneud digon o ddefnydd o'r cyflwyniadau hyn i gael disgyblion i ymgysylltu â dysgu pellach. Bron ym mhob sefyllfa, yn dilyn cyflwyniadau a gwasanaethau celfydd, mae'r amserlen arferol yn ailddechrau, gan adael cyfle cyfyngedig i ddisgyblion ac athrawon drafod testunau ymhellach. Mae disgyblion hyn yn cwyno eu bod yn cael negeseuon cryf am faterion sensitif ac anodd ar ddechrau'r diwrnod ysgol, ac wedyn, disgwylir iddynt fynd i wersi arferol heb unrhyw gyfle i drafod y themâu hyn, na myfyrio arnynt.

Diwrnodau 'gollwng yr amserlen'

Mae ysgolion nad ydynt yn darparu gwersi ABCh amserlenedig rheolaidd yn trefnu diwrnodau ABCh bob tymor, fel arfer ar gyfer un cyfnod allweddol ar y tro. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r pwysau ar amser y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4. Maent yn darparu rhaglen gyfunol o ddigwyddiadau, a chaiff rhai gwersi eu cyflwyno gan staff ysgol, a gwersi eraill gan arbenigwyr allanol. Mae'r cynllunio ar gyfer diwrnodau o'r fath yn llafurus a heriol gan fod rhaid i arweinwyr ddibynnu ar argaeledd cyflwynwyr, osgoi gwrthdaro ag asesiadau allanol a sicrhau bod athrawon ar gael i gyflwyno gwersi. O ganlyniad i gyfyngu i ychydig iawn o ddyddiau i gwmpasu'r cwricwlwm ABCh cyfan, mae'n anochel y gall yr ymdriniaeth â thema benodol fod yn ysgafn yn unig. Mae hyn yn atal y profiad dysgu cronol ar gyfer disgyblion. Hefyd, mae'n achosi anawsterau pellach i ddisgyblion y mae'n ofynnol iddynt newid ac addasu i ffocws penodol o un awr i'r nesaf, eto gydag amser a chyfle cyfyngedig i fyfyrion ar ddysgu. Er enghraifft, bydd disgybl nodweddiadol yn cael sesiwn ar gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl cadarnhaol, bwyta'n iach, dewisiadau gyrfu ac amrywiaeth i gyd mewn un diwrnod. Gallai'r math hwn o brofiad dysgu fod yn heriol i ddisgyblion oherwydd bod cynnwys y diwrnod mor amrywiol, a natur y diwrnodau hyn yn golygu ei bod yn anodd datblygu dealltwriaeth fanwl dros gyfnod.

Defnyddio asiantaethau allanol

Mae pob ysgol yn gwerthfawrogi cymorth a chydweithrediad asiantaethau allanol i ychwanegu at eu darpariaeth ABCh. Mae hyn yn arbennig o wir am waith Swyddog Heddlu'r Ysgol a gweithiwr ieuencid yr awdurdod lleol, pan fydd ar gael.

Ym mhob ysgol, mae cymuned yr ysgol gyfan yn canmol gwaith Swyddog Heddlu'r Ysgol yn fawr, nid yn unig o ran cyflwyno Rhaglen Graidd Cymru Gyfan, ond ynglŷn â'u menter gefnogol plismona ysgolion fel swyddogion School Beat. Yn ogystal â chyflwyno gwersi a gwneud cyflwyniadau i ddisgyblion, maent yn aml yn gweithio'n uniongyrchol ar sail un i un gyda chyflawnwyr a'u teuluoedd mewn achosion lle mae disgyblion yn torri'r gyfraith. Mae arweinwyr ysgolion yn siarad am bwysigrwydd sicrhau nad yw disgyblion sy'n croesi'r llinell yn cael eu pardduo gan eu camgymeriadau, a'r angen i gydnabod eiddilwch dynol a chynnig maddeuant. Maent yn cydnabod anhawster sicrhau cydbwysedd rhwng eu darpariaeth pan fydd achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a chefnogi hawliau'r dioddefwr, ond darparu arweiniad ar gyfer y cyflawnwr hefyd. Caiff cefnogaeth swyddogion School Beat mewn sesiynau cyfiawnder adferol ei chrosawu gan ysgolion.

Ledled Cymru, dywed ysgolion fod cymorth cyfyngedig bellach ar gyfer addysg rhyw gan wasanaeth nyrsio'r ysgol. Yn ddealladwy, nid yw asiantaethau allanol wedi gallu ymweld ag ysgolion yn ystod y pandemig oherwydd cyfyngiadau COVID-19, er bod rhai darparwyr allanol wedi parhau i gynorthwyo ysgolion trwy gyflwyno gwersi ar-lein. Mewn rhai ardaloedd, bu'n rhaid i nyrsys ysgol fynd yn ôl i weithio mewn wardiau ysbyty. Mae bron pob ysgol yn teimlo bod colli nyrs yr ysgol i gefnogi cyflwyno addysg rhyw ar gyfer gwahanol grwpiau oedran yn arwyddocaol. Er bod ychydig o ysgolion wedi trefnu eu darpariaeth eu hunain, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi llwyddo i gyflwyno gwersi addysg rhyw i'w disgyblion am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn fel arfer oherwydd nad oes gan arweinwyr ac athrawon ddigon o

hyder yn cyflwyno gwersi sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno gan staff hyfforddedig arbenigol. Mae'n glir o'n trafodaethau fod disgyblion hŷn yn awyddus i gael addysg rhyw, a dywed mwyafrif ohonynt nad ydynt wedi cael unrhyw addysg rhyw o gwbl yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn yn cynnwys disgyblion un deg saith ac un deg wyth oed yn y chweched dosbarth.

Addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm ehangach

Mewn ychydig o ysgolion, ceisir atgyfnerthu dysgu disgyblion am berthnasoedd a rhywioldeb trwy'r cwricwlwm ehangach. Er enghraifft, mae llawer o athrawon iaith ac ychydig o athrawon pwnc eraill yn siarad â balchder am y modd y maent yn defnyddio testunau, symbyliadau a digwyddiadau bywyd i archwilio themâu fel rhywiaeth a materion rhywedd. Mewn un ysgol, mae dosbarthiadau celf y chweched dosbarth yn cynnwys sesiynau sy'n procio'r meddwl ar hawliau menywod, ffeministiaeth a chydaddoldeb. Wedyn, mae ychydig o ddisgyblion yn dewis thema trais yn erbyn menywod fel man cychwyn ar gyfer eu creadigaethau, gan ganolbwyntio'n benodol ar amgylchiadau trasig llofruddiaeth Sarah Everard. Mewn enghraifft arall, mae'n ofynnol i ddisgyblion TGAU drama ymateb i symbyliadau wedi eu cynhyrchu gan y bwrdd arholi er mwyn creu darn dyfeisiedig o theatr. Eleni, mae hyn yn cynnwys llun yn dwyn y teitl 'Merch yn Rhedeg'. Mewn un ysgol, mae hyn wedi arwain at drafodaethau trylwyr am rywioli menywod mewn cymdeithas. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o drafodaethau agored ac sy'n aml yn rymusol, ar ystod o faterion pwysig mewn amgylchedd diogel. O ganlyniad i wneud hyn, mae disgyblion drama wedi perfformio darn dyfeisiedig ar gam-drin domestig.

Mae llawer o athrawon Saesneg yn dewis llenyddiaeth yn fwiadol o'r testunau gosod a ddarparwyd gan y bwrdd arholi sydd â themâu cryf sy'n adlewyrchu problemau cymdeithasol, fel casineb at fenywod, homoffobia, dial a cham-drin. Mae rhestr y testunau gosod ar gyfer Saesneg Safon Uwch yn cynnwys dramâu fel 'A Streetcar Named Desire' gan Tennessee Williams, a nofelau fel 'The Radicalisation of Bradley Manning' gan Tim Price, a 'The Handmaid's Tale' gan Margaret Atwood. Dywedodd athrawon Saesneg wrthym ni fod y rhain yn boblogaidd ymhlith disgyblion chweched dosbarth.

Mae cydraddoldeb a rhywioldeb yn themâu cyffredin mewn barddoniaeth ddethol, yn enwedig gwaith gan Sylvia Plath a Ted Hughes. Ar lefel TGAU, mae llawer o ddisgyblion ledled Cymru yn astudio themâu cwmnïaeth ac unigrwydd yn nofel John Steinbeck, 'Of Mice and Men'. Mae'r nofel hon yn sôn am wrthrycholi menywod yn ei phortread o'r cymeriad 'Curley's Wife', sy'n aros yn ddiennw trwy gydol y nofel.

Caiff disgyblion sy'n astudio Cymraeg ar lefel TGAU gyfleoedd i drafod themâu fel hyder corfforol ac ymgais merched i fodloni bechgyn yn esthetaidd pan fyddant yn astudio'r ddrama 'Walïau' gan Bedwyr Rees. Mae'r ddrama hon yn portreadu dwy ferch a dau fachgen mewn dwy ystafell newid wedi eu gwahanu gan wal lythrennol a throsiadol.

Arweinyddiaeth

Croesawodd arweinwyr ysgolion gyfranogiad eu hysgol yn yr adolygiad thematig hwn er gwaethaf y sensitifrwydd ynglŷn â'r mater. Cytunon nhw i gyd fod angen archwilio

thema aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar lefel genedlaethol, gan fod hon yn broblem gymdeithasol sy'n dylanwadu ar bobl ifanc, ac yn symud yn naturiol i ysgolion.

Yn gyffredinol, yn ystod y pandemig, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynyddu'r ffocws ar les emosiynol ac wedi diwygio darpariaeth ar ôl gofyn am farn rhanddeiliaid er mwyn gwneud gwelliannau. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion bellach yn neilltuo mwy o amser ar gyfer y gwiriad lles yn ystod amser dosbarth yn y bore er mwyn i ddisgyblion ac athrawon gael sgysiau gwerth chweil. Mae ysgolion eraill wedi ymgorffori sesiynau ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar yn y diwrnod ysgol i alluogi disgyblion a staff i ymlacio a gofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain.

Datblygu'r cwricwlwm ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb ar ôl y cyfnod clo

Mae un ysgol wedi gweithio i ddatblygu'r rhaglen addysg cydberthynas a rhywioldeb yn sgil y pandemig ac effaith cyfleoedd cyfyngedig disgyblion i weld cyfoedion a staff ysgol wyneb yn wyneb am gyfnod estynedig. Hefyd, mae arweinwyr wedi ystyried negeseuon allweddol o'r tystiolaethau a gyhoeddwyd ar wefan 'Everyone's Invited', ac o archwiliad mewnol o ddarpariaeth ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb.

O ganlyniad i'r uchod, mae'r ysgol wedi paratoi gwersi ar destunau a themâu newydd ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys:

- nodweddion 'perthynas dda' ac amrywiaeth ym Mlwyddyn 7
- cynhwysiant, beth mae bwlio yn ei olygu, a beth yw cellwair ym Mlwyddyn 8
- cam-drin domestig, secstio, materion LHDTTC+ ac atal cenhedlu ym Mlwyddyn 9
- datblygu materion rhywedd, aflonyddu a stelcio ym Mlwyddyn 10
- perthnasoedd rhywiol iach, pornograffi a thrais rhywiol ym Mlwyddyn 11 ac yn y chweched dosbarth

Mae nodweddion cyffredin ynghylch arweinyddiaeth gref o ran lles wedi dod i'r amlwg yn ystod y gwaith hwn:

- mae arweinwyr effeithiol yn rhoi pwyslais cryf ar recriwtio staff amcanus, medrus ac o safon dda
- maent hefyd yn cefnogi a herio eu staff i ddatblygu ffyrdd creadigol o gryfhau darpariaeth
- gwnânt ddefnydd effeithiol o systemau monitro a barn rhanddeiliaid i werthuso ansawdd eu gwaith a chynllunio ar gyfer gwella

Gwelwyd tystiolaeth o'r cryfderau hyn mewn arweinyddiaeth o ran lles mewn lleiafrif o ysgolion.

Defnydd cynhyrchiol o adborth rhanddeiliaid

Creodd arweinwyr mewn un ysgol eu holiadur eu hunain i ddisgyblion am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn dilyn digwyddiadau diweddar. Rhoddwyd gwersi i bob un o'r disgyblion ar beth mae aflonyddu rhywiol yn ei olygu cyn trefnu bod yr holiadur ar gael. Gadawyd yr holiadur yn agored am gyfnod hwy na'r arfer i annog disgyblion i ymateb. Wedyn, cafwyd cyflwyniad ar y canfyddiadau i bob aelod o staff, ynghyd â chynllun gweithredu'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr effeithiol yn cyflogi tîm o staff o safon dda sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r arweinwyr hyn yn fodlon mentro, yn aml yn cyflogi staff nad ydynt yn addysgu sydd ag arbenigeddau a phrofiadau y tu allan i fyd addysg, ond yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae un ysgol o'r fath yn cyflogi cyn-swyddog heddlu a gweithiwr cymdeithasol i ychwanegu at y tîm bugeiliol. Mewn ysgol arall, mae pob un o'r penaethiaid blwyddyn yn swyddogion cymorth nad ydynt yn addysgu, sydd â chefnidir sylweddol mewn gwaith cymdeithasol neu waith ieuenctid. Maent yn hynod fedrus yn gweithio gyda theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd ac asiantaethau allanol, ac yn gwneud defnydd buddiol o hyn i gefnogi disgyblion bregus neu sydd wedi dadrithio.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae uwch arweinwyr yn annog datblygiad a chreadigrwydd ac mae ganddynt yr un disgwyliadau uchel o arweinwyr canol sydd â chyfrifoldeb am ABCh ag sydd ganddynt o'r rhai sydd â chyfrifoldeb am bynciau academaidd. Maent yn neilltuo digon o amser i gydlynwyr ABCh gaffael dysgu proffesiynol a datblygiad personol. O ganlyniad i gyfyngiadau'r cwricwlwm yng nghyfnodau allweddol 4 a 5, ychydig iawn o amser sydd ar gael ar gyfer ABCh ar hyn o bryd. Yn yr ysgolion sydd â'r ddarpariaeth orau, mae arweinwyr yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cwricwlwm i sicrhau bod ganddynt drosolwg clir o ble mae testunau ABCh yn ymddangos ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, maent yn annog gwaith partneriaeth a chyfranogiad gan asiantaethau allanol, fel cwmnïau theatr mewn addysg a grwpiau arbenigol er mwyn rhoi profiadau dysgu gwerthfawr a phwysig i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn dibynnu'n ormodol ar y partneriaid allanol hyn i gyflwyno ABCh.

Map cynhwysfawr o'r ddarpariaeth

Mewn un ysgol, mae arweinwyr wedi creu map cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r map yn cynnwys manylion am ran addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn gwersi pwnc perthnasol, gwasanaethau, gweithdai a diwrnodau ABCh dynodedig. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i gael gwybodaeth uniongyrchol sylweddol am yr hyn sy'n cael ei gwmpasu i sicrhau bod darpariaeth yn parhau'n gyfoes, a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth hefyd.

Yn yr achosion gorau, mae arweinwyr yn gwneud defnydd cynhyrchiol o ddata meintiol ac ansoddol, ac adborth rhanddeiliaid, i werthuso eu gwaith a chynllunio ar gyfer gwella. Maent yn adolygu eu systemau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas at eu diben, ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r wybodaeth ynddynt i nodi

cryfderau a diffygion. O ran gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer lles, mae'r arweinwyr mwyaf effeithiol yn sicrhau bod ganddynt systemau cynhwysfawr a dibynadwy i gofnodi achosion o ymddygiad gwael ac aflonyddu sy'n cael eu deall a'u defnyddio gan bob aelod o staff. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ysgolion yn unig y mae staff yn cofnodi achosion o fwlio ac aflonyddu mewn modd cyson, yn eu categorio'n gywir neu'n gwneud hynny'n ddigon manwl. O ganlyniad, nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael cyfrif cywir o'u mynychter bob amser.

O ran diffygion mewn arweinyddiaeth, nododd arolygwyr themâu cyffredin mewn ysgolion hefyd. Y prif wendid yw'r lefel isel o ymwybyddiaeth sydd gan arweinwyr a staff yn gyffredinol am achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar draws eu hysgol. Ceir polareiddio llwyr rhwng yr hyn mae disgyblion yn dweud sy'n digwydd, a'r hyn mae staff yn ei wybod. Lleiafrif yn unig o uwch arweinwyr a ddywedodd wrthym ni eu bod nhw bron yn sicr fod cyfradd uwch o achosion yn digwydd ar draws yr ysgol na'r nifer y cawsant wybod amdanynt. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, soniodd arweinwyr am nifer fach o achosion dethol yr oeddent wedi delio â nhw, ac roedd ansawdd a phriodoldeb eu hymateb fel arfer yn dda iawn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, er bod y rhan fwyaf o staff a gafodd eu cyfweld o'r farn nad oedd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn broblem yn eu hysgol, rhoddodd eu disgyblion ddarlun gwahanol iawn.

Y cymorth sydd ei angen ar ysgolion

Mae neges glir a chyson gan bob un o'r ysgolion am yr angen am hyfforddiant a chymorth. Hefyd, maent yn croesawu cael mwy o amser cwricwlwm i ddarparu cyfleoedd ar gyfer sgysiau ystyrlon gyda disgyblion am y mater hwn, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb yn gyffredinol.

Gofynnodd staff am arweiniad ac eglurder ar beth mae aflonyddu rhywiol yn ei olygu er mwyn galluogi dealltwriaeth ar y cyd a chydlynus ar draws ysgolion. Maent eisiau hyfforddiant staff ysgol gyfan ar gyfer materion LHDTTC+, yn arbennig sut i siarad gyda ac annerch disgyblion sydd wrthi'n newid eu rhyw neu ddisgyblion trawsryweddol, a sut i siarad â nhw. Mae staff yn teimlo bod asiantaethau allanol yn cynnig arbenigedd ar sut i gyflwyno pynciau anodd o fewn addysg cydberthynas a rhywioldeb, a hoffent weld staff ysgolion yn datblygu'r maes hwn o'u gwaith. Mae llawer ohonynt yn teimlo y byddai rhoi mwy o amlygrwydd i ABCh ac addysg cydberthynas a rhywioldeb yn hynod fuddiol.

Er nad yw lleiafrif o arweinwyr ysgolion yn ymwybodol o ystod helaeth yr adnoddau sydd ar gael, mae eraill yn teimlo bod gormod o becynnau cymorth a rhaglenni dysgu. Gall chwilio am adnoddau i gefnogi dysgu fod yn llethol pan mae cymaint ohonynt. Mae cael amser i ymchwilio, dewis a rhoi cynnig ar adnoddau yn llafurus iawn. Mae arweinwyr yn awyddus i gael 'rhestr chwarae' gydnabyddedig o adnoddau sydd wedi bodloni meini prawf, y cymeradwyodd panel o arbenigwyr eu bod yn addas, yn ddiogel ac yn briodol i oedran i'w defnyddio gyda disgyblion. Mynegodd arweinwyr mewn ysgolion annibynnol bwysigrwydd rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau, a chael eu cynnwys mewn datblygiadau ar draws yr All a Chymru.

Mae ysgolion yn gweld datblygiad cyflym technoleg ddigidol, ynghyd â rhaniad rhwng y cenedlaethau ynghylch deall defnydd negyddol neu niweidiol disgyblion o

gyfryngau cymdeithasol, yn rhwystr mawr. Mae torri diwylliant cymdeithasol lle mae ymddygiad rhywiaethol, homoffobig/trawsffobig a niweidiol penodol wedi dod yn rhywbeth arferol yn her enfawr i ysgolion. Ni ddylid tanamcangyfrif yr her hon. Mae ysgolion yn glir fod rôl y rhiant mewn rheoli defnydd eu plant o'r rhyngwyd yn rhan annatod o unrhyw gynllun gweithredu. Hoffai ysgolion gael ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i amlygu effaith ymddygiadau ac agweddau rhywiol niweidiol fel bod rhieni'n deall yn well beth mae ysgolion yn ceisio'i wneud. Mae ysgolion yn gobeithio, trwy wneud hyn, y byddant yn cael cefnogaeth rhieni i addysgu pobl ifanc am amrywiaeth a phwysigrwydd perthnasoedd iach.

Mae arweinwyr bugeiliol yn gweld y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arfaethedig yn ddogfennau pwysig a fydd yn galluogi a chefnogi ymagwedd ysgol gyfan at ddarpariaeth. Maent yn gwerthfawrogi rhan ymarferwyr profiadol wrth gyd-greu hwn, ac yn hyderus y bydd y cynnwys sy'n briodol i oedran yn sicrhau ymdriniaeth gynhwysfawr â materion pwysig. Gwelant y bydd cynyddu llais y disgybl a datblygu ymgysylltiad gwell â rhieni yn galluogi ysgolion i ddarparu'r hyn sydd ei eisiau ar bobl ifanc o ran trafod a dysgu. Nododd ysgolion fod angen hyfforddiant pwrpasol gan awdurdodau lleol a, lle'n berthnasol, y consortia rhanbarthol i wella ymgysylltu â rhanddeiliaid am y testun hwn, yn arbennig defnyddio iaith briodol a sut i siarad am faterion sensitif â hyder ac argyhoeddiad.

Pam nad yw pobl ifanc yn dweud wrth eu hathrawon am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a pham nad yw ysgolion yn gwybod beth yw'r graddau'r broblem

Mae'n gymorth i archwilio mewn mwy o fanlyder rhai o'r rhesymau pam nad yw ysgolion yn ymwybodol o gyffredinolrwydd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan gynnwys ystyried pam fod pobl ifanc ddim yn dweud wrth staff am eu profiadau.

Mae gormod o ysgolion yn gweithio'n ymatebol o amgylch y broblem hon, ac nid ydynt yn ddigon rhagweithiol o ran eu hymagwedd. Yn ei hanfod, maent yn dibynnu gormod ar aros i ddisgyblion droi at staff yr ysgol i ddweud beth yw eu cwynion neu bryderon. Ym mwyafrif yr ysgolion, pan fydd staff yn ymwybodol o broblem, mae prosesau ar waith i fynd i'r afael â hi, ac ymdrinnir ag achosion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn siarad am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ddigon agored a rheolaidd i alluogi disgyblion i ddweud eu dweud yn ddiogel. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ni all staff ddisgrifio unrhyw gamau y mae eu hysgol wedi eu cymryd i hyrwyddo diwylliant yn rhagweithiol ble mae staff a disgyblion yn gwrthbrofi aflonyddu ac yn gwrthwynebu unrhyw agweddau negyddol tuag at rywioldeb neu rywedd. Dywedodd disgyblion yn yr un ysgol wrthym ni gymaint maen nhw eisiau sgwrs agored ac uniongyrchol am hyn er mwyn amlygu problemau a thynnu sylw atynt.

Yn aml, ceir diffyg dealltwriaeth o beth mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ei olygu, a sut mae'n effeithio ar ddisgyblion. Nid yw staff ysgolion bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth gyflawn o beth mae'r term aflonyddu rhywiol yn ei olygu, ac nid oes ganddynt amgyffrediad cyson o faterion cysylltiedig ehangach yn ymwneud â chydardoldeb ac amrywiaeth. Hefyd, ceir lefel amrywiol o oddefgarwch am sylwadau sy'n homoffobig neu'n rhywiaethol. Mewn gormod o achosion, mae staff yn anwybyddu achosion neu'n eu diystyru fel rhywbeth llai. Er bod prosesau diogelu ymatebol yn gadarn mewn ysgolion, nid yw'r diwylliant diogelu ehangach i gefnogi disgyblion yn y maes hwn wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ar y cyfan. Mae hyn yn atal disgyblion rhag deall sut gall gwerthoedd haniaethol fel 'caredigrwydd a pharch' y mae ysgolion yn ymfalchïo ar eu hyrwyddo, gael eu rhoi ar waith ac felly dod yn rhan o strategaethau effeithiol i dynnu sylw at aflonyddu rhywiol a homoffobia.

Nid yw ysgolion yn gwneud defnydd cynhyrchiol ac effeithiol o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt gatgoreiddio a dadansoddi achosion o fwlio ac aflonyddu. Mewn llawer o achosion, nid yw ysgolion yn cofnodi achosion o aflonyddu rhywiol yn systematig. O dan [ganllawiau gwrthfwlio statudol 2019](#) (Llywodraeth Cymru, 2019a), mae gofynion adrodd clir i ysgolion o ran bwlio ac aflonyddu. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar nifer yr achosion o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac achosion o fwlio yn seiliedig ar ryw, rhywedd a rhywioldeb. Mae disgwyliadau i awdurdodau lleol gasglu adroddiadau data tymhorol gan ysgolion. Mae'n ofynnol iddynt fonitro data ar gydraddoldeb, a rhoi gwybod i ysgolion am dueddiadau lleol. Fodd bynnag, yn y dogfennau a welwyd yn ystod ymweliadau, mae'n glir mai prin y mae ysgolion yn adrodd am achosion o fwlio, ac anaml y maent yn rhoi gwybod am aflonyddu i'r awdurdod lleol. Dywedodd arweinwyr wrthym ni nad

dynt yn cael adborth gan swyddogion awdurdodau lleol ynghylch adroddiadau bwlio tymhorol. Ymgysylltom ni â thros draean o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ymholi am sut defnyddion nhw'r data i lywio cynllunio. Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad statudol i awdurdodau lleol ymateb i'r wybodaeth hon na'i throsglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n defnyddio system rheoli gwybodaeth ddigidol neu ar-lein i gofnodi achosion a phryderon yn ei defnyddio'n ddigon da i nodi diffygion na phatrymau ymddygiad. Er bod staff ar bob lefel yn gallu defnyddio'r system, ac mewn llawer o achosion, yn ei defnyddio'n dda i rannu gwybodaeth ag arweinwyr perthnasol, nid dynt yn gwneud defnydd ehangach a mwy cynhwysfawr o'r systemau hyn. Mewn ychydig o achosion, mae dosbarthiad 'bwlio' yn rhy eang ac nid yw'n galluogi'r ysgol i gofnodi a gwerthuso achosion o fwlio homoffobig, rhywiaethol neu hyd yn oed fwlio ag iddo gymhelliant rhywiol. Mewn enghreifftiau eraill, er y gallai ysgol fod â chofnod o sawl achos o aflonyddu geiriol, ni all ddatgan faint o'r rhain sy'n gysylltiedig ag aflonyddu rhywiol. Byddai egluro'r diffiniadau o aflonyddu a bwlio yn galluogi arweinwyr i gasglu gwybodaeth werthfawr am dueddiadau a phatrymau ymddygiad, a chynllunio darpariaeth addas i ymateb i ddiffygion. Yn ychwanegol, y camau a gymerir gan ysgolion yn nodweddiadol yw bod disgyblion yn gorfod aros ar ôl yr ysgol neu'n cael eu gwahardd dros dro yn fewnol. Prin yw'r dystiolaeth o ysgolion yn cofnodi eu hymatebion adferol, er y gwyddom fod ysgolion yn darparu hyn, yn aml ar y cyd â phartneriaid allanol. Byddai cynnwys manylion am gymorth ac ymyrraeth ar gyfer y dioddefwr a'r cyflawnwr, fel ei gilydd, yn ddefnyddiol a buddiol. Ymhen amser, byddai dadansoddi llwyddiant darpariaeth o'r fath ymhellach o ran ymddygiad ac agweddau yn galluogi uwch arweinwyr i lunio casgliadau cadarn am ansawdd yr arweinyddiaeth a darpariaeth trwy ei heffaith ar les disgyblion.

Nid yw defnydd ysgolion o adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion i gynllunio ar gyfer darpariaeth a gwelliant wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae bron pob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn cymryd rhan yn arolwg y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion (SHRN) a gynhelir bob dwy flynedd. Mae arweinwyr bugeiliol yn cydnabod pwysigrwydd yr arolwg ac yn cefnogi ei weinyddu yn dda. Yn ychwanegol at dderbyn adroddiadau cenedlaethol cyhoeddedig, caiff ysgolion 'Adroddiad ar lechyd a Lles Myfyrwyr' unigol sy'n gynhwysfawr, ac yn amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella o ran safonau lles disgyblion, yn cynnwys materion yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys dadansoddiadau lefel uchel ac maent yn gyfrwng pwerus i ysgolion ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac ymgysylltu â disgyblion a rhieni ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd digon effeithiol o'u hadroddiad SHRN i gynllunio ar gyfer darpariaeth a gwelliant. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn cydnabod diffygion a phatrymau ymddygiad ynghylch materion rhywiol yn eu hadroddiad SHRN, ond prin yw'r newidiadau a wnânt i ddarpariaeth.

Atodiad 1: Methodoleg

Ymwelom ag o leiaf un ysgol uwchradd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Pan oedd gan awdurdod lleol fwy na 9 ysgol uwchradd, ymwelom ni ag ail ysgol. Yn ychwanegol, dewisom ni nifer gymesur o ysgolion a enwir ar wefan Everyone's Invited ble mae disgyblion neu gyn-ddisgyblion wedi rhannu tystiolaethau o brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Roedd ein sampl yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd.

Ni rannodd arolygwyr gydag ysgolion pam roeddent wedi cael eu dewis, ond rhoesant sicrwydd clir nad oedd ein rôl yn un ymchwiliol. Hefyd, rhoesom sicrwydd i benaethiaid na fyddem yn enwi ysgolion yn yr adroddiad ac y byddai'r holl ganfyddiadau o gyfweiliadau, craffu ar ddogfennau, grwpiau ffocws a holiaduron yn ddienw. Mae hyn oherwydd natur sensitif y pwnc, ac er mwyn gwarchod ysgolion, staff a disgyblion.

Roedd ymweliadau ag ysgolion yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfodydd cychwynnol a therfynol gyda'r pennaeth
- Cyfarfodydd â'r uwch arweinydd sy'n gyfrifol am les, a gyda'r arweinydd diogelu dynodedig
- Cyfarfodydd â'r arweinydd ysgol sy'n gyfrifol am Addysg Personol a Chymdeithasol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a/neu Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles
- Cyfarfod â grŵp o athrawon
- Cyfarfod â grŵp o staff cymorth addysgu
- Grwpiau ffocws disgyblion un rhyw yn bennaf ar gyfer dau grŵp blwyddyn ar wahân ym mhob ysgol (blynyddoedd 8-13)
- Holiadur i ddisgyblion
- Craffu ar ddogfennau ysgol perthnasol i gynnwys adroddiadau am fwlio, sampl o gynlluniau gwaith ABCh, sampl o gyflwyniadau gwasanaeth ysgol gyfan / blwyddyn

Hefyd, cynigiwyd posibilrwydd i ni gynnal sesiynau neu gyfarfodydd grwpiau ffocws penodol gyda grwpiau LHDTTC+ gweithgar a sefydledig ysgolion pe bai ysgolion yn dymuno.

Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion, cynhaliom weithgareddau grwpiau ffocws, a buom yn gweithio gyda disgyblion o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 13 ar draws 35 ysgol. Enwebom ddau grŵp blwyddyn gwahanol ym mhob ysgol, a dewis 6 merch a 6 bachgen ar hap ym mhob grŵp blwyddyn. Rhannom yr enwau hyn ag arweinwyr ysgol rhyw wythnos cyn yr ymweliadau ag ysgolion, a gofyn iddynt wirio eu haddasrwydd o ran gwydnwch emosiynol a bregusrwydd. Dewisom ddisgyblion ychwanegol yn lle unrhyw blentyn yr oedd yr ysgol yn ystyried ei fod yn rhy fregus i gymryd rhan. Gofynnem i ysgolion gyfarfod â'r disgyblion a ddewiswyd a gofyn i bob un ohonynt wahodd ffrind. Gallai'r ffrind fod o unrhyw ryw. Dewisodd llawer o ddisgyblion ddod â ffrind o'r un rhyw, a oedd yn golygu bod gennym grwpiau o

fechgyn yn bennaf, a merched yn bennaf. Gweithiodd y grwpiau cymysg prin lawn cystal â'r grwpiau un rhyw. Hefyd, estynnem wahoddiad i ysgolion oedd â grŵp disgyblion neu ddisgyblion / staff LHDTC++ gweithgar a sefydledig i ofyn a oedden nhw eisiau cymryd rhan mewn grŵp ffocws penodol. Gwelsom 6 grŵp LHDTC++ i gyd.

Rhodddwyd dalen wybodaeth cyn yr ymweliad i bob disgybl a'i ffrind, a bu ysgolion yn gohebu â rhieni ar ein rhan. Rhodddwyd cyfle i rieni eithrio eu plentyn o'r gweithgaredd grŵp ffocws. Ychydig iawn o rieni yn unig a ddewisodd eithrio eu plentyn o hyn.

Gweithiodd arolygwyr a disgyblion o lyfrynnau papur. Roedd y gweithgareddau grŵp ffocws yn gyfuniad o drafodaethau llafar a gweithgareddau ysgrifennu. Penderfynwyd gwneud hyn i alluogi disgyblion a oedd eisiau siarad i wneud hynny, gan alluogi disgyblion llai hyderus neu fwy mewnbylg i ysgrifennu eu meddyliau ar yr un pryd. Roedd yr holl gyfraniadau gan ddisgyblion yn ddiennw. Ni ofynnodd arolygwyr oedd yn ymweld eu henwau nac enw eu hysgol ar y llyfryn. Ar ddiwedd y sesiynau, gofynnwyd i ddisgyblion lenwi holiadur diennw ar-lein.

Ym mhob un o'r gweithgareddau, sicrhodd arolygwyr nad oeddent yn gofyn cwestiynau arweiniol, ac ni chynigion nhw atebion model mewn gweithgareddau / tasgau chwaith. Rhoesant anogaeth i'r disgyblion feddwl drostynt eu hunain, a doedd dim pwysau ar ddisgyblion i gwblhau pob un, neu hyd yn oed unrhyw un, o'r gweithgareddau, os nad oeddent yn dymuno gwneud hynny. Ar ddechrau'r sesiynau, gwnaeth arolygwyr hi'n glir i ddisgyblion fod ganddynt hawl i adael ar unrhyw adeg ac wedyn fe wnaethant fodelu cydsyniad trwy gydol y sesiynau.

Yn ychwanegol, cawsom drafodaethau gydag ystod o sefydliadau eraill sydd gyda diddordeb yn y maes hwn, gan gynnwys gofyn am adborth cychwynnol gan y rhan fwyaf ohonynt ar ganfyddiadau cychwynnol. Ymgysylltom gyda:

Yr Athro EJ Renold, Prifysgol Caerdydd

Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Cymorth i Ferched Cymru

Yr NSPCC

Rheolwraig Rhaglen heddlu ysgolion Cymru

Tîm Trais yn Erbyn Merched Llywodraeth Cymru

Ofsted

Atodiad 2: Diffiniadau a Geirfa

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion	Ymddygiad parhaus a dieisiau o natur rywiol gan blentyn tuag at blentyn arall sy'n gallu digwydd ar-lein, ac oddi ar-lein. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o: amharu ar urddas plentyn, a/neu wneud iddo deimlo dan fygythiad, yn israddol neu wedi'i fychanu a/neu greu amgylchedd gelyniaethus, tramgwyddus neu rywioledig. (Yr Adran Addysg, 2021)
Cywilyddio am fod yn dew	Mynegi gwawd neu feirniadaeth am rywun y bernir ei fod yn dew neu dros ei bwysau
Cywilyddio corff	Beirniadu rhywun ar sail siâp, maint neu ymddangosiad ei gorff
Dysmorffia Corfforol	Mae dysmorffia corfforol yn gyflwr iechyd meddwl lle mae person yn treulio llawer o amser yn poeni am ddiffygion y neu hymddangosiad. Mae'r diffygion hyn yn aml yn ddisylw i eraill.
ELSA	Cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol sydd wedi cael eu hyfforddi i ddarparu cymorth emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc
Heclo	Gweiddi neu alw allan sylwadau rhywiol aflonyddol neu sylwadau dirmygus awgrymiadol ar rywun yn gyhoeddus
Rhagbaratoi	Pan fydd rhywun yn meithrin perthynas, ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol gyda phlentyn neu berson ifanc er mwyn gallu ei gamddefnyddio, camfanteisio arno a/neu'i gam-drin
Secstio (rhannu delweddau noeth)	Ysgrifennu a rhannu negeseuon neu ddelweddau cignoeth gyda phobl (Llywodraeth Cymru, 2020c)
Swyno trwy dwyll	Pan fydd rhywun yn creu persona ffug neu broffil ffug ar blatfform cyfryngau cymdeithasol, fel arfer gyda bwriad i hudo pobl eraill i berthynas
Y nodweddion gwarchodedig	Y naw nodwedd warchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol (Prydain Fawr, 2010)

Ymddygiadau rhywiol niweidiol

Gellir diffinio Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol fel a ganlyn: ymddygiadau rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc o dan 18 oed sy'n ddatblygiadol amhriodol, y gallent fod yn niweidiol tuag atyn nhw eu hunain neu blant a phobl ifanc eraill neu fod yn cam-drin plentyn neu berson ifanc arall neu oedolyn. Mae'r diffiniad hwn o Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol yn cynnwys ymddygiadau trwy gyffwrdd neu heb gyffwrdd fel rhagbaratoi, arddangosiaeth, sbecian a secstio neu recordio delweddau o weithredoedd rhywiol trwy ffonau clyfar neu gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol. (Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 2020)

Niferoedd – meintiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Atodiad 3: Cyfeiriadau

Everyone's Invited (n.d.) *A Place for Survivors to Share their Stories*. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.everyonesinvited.uk/> [Darllenwyd 29 Medi 2021].

Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar gyfer UN Women UK (2021) *Prevalence and Reporting of Sexual Harassment in UK Public Spaces*. Llundain: APPG for UN Women UK. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.unwomen.org/site/wp-content/uploads/2021/03/APPG-UN-Women-Sexual-Harassment-Report_Updated.pdf [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Gwasaneth Eryl y Goron (2017) *Child Sexual Abuse: Guidelines on Prosecuting Cases of Child Sexual Abuse*. Llundain: Gwasaneth Eryl y Goron. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/child-sexual-abuse-guidelines-prosecuting-cases-child-sexual-abuse> [Darllenwyd 1 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru (2016) *Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Canllawiau i Lywodraethwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-canllawiau-i-lywodraethwyr> [Darllenwyd 1 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru (2019a) *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb: Canllawiau Statudol ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion?_ga=2.165495231.1484887661.1638460150-1577864817.1637856686 [Darllenwyd 29 Medi 2021].

Llywodraeth Cymru (2019b) *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb: Canllawiau Statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol?_ga=2.129255052.1484887661.1638460150-1577864817.1637856686 [Darllenwyd 29 Medi 2021].

Llywodraeth Cymru (2020a) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2021/01/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru.pdf> [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Llywodraeth Cymru (2020b) *Canllawiau i Leoliadau Addysg am Gam-drin Rhywiol, Camfanteisio ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan Gyfoedion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cam-drin-rhywiol-gan-gyfoedion-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol?_ga=2.224716314.1484887661.1638460150-1577864817.1637856686 [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Llywodraeth Cymru (2020c) *Rhannu Delweddau Noeth a Hanner Noeth: Ymateb i Ddigwyddiadau a Diogelu Plant a Phobl Ifanc*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/api/storage/aea1c84f-ff05-4980-baf4-65491735b5bc/sharing-nudes-and-semi-nudes-guidance-for-education-settings-in-wales-final-merged-web-w-151220.pdf> [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Me Too Movement (2021) *Me too*. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://metoomvmt.org/> [Darllenwyd 29 Medi 2021].

Ofsted (2021) *Review of Sexual Abuse in Schools and Colleges*. Llundain: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges> [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Page, N., et al. (2021) *Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2021/08/SHRN-NR-FINAL-23_03_21-cy-AMENDED06.08.21.pdf [Darllenwyd 29 Medi 2021].

Prydain Fawr (2010) *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Pennod 1. Llundain: The Stationary Office. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents> [Darllenwyd 1 Hydref 2021].

Senedd Cymru (2021) *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*. Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/4/contents> [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Weithdrefnau Diogelu Cymru (2020) *Diogelu Plant Lle Mae Pryderon Ynghylch Ymddygiad Rhywiol Niweidiol*. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p7.html> [Darllenwyd 29 Medi 2021].

Yr Adran Addysg (2021) *Sexual Violence and Sexual Harassment Between Children in Schools and Colleges: Advice for Governing Bodies, Proprietors, Headteachers, Principals, Senior Leadership Teams and Designated Safeguarding Leads*. Llundain: Yr Adran Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1014224/Sexual_violence_and_sexual_harassment_between_children_in_schools_and_colleges.pdf [Darllenwyd 30 Medi 2021].

Eitem 7

Enw'r Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad y Cyfarfod	8 Chwefror, 2022
Teitl yr Eitem	Hygyrchedd Ysgolion
Aelod Cabinet	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1 PWRPAS YR ADRODDIAD

- i) Pwrpas yr adroddiad hwn ydy nodi'r sefyllfa bresennol o ran hygyrchedd ysgolion, gan amlinellu sut y bu cyrraedd y sefyllfa hon, ac yna edrych ar y ffordd ymlaen.

2 CEFNDIR

- i) Roedd 'Cynllun Ni - Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd (2008 – 2011) yn nodi cam gweithredu fel a ganlyn:
“Gweithredu strategaeth ar gyfer sicrhau fod un Ysgol Uwchradd ym mhob rhanbarth ac un Ysgol Gynradd ym mhob dalgylch yn ddynodedig ar gyfer sicrhau mynediad at gwricwlwm llawn i blant a phobl ifanc anabl.”
- ii) Roedd arian cyfalaf penodol wedi'i adnabod ar gyfer y Strategaeth Anabledd Ysgolion. Erbyn 2017 cwblhawyd y strategaeth trwy wneud addasiadau i'r ysgol olaf yn y cynllun, sef Ysgol Llanllechid (dalgylch Ysgol Dyffryn Ogwen).
- iii) Yn ogystal ag addasu ysgolion dynodedig oedd wedi'u hadnabod o dan y Strategaeth Anabledd Ysgolion, rhoddwyd cymorth i ysgolion eraill wneud addasiadau wrth i ddisgyblion ag anableddau ddewis mynediad i'r ysgolion hynny.
- iv) Mae rhestr lawn o'r ysgolion a adnabuwyd fel ysgolion dynodedig o dan y Strategaeth Anabledd Ysgolion yn ogystal â'r ysgolion eraill y gwnaed gwaith addasu anabledd ynddynt i'w gweld yn **ATODIAD 1 - Ysgolion Strategaeth Anabledd hyd at 2017**.

3 ADDASIADAU I YSGOLION TRWY WAITH MODERNEIDDIO YSGOLION

- i) Fe welir yn y rhestr o ysgolion yn **ATODIAD 1 - Ysgolion Strategaeth Anabledd hyd at 2017** gyfeiriad at ysgolion oedd yn mynd i gael adeiladau newydd neu addasiadau i adeiladau trwy gyfrwng y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (e.e. Llanelltyd, Rhydymain, OM Edwards).
- ii) Wrth adeiladu ysgolion o'r newydd neu wrth wneud addasiadau sylweddol i adeiladau ysgolion sicrheir bod yr adeiladau newydd yn hygyrch.

4 ACHOSION YSGOLION UNIGOL

- i) O bryd i'w gilydd ceir sefyllfaoedd na ellir yn hawdd eu rhagweld, e.e. disgybl gydag anableddau yn symud i mewn i ardal newydd ac yn dymuno mynychu'r ysgol leol sydd ddim wedi'i haddasu ar gyfer disgyblion ag anableddau. Yn yr achosion hyn gwneir pob ymdrech i gwrdd â dymuniadau'r disgybl/rhieni trwy gydweithio efo'r disgybl/rhieni a'r ysgol dan sylw.
- ii) Mae gofyn i ysgolion wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau, ond yn aml mae cyfanswm cost yr holl addasiadau fyddai'n ddymunol y tu hwnt i gyllideb yr ysgol unigol.
- iii) Er nad oes cyllideb penodol gan yr Adran Addysg ar gyfer ariannu gwaith cyfalaf i gynorthwyo ysgolion i ymateb i sefyllfaoedd fel hyn, edrychir ar bob sefyllfa yn unigol gan bwyso a mesur a fyddai modd wneud cyfraniad o gyllidebau eraill yr Adran neu beidio.
- iv) Yn y gorffennol, mae'r Adran wedi llwyddo i gefnogi ysgolion unigol wrth gydbwysu'r costau o wneud gwaith ffisegol yn yr ysgol leol o'i gymharu â'r costau cludiant ychwanegol fyddai'n deillio o gludo disgybl i ysgol sy'n addas o ran hygyrchedd i'r disgybl dan sylw.

5 SEFYLLFA BRESENNOL

- i) Mae'r Adran wedi cynnal archwiliad o'r stoc ysgolion uwchradd er mwyn sicrhau bod gennym ni wybodaeth glir ynghylch hygyrchedd i ddisgyblion.

6 CAMAU NESAF

- i) Mae gwaith ar droed i adnabod ysgolion uwchradd ble'r ydym yn gwybod bod disgyblion ag anableddau ganddynt yn eu hysgolion dalgylch cynradd ar hyn o bryd. Ar gyfer yr ysgolion uwchradd hynny nad ydynt yn hygyrch, rydym yn ceisio adnabod ffynonellau ariannol er mwyn gallu cyflawni'r gwaith hygyrchedd sydd ei angen yn yr ysgolion.

7 ARGYMHELLION

- i) Gofynnir i'r aelodau gyflwyno sylwadau ar y sefyllfa hygyrchedd ysgolion

Ysgolion Strategaeth Anabledd hyd at 2017

Ysgol	Gwaith wedi'i gyflawni	Gwaith pellach wedi'i adnabod	Sefyllfa gyfredol
Arfon			
Uwchradd Dynodedig Arfon			
Syr Hugh Owen	Wedi'i haddasu'n llawn	Uwchraddio'r lifft	✓
Uwchradd Eraill Arfon			
Friars	Mwyafrif wedi'i addasu	Lifft i gael mynediad i'r bloc Celf Canllawiau mewn rhai ardaloedd Ail-wynebu rhai safleoedd ardaloedd ar yr iard	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn
Dyffryn Nantlle	Lled addas	Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Shafft lifft Rampiau allanfa tân. Ramp i lawr am y Neuadd/ffreutur angen sylw.	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn
Tryfan		Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Ramp neu lifft prif mynedfa Shafft lifft (Ail lawr) Ramp i mewn i fynedfa'r gampfa (Angen sylw) Ramp i mewn i fynedfa pen arall i'r ysgol (Ochr Caernarfon) Rhiniogau bloc newydd angen sylw Grisiau x 2 i'r ail lawr angen lliw cyferbyniol Rampiau lle mae stepiau diangfeydd tân	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn

		Platfform lifft i gael mynedfa ir llwyfan.	
Dyffryn Ogwen		Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Ramp neu lifft prif mynedfa Dim mynedfa i'r gampfa oddi fewn i'r ysgol. Lliwiau cyferbyniol ar y grisiau. Canllawiau wedi ei gosod wrth stepiau i fewn ac allan Canllawiau i gael ei gosod ar y grisiau. Rampiau lle mae stepiau diangfeydd tân Platfform lifft i gael mynedfa ir llwyfan.	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn
Brynrefail			✘ Ni fyddai'r ysgol yn addas hyd yn oed petai gwariant sylweddol yn cael ei wneud
Cynradd Dynodedig Dalgylch Syr Hugh Owen			
Bontnewydd			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Syr Hugh Owen			
Hendre			✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Bangor			
Cae Top			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Bangor			
Hirael			✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Dyffryn Nantlle			
Bro Lleu			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Dyffryn Nantlle			
Bro Llifon			✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Dyffryn Ogwen			
Llanllechid			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Dyffryn Ogwen			
Cynradd Dynodedig Dalgylch Brynrefail			
Gwaun Gynfi			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Brynrefail			

Dwyfor			
Uwchradd Dynodedig Dwyfor			
Eifionydd	Lled addas	Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Ail-wynebu rhai safleoedd / ardaloedd ar y iard. Ail osod slabiau sydd yn anwastad mewn ardaloedd tu allan i'r ysgol Rhiniogau angen cael eu hamlygu – lliw cyferbyniol Rampiau lle mae stepiau diangfeydd tân	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn
Uwchradd Eraill Dwyfor			
Glan y Môr	Wedi'i haddasu'n llawn		✓
Botwnnog		Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Lifft diffygiol yn y bloc newydd. Shafft lifft yn y brif ysgol. Ramp neu "platform lift" i'r brif fynedfa. Lliwiau cyferbyniol ar y grisiau i gyd Rampiau lle mae stepiau diangfeydd tân	✗ Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn Annhebygol y byddai'r ysgol yn addas hyd yn oed petai gwariant sylweddol yn cael ei wneud
Cynradd Dynodedig Dalgylch Eifionydd			
Eifion Wyn			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Eifionydd			
Garndolbenmaen	Rampiau ac addasu toiled		✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Glan y Môr			
Abererch			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Glan y Môr			
Chwilog	Yst Ffisio + Toiled Ramp		✓

Cymerau	Yst Ffisio, cawod a thoiled		✓
*Llanbedrog	Uwchraddiad ysgol		✓
*Nefyn			✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Botwnnog			
Pont y Gof			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Botwnnog			
*Llanbedrog	Uwchraddiad ysgol		✓
*Nefyn			✓
Meirion			
Uwchradd Dynodedig Meirion			
Bro Idris	Lled addas	Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Shafft lifft yn y bloc technoleg / gwyddoniaeth. Platfform lifft i gael mynediad i'r llwyfan Dim mynedfa i'r bloc Ffrangeg.	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn
Uwchradd Eraill Meirion			
Tywyn	Lled addas	Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Ramp i mewn i'r brif fynedfa – er bod modd cyrraedd y dderbynfa o ben arall i'r ysgol. Ail osod "slabiau" lle mae angen. Gosod canllawiau mewn rhai ardaloedd. Rampiau lle mae stepiau / diangfeydd tân	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn
Ardudwy		Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Shafft lifft i'r ail lawr. Rampiau diangfeydd. Lliwiau cyferbyniol ar holl risiau	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn

		Gosod canllawiau lle mae step i fewn ac allan Ail osod canllawiau ar y grisiau. Ail wynebu mannau ar y buarth / iard chwarae Rampiau lle mae stepiau diangfeydd tân	
Y Bala	Ysgol yn cael ei haddasu a'i huwchraddio	Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu.	Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn Lleoliadau rhai dosbarthiadau ddim yn caniatáu mynediad i gadair olwyn
Y Moelwyn		Ystafell Therapi - Pod neu adeiladu o'r newydd - os nad oes ystafell ar gael i'w haddasu. Ramp prif mynedfa Shafft lifft Rampiau lle mae stepiau diangfeydd tân Platform lifft i gael mynediad i'r llwyfan.	* Ysgol ar wasgar Rhai amgylchoedd yn iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn Dim mynediad llawn i alluogi unigolion integreiddio'n gyflawn Os oes gwariant yn cael ei wneud yn yr ysgol yma mae angen ail strwythuro a lleoli dosbarthiadau. – Trafodaeth bellach
Cynradd Dynodedig Dalgylch Bro Idris			
Llanelltyd ?			✓
Rhydymain ?			✓
Cynradd Eraill Bro Idris			
Cynradd Dynodedig Dalgylch Tywyn			
Craig y Deryn			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Tywyn			
Penybryn	Uwchraddiad ysgol		✓
Pennal	Toiled anabl		✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Ardudwy			

ATODIAD 1

Tan y Castell			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Ardudwy			
Llanbedr	Rampiau		✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Y Berwyn			
Bro Tryweryn			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Y Berwyn			
OM Edwards ?	Uwchraddiad ysgol		✓
Cynradd Dynodedig Dalgylch Y Moelwyn			
Maenofferen			✓
Cynradd Eraill Dalgylch Y Moelwyn			

Eitem 8

Blaen-raglen Pwyllgorau Craffu 2021-22

Diweddariad: Rhagfyr 2021

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

10/06/2021
<ul style="list-style-type: none">• Y Gymraeg ym myd Addysg gan gynnwys y Canolfannau Iaith• Grantiau i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion
21/10/2021
<ul style="list-style-type: none">• Galw i Mewn penderfyniad y Cabinet – Ysgol Abersoch• Cefnogaeth i fusnesau• Gagendor Lles , gan gynnwys<ul style="list-style-type: none">➤ effaith covid <u>ar addysg</u> ein holl ddisgyblion➤ pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant ein holl ddisgyblion
09/12/2021
<ul style="list-style-type: none">• Lefel diweithdra a chefnogaeth nol i swyddi• Adroddiad Blynyddol Addysg• Cinio ysgol
08/02/2022
<ul style="list-style-type: none">• Fframwaith Adfywio• Cefnogaeth i athrawon gyda materion cam drin ar y we• Cynllun hygyrchedd ysgolion
31/03/2022
<ul style="list-style-type: none">• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru• Twristiaeth gynaliadwy• Cwricwlwm newydd i Gymru gan gynnwys rhoi sylw i addysg awyr agored